Arolygiaeth Prawf EM

# Adroddiad Blynyddol 2021
# Arolygiad o'r gwasanaethau prawf

Arolygiaeth Prawf EM

## Gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid o ansawdd uchel sy'n newid bywydau pobl er gwell

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gosod y safonau sy'n taflu goleuni ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn. Mae ein harolygiadau, ein hadolygiadau, ein hymchwil a'n cynnyrch ymarfer effeithiol yn darparu barn a chyfarwyddyd awdurdodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn defnyddio ein llais i sbarduno newid yn y system, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a chymunedau.

### Cynnwys


1. Prif ffeithiau ..... 4
2. Trosolwg gan y Prif Arolygwyr ..... 7
3. Y newid i Wasanaeth Prawf unedig ..... 13
4. Her barhaus Covid-19 ..... 22
5. Arolygiadau thematig – materion allweddol sy'n effeithio ar wasanaethau prawf ..... 33
   Llety a digartrefedd ..... 33
   Cydraddoldeb hiliol yn y gwasanaeth prawf: profiadau defnyddwyr a staff gwasanaeth prawf du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ..... 36
   Arolygiad thematig ar y cyd o driniaeth cyffuriau yn y gymuned a gwaith adfer gyda phobl ar brawf ..... 39
   Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol: Adolygu'r dystiolaeth ..... 43
   Arolygiad thematig ar y cyd o'r daith cyfiawnder troseddol ar gyfer unigolion ag anghenion ac anhwylderau iechyd meddwl ..... 44
   Defnyddio monitro electronig fel arf i'r Gwasanaeth Prawf i leihau aildroseddu a rheoli risg ..... 46
6. Adolygiadau o Droseddau Difrifol Pellach ..... 50
7. Mewnwelediadau Academaidd ac Ymchwil ..... 57
8. Ein canllawiau ymarfer effeithiol ..... 63
9. Rhoi llais i bobl sydd ar brawf ..... 67

Atodiad 1: Arolygiadau craidd o wasanaethau ..... 71


*Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.*

© Hawlfraint y Goron 2022

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi bod hawlfraint gwybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael

caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EM

Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil

1 Bridge Street West

Manceinion

M3 3FX


Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

ISBN: 978-1-914478-35-2

# 1. Prif ffeithiau

Ar 26 Mehefin 2021, daeth holl adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) a oedd yn cael eu rhedeg yn breifat i fod yn Wasanaeth Prawf sector cyhoeddus unedig newydd wedi'i rannu'n 12 rhanbarth.

1) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru
2) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr
3) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Manceinion Fwyaf
4) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr
5) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Swydd Efrog a Humber
6) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gorllewin Lloegr
7) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr
8) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Dwyrain Lloegr
9) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Llundain
10) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth De Orllewin Lloegr
11) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Canol De Lloegr
12) Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Caint, Surrey a Sussex




### Ffeithiau am Arolygiaeth Prawf EM:

| Cyhoeddodd yr Arolygiaeth: | |
|---|---|
| 6 | Archwiliadau prawf thematig |
| 3 | Canllawiau Ymarfer Effeithiol (Prawf) |
| 6 | Bwletinau Ymchwil a Dadansoddi |
| 17 | Mewnwelediadau Academaidd |

Yn ystod pandemig Covid-19, addasodd yr Arolygiaeth ei phrosesau arolygu i weithio o bell, i sicrhau y gallem barhau i ddarparu data arolygu ac ymchwil er budd gwasanaethau prawf a'r system cyfiawnder troseddol ehangach. Er bod arolygiadau o wasanaethau unigol wedi'u gohirio am gyfnod, parhaodd yr Arolygiaeth i fonitro cynnydd yn ofalus drwy arolygiadau thematig a gwaith ymchwil, fel y manylir yn yr adroddiad hwn.

### Ffeithiau am boblogaeth y gwasanaeth prawf: [1]

**234, 827** Nifer y bobl dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf

**69409** Yn y carchar

**68273** Gorchmynion cymunedol

**62684** Trwydded

**40210** Gorchmynion dedfryd ohiriedig

**-13%** Y gostyngiad yn nifer yr unigolion sy'n dechrau rhaglenni achrededig Gorffennaf – Medi 2020 – Gorffennaf – Medi 2021 (y rheini sydd ar orchmynion cymunedol neu ddedfryd ohiriedig)

[1] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2022). Ystadegau Achosion Rheoli Troseddwyr fel yr oeddent ar 30ain Medi 2021.

## Llety: [2]

Y rheini sydd ar orchmynion cymunedol neu ddedfryd ohiriedig

**85%** Llety sefydlog

**15%** Llety dros dro a digartref

**Y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa**

**55%** Llety sefydlog

**45%** Llety dros dro a digartref

## Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

Y rheini sydd ar orchmynion cymunedol neu ddedfryd ohiriedig

**38.5%** Cyflogedig

**61.5%** Di-waith

**Y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa**

**9.6%** Cyflogedig

**90.4%** Di-waith

## Cyfraddau aildroseddu o fewn 12 mis:[3]

**28.1%** Ar gyfer y rheini a ddechreuodd ddedfryd gymunedol neu ddedfryd ohiriedig yn dechrau rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020.

**57.5%** Ar gyfer y rheini sy'n cael eu rhyddhau o ddedfryd o garchar am lai na 12 mis rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020.

**22.8%** Ar gyfer y rheini sy'n cael eu rhyddhau o ddedfryd hirach (12 mis neu fwy).

[2] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). Diweddariad Blynyddol ar Berfformiad y Gymuned hyd at fis Mawrth 2021.

[3] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (Ionawr 2022). Ystadegau aildroseddu wedi eu profi: Ebrill 2019 i Mawrth 2020.

## Modelau Darpariaeth Eithriadol (EDM) – llinell amser

Cafodd EDMau eu rhoi ar waith fel rhan o'r ymateb 'Rheoli Troseddwyr' i bandemig Covid-19, gan gefnogi cyfyngiadau ehangach y llywodraeth ar symud a chyswllt.

Mae Safonau Cenedlaethol yn gyfres gyfarwyddol o lefelau a phrosesau cyswllt sylfaenol ar gyfer pobl sydd ar brawf (y gellir eu amrywio a'u haddasu gan ranbarthau). Cafodd y broses o'i roi ar waith ei ohirio yn ystod y pandemig nes i'r Gwasanaeth Prawf adael EDM.

Mawrth 2020
cyhoeddir cyfnod clo cenedlaethol, ac ar 24 Mawrth 2020 mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn cyhoeddi canllawiau'r Model Darpariaeth Eithriadol (EDM) i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Goblygiadau cyffredinol hyn yw bod gwaith di-dâl (UPW) a darparu rhaglenni achrededig yn cael eu gohirio i raddau helaeth, a chysylltir â'r rhan fwyaf o achosion dros y ffôn yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

02 Mehefin 2020
Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn cynhyrchu 'trywydd at adferiad', sy'n galluogi i'r Gwaith Di-dâl a'r gwaith o ddarparu rhaglenni achrededig ailddechrau, a chynnydd yn y gwaith o ddarparu apwyntiadau swyddfa wyneb yn wyneb gyda phobl sydd ar brawf. Mae hyn yn effeithio ar gapasiti oherwydd cadw pellter cymdeithasol.

05 Tachwedd 2020
cyhoeddir ail gyfnod clo, am bedair wythnos hyd at fis Rhagfyr 2020, ac ar 04 Ionawr 2021, cyhoeddwyd trydydd cyfnod clo, sy'n lleihau Gwaith Di-dâl, rhaglen achrededig a darpariaeth wyneb yn wyneb. Mae rhagor o effaith ar gapasiti oherwydd cadw pellter cymdeithasol.

Mawrth 2021
mae llacio'r cyfyngiadau symud yn dechrau fesul cam ac mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn darparu canllawiau EDM wedi'u diweddaru ar gyfer gwasanaethau, sy'n galluogi mwy o waith di-dâl, rhaglen achrededig a darpariaeth wyneb yn wyneb. Effeithir ar gapasiti o hyd oherwydd cadw pellter cymdeithasol.

**Mehefin 2021**
Uno'r Gwasanaeth Prawf.

Medi 2021
Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Prawf bod yr adferiad yn gwella ddigon i symud i fodelau EDM 'gwyrdd' – gan ganiatáu mwy o gapasiti mewn swyddfeydd a chynyddu cyswllt wyneb yn wyneb â phobl sydd ar brawf, yn ogystal ag ar gyfer Gwaith Di-dâl a darparu rhaglenni achrededig.

Hydref 2021
Pob rhanbarth i weithio tuag at adael EDM a mabwysiadu Safonau Cenedlaethol newydd. Bydd Bwrdd Rheoli Galw a Risg (DMRB) yn helpu i wreiddio a gweithredu'r safonau.

Rhagfyr 2021
Y Llywodraeth yn cyhoeddi 'Cynllun B' wrth i amrywiad Omicron o Covid-19 effeithio ar y DU.

Ionawr 2022
Mae holl ranbarthau'r Gwasanaeth Prawf yn dychwelyd i ddarpariaeth EDM tan fis Chwefror 2022.

## 2. Trosolwg gan y Prif Arolygwyr



Mae wedi bod yn flwyddyn o heriau enfawr a diwygio strwythurol sylweddol iawn i'r gwasanaeth prawf gan ei fod wedi rheoli dwy her y pandemig Covid-19 parhaus ac wedi paratoi ar gyfer uno'r gwasanaeth yn y sector cyhoeddus ym mis Mehefin 2021.

Adeg uno, dywedais na fyddai newid strwythurol ynddo'i hun yn ddatrysiad hud a lledrith. Nid yw trosglwyddo miloedd o staff a degau o filoedd o achosion o ddarparwyr y sector preifat i'r Gwasanaeth Sifil yn mynd i'r afael â rhai o'r materion tanategol a chwbl sylfaenol y mae ein harchwiliadau wedi'u datgelu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain wedi cynnwys diffyg difrifol o staff rheng flaen a'r llwythi achosion gormodol y mae hyn wedi'u creu – yn ogystal â graddau rheolwyr canol sydd wedi'u gorlwytho, a
llety etifeddol o ansawdd gwael gan yr hen Wasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS). Nid yw ychwaith yn datrys y ddiffyg buddsoddiad dros y degawd diwethaf yn yr ecosystem ehangach – iechyd meddwl, triniaeth am gyffuriau a phartneriaethau aml-asiantaeth – y mae'r gwasanaeth hefyd yn dibynnu arnynt ac y mae ein harolygiadau thematig diweddar wedi dangos eu bod yn dreuliedig a dan straen. Mae effaith Covid-19 wedi gwneud y sefyllfa hon yn waeth o lawer.

Canfu ein harchwiliad thematig o'r paratoadau ar gyfer uno'r Gwasanaeth Prawf yn y cyfnod oedd yn arwain at fis Mehefin 2021 fod y rhaglen newid fawr hon, ar y cyfan, wedi cael ei rheoli'n dda yn lleol ac yn genedlaethol, er bod gennym rai pryderon am y bylchau posibl o ran parhad gwasanaethau cymorth ychwanegol wrth i set newydd o gontractau gael eu rhoi ar waith. Yn ymarferol, ni chafwyd unrhyw darfu mawr ar y ddarpariaeth gwasanaeth dros y cyfnod pontio wrth i achosion a staff gael eu trosglwyddo. Fodd bynnag, fel y mae'r Gwasanaeth Prawf ei hun wedi cydnabod, dim ond dechrau'r daith oedd hyn. Mae trawsnewid go iawn yn daith lawer hirach, sy'n galw am fuddsoddiad ac arweinyddiaeth ychwanegol a pharhaus yn ogystal â newid diwylliant.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau ein harolwg ôl-uno mawr cyntaf o staff prawf ym mis Medi, yr ymatebodd 1,500 iddo – un o bob 10 aelod o staff. Roedd yn dangos nad oedd hanner yr ymatebwyr wedi gwneud penderfyniad terfynol o hyd ynghylch a oedd uno wedi gwneud y gwasanaeth yn well neu'n waeth. Dim ond 12 y cant oedd yn barod i ddweud ei fod wedi gwella'r ddarpariaeth. Dywedodd hanner hefyd fod nad oeddent yn dal i allu rheoli eu llwyth gwaith 'i ryw raddau' neu 'ddim o gwbl' dri mis ar ôl uno, a dywedodd ychydig dros hanner fod ganddynt fynediad digonol at wasanaethau ar gyfer yr achosion a oruchwyliwyd ganddynt.

Yn ein hadolygiad thematig o'r paratoadau ar gyfer pontio, fe wnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd gwneud yn siŵr bod hen staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn teimlo'n rhan o un diwylliant unedig a'u bod yn cael yr un parch at eu sgiliau a'u profiad. Mae ein harolwg yn awgrymu bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd i wneud i hyn ddigwydd, gyda chyn weithwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo bod y newidiadau i'r uno wedi cael eu rhoi ar waith yn dda, ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo fel 'y perthynas tlawd' yn y strwythur unedig, gyda'u sgiliau a'u profiad penodol yn cael eu tanbrisio.

### Effaith Covid-19

Fel y dengys pennod pedwar, mae pandemig Covid-19 wedi arwain at heriau enfawr ychwanegol. Ar gyfer pob mis ond tri yn 2021, roedd y Gwasanaeth Prawf yn gorfod gweithredu o dan yr hyn a elwir yn 'fodelau darpariaeth eithriadol' (EDM), i sicrhau ei fod yn gweithredu mewn ffordd ddiogel o ran Covid-19. Roedd yr EDM hyn yn amrywio ar draws swyddogaethau prawf (timau llys, rheoli dedfrydau, adeiladau cymeradwy, ayb). Roedd pob un ohonynt yn cynnwys addasiadau sylweddol i arferion 'busnes fel arfer', er mwyn lleihau'r cyswllt wyneb yn wyneb rhwng y gwasanaeth a'r bobl a oruchwyliwyd ganddo neu'r asiantaethau eraill y bu'n gweithio gyda hwy. Cafodd safonau gwasanaeth cenedlaethol a'r trefniadau perfformiad arferol eu gohirio hefyd – gan ganolbwyntio ar archwiliadau lles a'r risg o niwed.

Mae'r effaith ar rai swyddogaethau prawf craidd wedi bod yn ddifrifol. Ar gyfer Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ar ddechrau 2021, roedd bron i dri chwarter yr holl gysylltiadau â phobl ar brawf dros y ffôn a dim ond 19 y cant oedd yn rhai wyneb yn wyneb. Am dri mis cyntaf 2021, roedd yn rhaid i bob parti gwaith di-dâl yn yr awyr agored roi'r gorau iddi a daeth pob ymyriad wyneb yn wyneb ar sail grŵp i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol i ben.

Mae effaith hyn i gyd ar y ddarpariaeth yn glir. Yn genedlaethol, ar ddiwedd mis Tachwedd 2021, roedd dros 13,000 o orchmynion gwaith di-dâl wedi cyrraedd y pwynt 12 mis heb gael eu cwblhau – sy'n golygu y byddai'n rhaid iddynt fynd yn ôl i'r llys am estyniad – gan gynrychioli degau o filoedd o oriau o ad-daliad cymunedol heb ei gwblhau. Roedd y gwaith o ddarparu rhaglenni achrededig yn gwella, ond cyrhaeddwyd dim ond 70 y cant o'r lefelau cyn y pandemig.

Er bod y Gwasanaeth Prawf wedi gallu dychwelyd at y safonau cenedlaethol o fis Hydref 2021 ymlaen, mewn rhan helaeth o'r wlad dim ond ar raddfa fach y gallai hyn ddigwydd, ac roedd y don newydd o heintiau Covid-19 a gyflwynwyd gan yr amrywiolyn Omicron ym mis Rhagfyr wedi arwain at gannoedd o staff yn profi'n bositif ac yn dychwelyd i drefniadau EDM ar ddechrau 2022 – gan arafu'r cynnydd a wnaed ar waith di-dâl a meysydd eraill.

## Arolygiadau ar ôl uno Arolygiaeth Prawf EM

Mae Covid-19 hefyd wedi cael effaith fawr ar ein cynlluniau arolygu ac wedi golygu nad oeddem yn gallu cwblhau'r ail rownd o arolygiadau cyn-uno roeddem wedi'u cynllunio. O'r 14 (allan o 28) Cwmni Adsefydlu Cymunedol a gwasanaethau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol roeddem wedi gallu eu harolygu rhwng haf 2019 a gwanwyn 2021, roeddem wedi nodi bod pump yn 'Dda' a'r gweddill 'Angen gwella'. Yn ein cyfres olaf o arolygiadau o dan y trefniadau *Gweddnewid Adsefydlu* yng ngwanwyn 2021, roedd yn gadarnhaol gweld gwelliannau yn y De Orllewin, lle gwelsom fod disodli Working Links gan Seetec, fel darparwr CRC ar gyfer ardaloedd Dyfnaint, Dorset a Chernyw, ac ardaloedd Bryste, Swydd Gaerloyw, Gwlad yr Haf a Wiltshire, wedi arwain at welliannau sylweddol yn ysbryd y staff. Er bod rhai o'n sgoriau asesu achosion yn dal i beri pryder, roeddent wedi gwella, gyda gwaith arbennig o drawiadol gan dimau Through the Gate Seetec yn y De Orllewin, a oedd wedi parhau i ddarparu drwy'r pandemig.

Er mwyn rhoi'r amser a'r lle angenrheidiol i'r Gwasanaeth Prawf fynd drwy'r broses o bontio i strwythur unedig, gwnaethom ohirio ein harchwiliadau prawf craidd lleol rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021 wrth i ni gwblhau ein cynlluniau ar gyfer methodoleg arolygu newydd (gweler atodiad 1). Rydym bellach wedi uno ein methodolegau ar wahân blaenorol ar gyfer Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i greu un set o naw safon ar reoli dedfrydau i'w defnyddio ym mhob uned darparu prawf leol (PDU). Mae'r rhain yn sicrhau ein bod yn craffu ar ansawdd goruchwylio pob achos a archwiliwn, o'r adroddiad llys cyntaf i ansawdd asesu, cynllunio a chyflawni chwe mis ar ôl dedfrydu (ar gyfer achosion dedfryd gymunedol) neu ar ôl rhyddhau o'r carchar, ar gyfer y rhai ar drwydded ôl-ryddhau (sydd

bellach yn ffurfio'r rhan fwyaf o lwyth achosion unedig y Gwasanaeth Prawf). Rydym hefyd wedi ychwanegu degfed safon, sy'n mesur y cynnydd y mae person ar brawf wedi'i wneud yn ystod yr un cyfnod o oruchwyliaeth yn erbyn canlyniadau allweddol fel aildroseddu, llety, neu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ni fyddwn yn rhoi sgôr i'r safon hon yn ystod cylch cyntaf ein harchwiliadau PDU wrth i ni graffu ar y canlyniadau, ond byddwn yn cyhoeddi'r data.)

Gyda'r cyfyngiadau parhaus ar gapasiti swyddfeydd prawf lleol a orfodwyd o ganlyniad i'r pandemig, nid ydym wedi gallu cynnal arolygiadau prawf ar y safle ers mis Mawrth 2020 ond rydym wedi llwyddo i addasu ein methodoleg er mwyn gallu ei chyflwyno'n llawn drwy gyfweliadau o bell, grwpiau ffocws a chraffu ar ffeiliau achos. Mewn rhai ffyrdd, mae hyn wedi ei gwneud yn haws i staff prawf a rheolwyr gymryd rhan a lleihau'r baich o orfod teithio ar draws ardaloedd, a all fod yn ardaloedd daearyddol mawr, i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws neu gyfweliadau. Fodd bynnag, bu'n brofiad llai boddhaus i'm timau arolygu, sy'n awyddus i fynd yn ôl i'r maes.

Gan ddefnyddio ein methodoleg a'n safonau newydd ar gyfer y gwasanaeth unedig (gweler atodiad 1) a'n technegau arolygu o bell wedi'u haddasu, fe wnaethom ailddechrau ein rhaglen arolygu leol graidd ddiwedd mis Hydref 2021, gan ganolbwyntio ar ddau PDU yn Ne Cymru – Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, a Gwent.

Roedd y canlyniadau'n siomedig. Er bod Cymru wedi uno ei swyddogaethau rheoli dedfrydau flwyddyn cyn Lloegr, ym mis Rhagfyr 2019, roedd dechrau pandemig Covid-19 dri mis ar ôl hyn a ffactorau lleol eraill, fel cau prif swyddfa Abertawe oherwydd asbestos, wedi effeithio'n amlwg ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Rhoddwyd gradd gyffredinol 'Annigonol' i PDU Castell-nedd Port Talbot Abertawe, a barnwyd bod llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym yn foddhaol yn erbyn ein holl safonau ansawdd. Yng Ngwent, gwelsom ddarlun tebyg, gyda graddau 'Annigonol' yn erbyn tri o'r pum safon arolygu achosion. Roedd problemau cenedlaethol yn ymwneud ag ôl-groniadau hefyd yn amlwg. Yn Abertawe, er enghraifft, gwelsom fod 34 y cant o achosion gwaith di-dâl wedi cyrraedd y pwynt 12 mis heb gael eu cwblhau, a bod 75 y cant o raglenni achrededig heb ddechrau eto (er bod y gyfradd yn well ar gyfer ymyriadau i bobl a oedd wedi cyflawni trosedd rhywiol).

Wrth i'r pandemig lacio a'r Gwasanaeth Prawf yn gallu dychwelyd at ei fodel gweithredu dewisol, ac wrth i safonau cenedlaethol a threfniadau perfformiad gael eu hadfer, rwy'n gobeithio y bydd y perfformiad yn gwella eleni. Fodd bynnag, nid wyf yn disgwyl i hynny ddigwydd dros nos ac mae ôl-groniadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn debygol o barhau ymhell i 2022/2023, os nad y tu hwnt i hynny.

## Diogelu'r cyhoedd a risg o niwed

Yn fy adroddiadau blaenorol, rwyf wedi tynnu sylw at fy mhryderon ynghylch ansawdd y gwaith a wneir i sicrhau bod risgiau posibl i'r cyhoedd yn cael eu rheoli'n dda – un o swyddogaethau craidd a hanfodol y gwasanaeth. O dan ein rhaglen arolygu flaenorol, gwelsom mai asesu a rheoli'r risgiau hyn oedd y maes perfformiad gwannaf. Roedd llai na hanner yr achosion CRC a arolygwyd gennym yn ddigonol mewn perthynas â'n cwestiynau allweddol ynghylch risg o niwed ar dri safon – ac nid llawer uwch na hanner o ran asesu. Er i ni ganfod bod rheoli achosion risg uwch o niwed difrifol yn well, roedd yr achosion o risg o niwed difrifol canolig ac isel yn sylweddol waeth. Y rheswm am hyn yw mai achosion risg o niwed difrifol canolig yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf, gan gynnwys, er enghraifft, degau o filoedd o droseddwyr cam-drin domestig. (Maen nhw hefyd yn cyfrif am 60 y cant o'r holl ddynladdiadau a gyflawnir gan bobl ar brawf.)

Gyda miloedd o'r achosion risg canolig o niwed difrifol hyn yn symud o'r CRC i'r Gwasanaeth Prawf unedig ym mis Mehefin 2021, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i sicrhau eu bod yn cael

eu goruchwylio'n ddiogel, felly roedd canlyniadau ein harchwiliadau PDU cyntaf o'r gwasanaeth unedig ym mis Tachwedd 2021 yn siomedig. Gwelsom fod ansawdd asesu, cynllunio a darparu yn sylweddol waeth ar gyfer achosion risg ganolig o niwed difrifol nag ar gyfer y rhai risg uwch, yn enwedig ar gyfer achosion ar orchmynion cymunedol gan y llys.

Ers mis Ebrill 2021, ar gais Ysgrifennydd Gwladol blaenorol, mae'r Arolygiaeth hefyd wedi bod yn adolygu sampl o'r holl adolygiadau Trosedd Difrifol Pellach (SFO) a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Prawf ei hun – y cynhaliwyd tua 500 ohonynt yn 2020/2021 – i sicrhau bod y gwersi cywir yn cael eu dysgu. Adroddir ar ganlyniadau saith mis cyntaf ein proses sicrwydd ansawdd SFO ym mhennod chwech yr adroddiad hwn. Yn gyffredinol, gwelsom fod tua chwech o bob 10 yn foddhaol, gyda'r gweddill angen gwelliant o leiaf, os yw'r gwersi llawn i gael eu dysgu. Roedd gwendidau cyffredin yn cynnwys methiant i ddadansoddi diffygion 'pam' mewn ymarfer, a diffyg craffu a herio o ran lefelau uwch o reolwyr sy'n gysylltiedig ag achos – yn ogystal â'r staff rheng flaen iau.

## Arolygiadau thematig

Gyda llai o gyfle i gynnal arolygon lleol dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynyddu nifer yr adolygiadau thematig cenedlaethol a gynhaliwyd – gyda chwech wedi'u cyhoeddi ers fy adroddiad blynyddol diwethaf. Mae'r rhain wedi edrych ar adfer y gwasanaeth ar ôl y cyfyngiadau symud Covid-19 cyntaf; ar y paratoadau ar gyfer uno; ac ar nifer o ffactorau sbarduno allweddol ar gyfer aildroseddu – yn enwedig defnyddio cyffuriau dibynnol a salwch meddwl. Buom hefyd yn arolygu datblygiadau diweddar ym maes monitro electronig ac yn edrych ar gydraddoldeb hiliol yn y gwasanaeth prawf – gan siarad â staff o leiafrifoedd ethnig a phobl ar brawf am eu profiadau diweddar. Mae pennod pump yr adroddiad blynyddol hwn yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol pob un o'r adroddiadau pwysig hyn ac yn adolygu sut mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM wedi ymateb i bob un.

Mae ein hadroddiadau ar lety; triniaeth am gyffuriau a gwaith adfer; ac iechyd meddwl i gyd wedi dangos bylchau mawr rhwng anghenion pobl sydd ar brawf a'r gwasanaethau a ddarperir. Rydym yn amcangyfrif, er enghraifft, bod 75,000 o bobl dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf yn y gymuned y gallai camddefnyddio cyffuriau fod wedi achosi eu troseddu – ond dim ond 3,000 a gafodd eu cyfeirio gan staff y gwasanaeth prawf at asiantaeth driniaeth arbenigol yn 2020/2021. Yn ystod y flwyddyn cyn ein harolwg thematig o lety yn 2020, cafodd dros 11,000 o bobl eu rhyddhau'n ddigartref o'r carchar, a gwelsom fod y cyfraddau galw yn ôl i'r ddalfa bron yn ddwbl ar gyfer y rheini heb lety sefydlog i fynd iddo. Ar ben hynny, canfu ein harolwg thematig ar y cyd o iechyd meddwl – a gynhaliwyd gyda'r holl arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill – fod dros 110,000 o bobl yn cael eu cyfeirio at weithwyr iechyd meddwl yn nalfa'r heddlu yn 2020, a bod miloedd yn fwy eisoes yn y carchar neu ar brawf gyda phroblem iechyd meddwl. Eto i gyd, gwelsom oedi hir cyn cael triniaeth gymunedol neu drosglwyddo pobl sydd â symptomau difrifol o'r carchar ac i gyfleuster iechyd meddwl mwy addas. Roedd ansawdd yr ymarfer prawf gyda'r grŵp hwn hefyd yn amrywiol iawn, gyda dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion iechyd meddwl wedi'i ganfod mewn llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym, a bylchau mewn sgiliau ymysg ymarferwyr.

## Ymchwil a chanllawiau ymarfer effeithiol

Fel y mae pennod saith yn ei nodi, mae'n hanfodol bod ein safonau arolygu prawf yn seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad, a bod hyn yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae ein tîm ymchwil mewnol yn sicrhau bod hyn yn digwydd, yn ogystal â chyhoeddi ei Fwletinau Ymchwil a Dadansoddi ei hun, gan ddefnyddio ein cronfa ddata arolygu helaeth o filoedd o asesiadau achos unigol a chyfweliadau ymarferwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys ymchwil pwysig y mae llawer o gyfeirio ati ar y cysylltiadau rhwng maint y

baich achosion ac ansawdd yr oruchwyliaeth, a oedd yn dangos cydberthynas glir rhwng y ddau. Ar ddiwedd 2020, roedd y tîm hefyd wedi cynhyrchu canllaw ar-lein ar yr holl dystiolaeth a'r ymchwil allweddol y tu ôl i gysyniadau ac elfennau canolog goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Ar ben hynny, rydym yn parhau i fuddsoddi yn y gymuned ymchwil allanol yn ogystal â noddi ymchwil sylfaenol a chomisiynu papurau Mewnwelediadau Academaidd gan lawer o'r academyddion blaenllaw sy'n gweithio ar ymchwil prawf yn y DU ac mewn awdurdodaethau eraill.

Mae mandad yr Arolygiaeth bob amser wedi cynnwys dyletswydd i hyrwyddo ymarfer effeithiol yn ogystal â darparu sicrwydd. Dros y blynyddoedd, ac yn enwedig yn ystod y cyfnod *Gweddnewid Adsefydlu*, mae'r rhan honno o'n cenhadaeth wedi cael ei chysgodi gan ffocws ar berfformiad a materion sy'n ymwneud â darpariaeth o ansawdd gwael. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiadau, rydym yn aml yn gweld gwaith rhagorol ac arloesol gan reolwyr ac ymarferwyr rheng flaen. Felly, dros y tair blynedd diwethaf, yr ydym wedi blaenoriaethu nodi a lledaenu enghreifftiau o'r modd y caiff ein safonau arolygu eu bodloni'n effeithiol ar lawr gwlad. Mae ein Harweinydd Ymarfer Effeithiol yn datblygu canllaw ymarfer effeithiol, a gyhoeddir ochr yn ochr â phob un o'n hadroddiadau arolygu thematig, gan gynnwys cyfweliadau ag ymarferwyr a gwersi allweddol i ymarferwyr sy'n dymuno gwella eu harferion eu hunain. Mae ein pennod ar Ymarfer Effeithiol yn tynnu sylw at ganllawiau allweddol o'r flwyddyn ddiwethaf – gan gynnwys y rheini ochr yn ochr â'n hadroddiadau thematig ar fonitro electronig a gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau. Ar ben hynny, ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom gyhoeddi canllaw i oruchwylio achosion yn effeithiol, yn seiliedig ar ddysgu o dros 4,500 o achosion a arolygwyd.

## Pobl ar brawf

Pan ddeuthum yn Brif Arolygydd, un o'm prif flaenoriaethau a sefydlwyd oedd rhoi mwy o lais i bobl ar brawf yn y dystiolaeth a gasglwn am ein harolygiadau. Mae cyfweliadau gyda'r grŵp hwn, gan bobl sydd wedi bod drwy'r system eu hunain, bellach yn rhan safonol o'n holl arolygiadau thematig ac maent wedi cynhyrchu llawer o straeon teimladwy. Rydym wedi clywed straeon am bobl sy'n cael eu gorfodi i fyw ar y strydoedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar ac sy'n cael eu galw'n ôl yn gyson i'r carchar o ganlyniad i'r trawma emosiynol a achosir gan yr heddlu neu garchar yn achos y rheini sydd ag anghenion iechyd meddwl neu anghenion cysylltiedig â niwroamrywiaeth; ac am y trawma a'r trais yn y gorffennol a ddioddefwyd gan y rheini sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac nad ydynt yn derbyn y gwasanaethau maent gymaint eu hangen.

Wrth symud ymlaen, byddwn nawr hefyd yn casglu mwy o dystiolaeth gan bobl ar brawf yn ein harolygiadau lleol. Yn y meysydd rydym yn eu harolygu, bydd pawb sy'n cael eu goruchwylio yn cael holiadur i ymateb iddo, ac, wrth weithio gyda Llais Defnyddwyr y sefydliad, byddwn yn casglu tystiolaeth bersonol gan y rheini sy'n fodlon cael eu cyfweld am eu profiadau hefyd.

## Y dyfodol

Er bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn eithriadol heriol ac er bod effeithiau'r pandemig wedi bod yn amlwg iawn yn y gwasanaethau rydym wedi'u harolygu, rwy'n meddwl y gallwn fod yn fwy gobeithiol am y dyfodol.

Ar ôl blynyddoedd lawer o doriadau termau real i fuddsoddiad y gwasanaeth prawf, mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd sylweddol mewn adnoddau gyda chynnydd o £1.17 biliwn yn 2020/2021 (sy'n cyfateb i gynnydd termau real o 23 y cant ers 2018/2019). Ac roedd newyddion i'w groesawu yn Adolygiad o Wariant yr Hydref bod yr adnoddau ychwanegol hyn wedi cael eu hymgorffori yng nghyllideb sylfaenol y gwasanaeth dros y tair blynedd nesaf.

Mae’r adolygiad o wariant hefyd wedi addo £550 miliwn ychwanegol dros dair blynedd i fynd i’r afael ag aildroseddu, gyda buddsoddiad newydd yn rhai o’r meysydd hynny a amlygwyd gan ein harolygiadau thematig diweddar – yn benodol, gwasanaethau llety a cham-drin cyffuriau i bobl ar brawf. Yr wyf hefyd yn croesawu strategaeth gyffuriau 10 mlynedd newydd y llywodraeth a’i hymateb adeiladol i adroddiad y Fonesig Carol Black, a oedd yn adlewyrchu llawer o’n hargymhellion ein hunain. Mae’r addewid o 54,000 yn fwy o leoedd triniaeth i’w groesawu’n arbennig a dylai ddechrau cael effaith sylweddol ar y bwlch o ran triniaeth a nodwyd gennym ar gyfer pobl ar brawf – er y bydd angen gweithredu ar ochr y gwasanaeth prawf hefyd, i sicrhau bod anghenion triniaeth pobl yn cael eu nodi yn y lle cyntaf a bod yr atgyfeiriadau angenrheidiol a gofynion y llys yn cael eu gweithredu wedyn.

Er nad yw’r strwythur unedig newydd yn cael effaith ar berfformiad eto, rwy’n croesawu’r penderfyniad i uno’r gwasanaeth prawf – fel y gwnaeth y rhan fwyaf o’r staff a gyfwelwyd gennym ar gyfer ein harolygiad thematig ar uno. Dylai hyn ddod â mwy o gysondeb o ran staffio a’r model gweithredu, a’r cyfle i staff oruchwylio llwythi cyfun (a, gobeithio, llai) o achosion risg uwch ac is o niwed difrifol, gan roi mwy o hyblygrwydd i daenu llwyth gwaith a mwy o amrywiaeth i ymarferwyr rheng flaen.

Ers gormod o amser, mae’r gwasanaeth prawf wedi bod yn ‘wasanaeth Cinderella’, sydd wedi’i gadw yng nghysgod rhannau proffil uchel o’r system cyfiawnder troseddol, a dim ond yn llygad y cyhoedd pan fydd pethau’n mynd o chwith. Fodd bynnag, gyda baich achosion dair gwaith yn fwy na’r system garchardai; 16,000 o staff a chyllideb o dros £1 biliwn y flwyddyn, mae’n wasanaeth o bwys mawr ynddo’ i hun. Er ein bod wedi beirniadu’r gwasanaeth pan ddaethom o hyd i wendidau, yn enwedig o ran rheoli risg, gwelsom lawer o enghreifftiau o ymarfer rhagorol hefyd – ac o adborth cadarnhaol iawn gan y bobl y mae’n eu goruchwylio. Ar ben hynny, er bod heriau mawr yn dal i fodoli – yn enwedig o ganlyniad i effeithiau parhaus y pandemig – gyda buddsoddiad ychwanegol, strwythur unedig ac arweinyddiaeth gref, mae gennyf bob hyder y bydd y llwybr tuag at drawsnewid a gwella perfformiad dros y blynyddoedd nesaf yn mynd ag ef i’r cyfeiriad cywir.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

## 3. Y newid i Wasanaeth Prawf unedig

Daw holl adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) a oedd yn cael eu rhedeg yn breifat i fod yn Wasanaeth Prawf sector cyhoeddus unedig newydd wedi'i rannu'n 12 rhanbarth.

Roedd y newid wedi effeithio ar dros 220,000 o bobl ar brawf a 16,000 o staff prawf ledled Cymru a Lloegr.

Ad-drefnwyd y gwasanaethau prawf yn flaenorol yn 2014, drwy'r diwygiadau *Gweddnewid Adsefydlu*, model y canfu Arolygiaeth Prawf EM ei fod yn ddiffygiol iawn.

Yn yr adran hon rydym yn edrych ar gynnydd yr uno hyd yma. Daw'r casgliadau o arolwg staff y Gwasanaeth Prawf dan arweiniad yr Arolygiaeth, a gynhaliwyd ym mis Medi 2021, yn ogystal â chyfweliadau â Chyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol ac uwch arweinwyr ym Mhencadlys y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Rydym hefyd wedi cymryd tystiolaeth o ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â meysydd fel gwaith di-dâl a rhaglenni achredig, ac o'n harolygiadau thematig a oedd yn edrych ar y paratoadau ar gyfer uno, a gweithredu modelau darpariaeth eithriadol o ganlyniad i effaith cyfyngiadau Covid-19.

Roedd uno'n golygu uno'r 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol presennol a saith is-adran y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn 11 rhanbarth yn Lloegr ac un yng Nghymru, dan arweiniad Gweithwyr Datblygu Rhanbarthol. Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos y pontio i'r model unedig:

### Llinell amser uno

Mawrth 2020
Daeth cyfyngiadau Covid-19 i rym ledled Cymru a Lloegr. Mae'r cyfyngiadau'n cael effaith fawr ar ddarparu gwasanaethau prawf.

Mehefin 2020
Cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor ei fod yn canslo'r gwaith caffael arfaethedig ar gyfer partneriaid darparu gwasanaeth prawf. Bydd darparu gwaith di-dâl, gwasanaethau Drwy'r Giât a rhaglenni newid ymddygiad yn symud yn ôl i'r sector cyhoeddus yn 2021.


Mehefin 2020
Lansiodd HMPPS y cyntaf o gystadlaethau'r Fframwaith Dynamig. Mae elusennau, mudiadau gwirfoddol a phreifat yn gwneud cais am gyfran o £100m y flwyddyn i redeg gwasanaethau cefnogi ychwanegol megis addysg, cyflogaeth, gwasanaethau arbenigol i fenywod a llety.

Gorffennaf 2020
Cyhoeddodd HMPPS ei Strategaeth Gweithlu Prawf.

Chwefror 2021
Cyhoeddodd HMPPS ei Fodel Gweithredu Targed ar gyfer y gwasanaeth prawf unedig.

26 Mehefin 2021
Diwrnod cyntaf y gwasanaeth prawf unedig newydd, sy'n gyfrifol am reoli pawb sydd dan oruchwyliaeth ar orchymyn cymunedol neu drwydded ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o garchar yng Nghymru a Lloegr.

## Ffigur 1: Pontio i fodel unedig




**Cyn uno**

**21 CRC**

**Cyn uno**

**6 Is-adran y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn Lloegr a Chymru**

**Ar ôl uno**

**11 Rhanbarth Lloegr a Chymru**

| | Perchnogaeth CRC |
|---|---|
| | Gwasanaethau Cyfiawnder Sodexo mewn partneriaeth â Nacro |
| | ARCC (Cyflawni Newid Go Iawn mewn Cymunedau) |
| | Purple Futures |
| | Y Bartneriaeth Lleihau Aildroseddu |
| | Seetec |
| | MTC |
| | EOS Works Ltd |

| | Is-adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
|---|---|
| 1 | Gogledd-ddwyrain Lloegr |
| 2 | Gogledd-orllewin Lloegr |
| 3 | Cymru |
| 4 | Canolbarth Lloegr |
| 5 | De Ddwyrain a Dwyrain Lloegr |
| 6 | De Orllewin a De Canolbarth Lloegr |
| 7 | Llundain |

| | Rhanbarthau Prawf Newydd |
|---|---|
| A | Gogledd-ddwyrain Lloegr |
| B | Gogledd-orllewin Lloegr |
| C | Swydd Efrog a'r Humber |
| D | Cymru |
| E | Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| F | Dwyrain Canolbarth Lloegr |
| G | De-orllewin Lloegr |
| H | De Canol Lloegr |
| I | Dwyrain Lloegr |
| J | Llundain |
| K | Caint, Surrey a Sussex |
| L | Manceinion Fwyaf |

| | Rhanbarthau CRC | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Northumbria | 8 | Humberside, Swydd Lincoln a Gogledd Swydd Efrog | 15 | Cymru |
| 2 | Cumbria a Swydd Gaerhirfryn | 9 | Gorllewin Swydd Efrog | 16 | Bryste, Swydd Gaerloyw, Gwlad yr Haf a Wiltshire |
| 3 | De Swydd Efrog | 10 | Swydd Gaer a Manceinion Fwyaf | 17 | Dorset, Dyfnaint a Chernyw |
| 4 | Swydd Bedford, Swydd Northampton, Swydd Caergrawnt a Swydd Hertford | 11 | Glannau Mersi | 18 | Caint, Surrey a Sussex |
| 5 | Norfolk a Suffolk | 12 | Hampshire & Ynys Wyth | 19 | Dyffryn Tafwys |
| 6 | Essex | 13 | Swydd Stafford a Gorllewin Canolbarth Lloegr | 20 | Llundain |
| 7 | Durham Tees Valley | 14 | Swydd Derby, Swydd Gaerlŷr, Swydd Nottingham a Rutland | 21 | Swydd Warwick a Gorllewin Mercia |

## Croeso gofalus

Yn y rhaglen uno, daeth 7,500 o staff o 54 o sefydliadau gwahanol at ei gilydd ar ddiwrnod cyntaf y gwasanaeth unedig, 26 Mehefin 2021, gyda'r rhaglen newid amlochrog hon wedi'i chwblhau ochr yn ochr â chymhlethdod ychwanegol Covid-19. Mewn sawl ffordd, roedd y rhaglen newid hon yn fwy cymhleth na *Gweddnewid Adsefydlu* yn 2014. Er bod y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi darparu o dan un model gweithredu, roedd gan y saith sefydliad rhiant CRC eu modelau eu hunain, ac, mewn rhai achosion, eu systemau rheoli achosion eu hunain.

Mewn *Adolygiad thematig o waith i baratoi ar gyfer uno gwasanaethau prawf* (Mai 2021),[4] daethom i'r casgliad y byddai'r newid yn brofiad gwahanol i staff, yn dibynnu ar ba sefydliad roeddent wedi symud iddo (ac felly'r rhanbarth lle cawsant eu lleoli) – thema yr ymddengys ei bod wedi'i chadarnhau gan ganlyniadau ein harolwg mis Medi 2021 o staff prawf, a archwiliwn yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Cynhaliwyd archwiliadau gennym yn ystod chwe blynedd y model *Gweddnewid Adsefydlu*, gan ganfod ei fod yn sylfaenol ddiffygiol. Mae cyllidebau tynn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y swyddogion prawf, staff dan bwysau diwyro a llwyth achosion uchel. Yn anochel, arweiniodd hyn at oruchwyliaeth o ansawdd gwaeth, gyda dros hanner yr achosion a arolygwyd gennym yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn y sector preifat – rhwng 2014 a 2021 – yn anfoddhaol mewn rhai agweddau allweddol ar ansawdd.

Ar drothwy uno (Mehefin 2021), eglurodd y Prif Arolygydd Prawf, Justin Russell, farn yr Arolygiaeth a'r ffordd hir ymlaen ar gyfer gweddnewid gwirioneddol i'r Gwasanaeth Prawf:

*"Ni fydd penderfyniad y llywodraeth i ddod â'r gwasanaeth prawf yn ôl at ei gilydd – er ei fod i'w groesawu – heb ei heriau. Sialensiau na ddylid eu diystyru. Nid oes atebion hud ar gael: mae angen i newid strwythurol gael ei gefnogi gan fuddsoddiad parhaus er mwyn sicrhau gwir welliant. Mae gwir drawsnewid yn ymrwymiad tymor hir, a dim ond dechrau'r daith honno yw uno."*

Ond roedd yr Arolygiaeth hefyd yn gweld uno fel cyfle i'r Gwasanaeth Prawf greu cyfleoedd newydd a dod at ei gilydd i siarad gydag un llais. Rhannwyd y farn hon gan lawer yn y gwasanaeth: yn ein harolwg o uno gwasanaethau prawf,4 roedd y mwyafrif helaeth o'r staff a'r rheolwyr y buom yn siarad â hwy yn cefnogi'r cyfeiriad.

## Ond sut oedd hyn yn edrych, misoedd ar ôl ailuno?

Mae'r arolygiaeth wedi olrhain cynnydd yr uno mewn cyfres o adolygiadau thematig ers 2020. Er ein bod yn nodi bod y rhaglen ddiwygio ar y trywydd iawn i raddau helaeth, roeddem wedi mynegi pryderon am y prinder staff mewn rhai rhanbarthau, a'r ymyriadau adsefydlu sydd ar gael ar gyfer y sefydliad newydd. Yn ogystal, roeddem wedi gosod yr her o greu diwylliant cydlynol ar gyfer y gwasanaeth newydd, lle mae cyn-staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cael cydnabyddiaeth briodol o'u sgiliau a'u statws proffesiynol.

Fe wnaethom gomisiynu arolwg o staff prawf rheng flaen ym mis Medi 2021 i glywed sut roedd yr uno'n mynd hyd yma. Gellir gweld canlyniadau llawn yr arolwg hwn fel atodiad i'r adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Prawf EM..[5]

---

[4] Arolygiaeth Prawf EM. (2021). *A Thematic Review of Work to Prepare for the Unification of Probation Services.*

[5] https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation.

Hoffai'r Arolygiaeth gofnodi ei ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg hwn.

### Crynodeb o arolwg y Gwasanaeth Prawf

Cawsom 1,534 o ymatebion i'n harolwg, sy'n cynrychioli oddeutu un o bob 10 (naw y cant) o staff y Gwasanaeth Prawf. Cafwyd ymatebion gan bob rhanbarth, ac o bob swyddogaeth yn y gwasanaeth. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51 y cant) wedi gweithio o'r blaen mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac ychydig o dan hanner (47 y cant) yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

- Credai 61 y cant fod uwch arweinwyr yn cyfleu eu strategaethau ar gyfer y Gwasanaeth Prawf unedig newydd yn ddigon da. Fodd bynnag, credai cyfran debyg (58 y cant) nad oedd y newidiadau wedi cael eu gweithredu'n dda.
- Roedd dros hanner (55 y cant) y staff prawf yn anfodlon â'r arweiniad a dderbyniwyd ynghylch sut i reoli gwaith adeg yr uno.
- Roedd tua chwech o bob 10 (58 y cant) 'bob amser' neu 'gan fwyaf' yn derbyn goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar achosion gan eu rheolwr, ac roedd ychydig dros hanner (52 y cant) yn fodlon bod rheolwyr yn rhoi digon o sylw i les staff.
- Roedd tua hanner (51 y cant) yn teimlo nad oedd modd rheoli eu llwyth gwaith gymaint.
- Dywedodd ychydig dros hanner fod ganddynt fynediad digonol at wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl ar brawf, ac roedd gan ddwy ran o dair fynediad digonol at wasanaethau i reoli'r risg o niwed.
- Nid oedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52y cant) wedi gwneud penderfyniad terfynol o hyd ynghylch a oedd uno wedi gwneud y gwasanaeth prawf yn well neu'n waeth.

Wrth ddadansoddi'r hyn a sbardunodd ymatebion y staff, gwelsom wahaniaethau nodedig yn ôl rhanbarth, gyda'r rheini sy'n gweithio yng Nghymru, lle'r oedd uno wedi cael mwy o amser i ymsefydlu, yn rhoi ymateb mwy cadarnhaol.

### Dangosodd dadansoddiad o sylwadau'r staff i gwestiynau agored bum mater allweddol:

- mae rhaniad diwylliannol rhwng cyn staff CRC a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; roedd staff CRC yn teimlo eu bod yn cael eu hystyried gan gyn staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn llai sgiliedig, fel 'ail ddosbarth'.
- roedd hyfforddiant cynefino yn dreial i gyn staff CRC, gyda gormod o wybodaeth yn cael ei darparu a dim digon o amser yn cael ei neilltuo i'w amsugno.
- yr oedd llwyth achosion a beichiau gwaith trwm yn dal i fod yn broblem i lawer ac yr oedd wedi llesteirio'r gwaith o uno.
- roedd systemau rheoli technoleg gwybodaeth a chyfathrebu newydd yn golygu bod uno yn achosi mwy o straen.
- roedd llawer o'r staff yn gadarnhaol am uno a'r dyfodol, gan nodi bod y broses newid wedi cael ei chynnal yn ystod y pandemig ac adferiad cymdeithas.

## Diwylliant y sefydliad

Er bod yr arolwg wedi'i gwblhau'n fuan ar ôl uno, a bod diwylliannau newydd yn cymryd amser i'w gwreiddio, mae'n hanfodol ystyried pwysigrwydd diwylliant sefydliadol a'r effaith y mae wedi'i chael ar ddarparu gwasanaeth prawf yn llwyddiannus. Yn wir, un o'n hargymhellion o'n hadolygiad thematig o waith i baratoi ar gyfer uno[4] oedd 'sicrhau bod

diwylliant cynhwysol ar waith sy'n cwmpasu profiadau a chefndiroedd gwahanol y staff sy'n ffurfio'r model prawf newydd ac sy'n rhoi statws cyfartal i staff rheoli ymyriadau a dedfrydau'. Fel y nodwyd yn gynharach, bydd y newid wedi bod yn brofiad gwahanol i bob aelod o staff.

Roedd yr arolwg yn tynnu sylw at rai gwahaniaethau diwylliannol rhwng hen staff y CRC a hen staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, gyda rhai o staff y CRC yn teimlo fel dinasyddion eilradd. Er enghraifft, mae dyfyniadau'n cynnwys:

*"Mae staff CRC yn cael eu gweld fel y perthynas tlawd, a'r rhai sydd â llawer i'w ddysgu. Y realiti yw bod gan y ddau wasanaeth sgiliau a phrofiadau gwerthfawr y dylid eu harchwilio a'u rhannu. Roedd gan CRC y gallu i fod yn greadigol a doeddech chi ddim wedi cael eich cyfyngu yn eich rôl o ran yr hyn y gallech chi neu na allech chi ei wneud".*

*"Yn yr ardal leol lle rwy'n gweithio, yn ffisegol ac yn ddiwylliannol mae pethau'n wahanol iawn; rydym yn dal i weithio o swyddfeydd ar wahân ac mae'n waith o ddydd i ddydd a does dim wedi newid, ac mae'n dal i fod yn 'CRC a NPS'".*

Mae staff prawf sy'n gweithio mewn meysydd fel ymyriadau – gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi ymatal rhag troseddu ar gyfer pobl sydd ar brawf – wedi cael profiad gwahanol i'r rheini sy'n ymwneud â rheoli dedfrydau. Tan fis Mehefin 2020, roeddent yn disgwyl i'w rolau gael eu rhoi ar gontract allanol i 'Bartneriaid Darparu Prawf' allanol o'r sector preifat neu wirfoddol. Fodd bynnag, cafodd y penderfyniad hwn ei wrthdroi ym mis Mehefin 2020 pan benderfynwyd dod â'r gwasanaethau hyn yn fewnol fel rhan o'r model unedig. O ganlyniad, roedd llai o amser iddynt gynllunio a pharatoi i fod yn rhan o'r gwasanaeth unedig. Mae canlyniadau'r Cynllun Gwerthuso Swyddi (JES) ar gyfer rhai o'r rolau ymyrryd yn y strwythur unedig newydd, a ddaeth allan yn wreiddiol ar raddfa is nag yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, hefyd wedi cael effaith negyddol ar forál ac wedi cyfrannu at syniad tybiedig a oedd yn cael ei arddel gan rai bod gwaith ymyriadau'n cael ei ystyried yn 'ail ddosbarth'. Er hynny, mae uwch arweinwyr o fewn Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) wedi bod yn hynod falch o agwedd gadarnhaol staff ymyriadau sydd wedi parhau'n ymroddedig i'w gwaith, tra'u bod yn disgwyl canlyniad proses JES.

Mae'n hanfodol bod arweinwyr yn gwrando ar brofiadau pawb, yn gweithio i herio rhagdybiaethau, ac yn dathlu cyfraniadau a sgiliau pawb, gan sicrhau bod y pethau cadarnhaol yn cael eu cydnabod o hen ffyrdd o weithio'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau diwylliant unedig wrth symud ymlaen, ac mae'n rhan allweddol o'n safonau arolygu.

Roeddem wedi rhannu canlyniadau ein harolwg Gwasanaeth Prawf â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, er mwyn iddynt allu ymateb i'n canfyddiadau. Mewn ymateb i awgrymiadau bod y gwasanaeth unedig wedi datblygu diwylliant dwy haen, dywedasant:

*"Mae adborth gan rai staff am y risg o ddiwylliant dwy haen parhaus yn arbennig o bwysig, ac mae'n rhywbeth rydyn ni'n gweithio'n galed i fynd i'r afael ag ef. Mae gennym dîm arbenigol sy'n arwain ar sut i drosi'r diwylliant unedig rydym am ei weld yn ymddygiadau ymarferol a ffyrdd o weithio y gallwn eu hyrwyddo ar bob lefel yn y sefydliad. Mae'r tîm hwnnw hefyd yn cefnogi'r diwygiadau sydd wedi'u cynllunio ar ôl pontio drwy ddefnyddio persona staff i helpu tîm a rhanbarthau'r Rhaglen i ddeall agweddau diwylliannol cyflwyno newidiadau i'n systemau a'n ffyrdd o weithio".*

Roedd ein harolwg staff prawf yn dangos bod hen staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn llai bodlon â gweithredu'r newidiadau na chyn weithwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, gyda chyfraddau ymateb cadarnhaol o 35 y cant a 48 y cant, yn y drefn honno. Yn wir, eglurodd RPD fod hen staff CRC wedi gorfod dilyn nifer o gyrsiau ar-lein yn ogystal â dysgu

systemau a phrosesau newydd fel rhan o ymuno â'r Gwasanaeth Sifil. Mae sylwad a gawsom yn tynnu sylw at y pwynt hwn:

*"Mae cyn staff CRC wedi cael mewnbwn sylweddol o wybodaeth, arweiniad a hyfforddiant newydd, sydd wedi bod yn gwbl anhygoel".*

Er bod yr Arolygiaeth yn bryderus ynghylch yr adborth o'r arolwg – yn enwedig o ran diwylliant sefydliadol – ac yn cydnabod barn pawb a gymerodd ran, rydym yn cydnabod bod trawsnewid yn broses eang. Bydd cyfuno strwythurau a etifeddwyd a gweithredu model gweithredu newydd yn cymryd amser – o leiaf bedair blynedd o bosibl – a bydd yna risgiau cynhenid. Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r model gweithredu targed newydd yn[6] adlewyrchu'r daith hon, gyda'r cam cychwynnol hyd at fis Rhagfyr 2021 yn dwyn y teitl 'gosod y sylfeini' a 2022 o'r enw 'ailgodi'n gryfach'. Er bod rhai staff yn teimlo'n siomedig nad oedd pethau'n well o'r diwrnod cyntaf, roedd uwch reolwyr yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser, gan dynnu sylw at y ffaith bod heriau yn y system yn y gorffennol yn fwy erbyn hyn, sy'n amlwg ohono'i hun, fel llwythi achosion a staffio – ac rydyn ni'n edrych ar hyn nesaf.

## Llwythi achosion a staffio

Cyfanswm llwyth achosion y gwasanaeth prawf ar ddiwedd mis Medi 2021 oedd 234,827, sy'n gynnydd o bump y cant ers mis Medi 2020, ac felly mae wedi aros yn gymharol sefydlog.[7] Roedd dull 'codi a symud' o ran pontio yn golygu bod swyddogion prawf a swyddogion gwasanaethau prawf o'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn mynd â'u llwyth achosion a'u rheolwyr llinell i mewn i'r gwasanaeth unedig am sawl mis i leihau'r risg o bobl ar brawf yn cael eu 'colli' yn y cyfnod pontio. Er bod hyn yn synhwyrol, roedd yr angen i symud cofnodion ffeiliau achos i'r system TGCh newydd, na ellid ei chwblhau tan fis Rhagfyr 2021, yn golygu nad oedd modd dechrau ail-gydbwyso llwyth achosion rhwng staff tan ddiwedd 2021.

Nid yw'n syndod felly bod hwn yn fater penodol i staff prawf a gymerodd ran yn ein harolwg – ynghylch eu llwyth gwaith roedd 51 y cant wedi nodi 'nid yw'n hawdd ei reoli', 30 y cant 'nid oes modd ei reoli o gwbl' a 21 y cant 'gellir ei reoli'.

Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chanfyddiadau arolygiad PDU Gwent[8], lle nodwyd y canlynol 'Yn yr arolwg staff, teimlai pump y cant o'r ymatebwyr nad yw lefelau staffio "mor ddigonol â hynny" a theimlai 95 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt "yn ddigonol o gwbl". *O ganlyniad, dywedodd 50 y cant o'r ymatebwyr "nad yw eu llwyth gwaith yn hawdd iawn ei reoli", roedd 30 y cant yn teimlo "nad yw'n bosib ei reoli o gwbl" a dim ond 20 y cant a ddywedodd ei fod yn "eithaf hawdd ei reoli". Cafodd hyn ei adleisio yn ein cyfweliadau ag ymarferwyr, lle dywedodd 67 y cant "nad yw eu llwyth gwaith yn hawdd iawn ei reoli" neu "nad yw'n bosib ei reoli o gwbl".*

Cafodd y thema hon ei hailadrodd hefyd yn ein sgyrsiau ag uwch reolwyr, a oedd yn cydnabod anghydbwysedd y llwythi achosion ond a oedd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch cywirdeb offer a luniwyd i asesu llwythi gwaith. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hadolygiad thematig o waith i baratoi ar gyfer uno4, a oedd yn cynnwys argymhelliad i 'sicrhau bod dull effeithiol o fesur baich gwaith yn cael ei ddefnyddio yn y Gwasanaeth Prawf unedig, sy'n seiliedig ar dybiaethau ynghylch amseroedd sy'n

---

[6] HM Prison and Probation Service. (2021). *The Target Operating Model for Probation Services in England and Wales.*

[7] Offender management statistics quarterly: July to September 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

[8] HM Inspectorate of Probation (2022). *An inspection of probation services in Gwent PDU Probation Service – Wales region.*

adlewyrchu'r arferion presennol ar gyfer pob gweithgaredd'. Er bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddaru'r adnodd rheoli baich gwaith, gyda chostio seiliedig ar weithgareddau'n cael ei wneud ar draws pob maes darpariaeth gwasanaeth prawf, mae'n amlwg bod yr argymhelliad hwn yn dal yn berthnasol. Dywedodd uwch reolwyr wrthym hefyd fod llawer o ofynion yn rhoi mwy o bwysau ar staff, gan gynnwys salwch staff, a nifer y polisïau, gweithdrefnau a phrosesau gweithredol sy'n dod o wahanol adrannau yng nghanol y Gwasanaeth Prawf.

Mae'r Arolygiaeth wedi adrodd o'r blaen ar faterion staffio; mae'r rhain yn dal i fodoli ac maent yn arbennig o ddifrifol mewn rhai rhanbarthau ac nid yw uno ond wedi gwneud y rhain yn fwy tryloyw. Mae gan HMPPS strategaeth gweithlu uchelgeisiol[9] a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2020 i fynd i'r afael â hyn, ond nid yw hyn wedi cael effaith eto. Yn wir, mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos y bu gostyngiad o 168 o swyddogion prawf cymwys cyfwerth ag amser llawn (3.8 y cant) i 4,288 o'i gymharu â 30 Mehefin 2021, ond dim newid sylweddol i nifer y swyddogion gwasanaeth prawf ar raddfeydd is gyda 5,733 FTE mewn swyddi.[10] Cafodd cyfraddau gadael uchel eu bwydo'n ôl yn ein harolygiad PDU Gwent 'o'r 12 PSO a recriwtiwyd yr haf diwethaf, dim ond pump sydd ar ôl. Cafodd y lefel hon o staff yn gadael ei phriodoli i'r ffaith fod staff yn gadael y Gwasanaeth Prawf i ymgymryd â rolau yn yr heddlu ac ym myd addysg' (tudalen 14 adroddiad PDU Gwent[8]).

Mae cynlluniau ar waith i recriwtio a hyfforddi rhagor o swyddogion prawf, gyda 1,000 o dystysgrifau Cymhwyster Proffesiynol mewn Prawf yn dechrau yn 2021 a 1,500 arall yn 2022, ond bydd yn cymryd amser i wireddu manteision hyn yn llawn. Mae'r hyfforddiant yn cymryd rhwng 15 a 21 mis i'w gwblhau ac mae'r staff yn rheoli llai o lwythi achosion wrth hyfforddi ac mae angen mwy o fentora a goruchwylio arnynt. Yr her i ranbarthau yw sicrhau bod y nifer priodol o athrawon ymarfer medrus ac uwch swyddogion prawf yn bodoli i reoli a datblygu staff newydd. Mae Strategaeth Gweithlu Prawf y Llywodraeth[9] yn nodi cynllun i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff a'u datrys erbyn mis Gorffennaf 2023.

Her staffio arall a nodwyd gan uwch arweinwyr yw effaith y broses archwilio hir ar gyfer staff newydd (ymgeiswyr mewnol ac allanol); gyda marchnad lafur fywiog, mae'n ymddangos bod yn well gan ymgeiswyr posibl sicrhau cyflogaeth gyda dyddiad cychwyn cyflymach. Adlewyrchwyd hynny hefyd yn ein harolygiad o PDU Gwent[8], pryd y clywsom am gyfnod fetio o 14 i 16 wythnos hefyd, sy'n sicr yn cael effaith ar allu'r PDU i gadw staff y mae cynigion cyflogaeth wedi'u gwneud iddynt. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, lansiwyd cynllun newydd 'Blaenoriaethu'r Gwasanaeth Prawf', gydag un nod o 'gyflymu'r broses recriwtio a chynyddu nifer y staff'. Mae'r Arolygiaeth yn edrych ymlaen at weld pa effaith y mae hyn yn ei chael ar y gwasanaethau y byddwn yn ymweld â hwy yn ystod ein harchwiliadau yn 2022.

I gloi, rydym yn dal i bryderu bod diffyg dealltwriaeth o beth ddylai'r lefelau staffio targed fod ar draws pob rôl yn y Gwasanaeth Prawf, ond rydym yn cydnabod bod uwch reolwyr yn ceisio datrys y broblem gyda data a allai fod yn gyfyngedig. Mae angen dealltwriaeth glir o'r staff targed yn awr, yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr, ac nid ar gyfer staff rheoli dedfrydau yn unig, i gefnogi sefydlogi'r Gwasanaeth Prawf.

Yn ogystal, mae angen i'r Gwasanaeth Prawf ystyried nifer y polisïau, gweithdrefnau a phrosesau gweithredol y mae'n disgwyl i staff eu gwybod a'u defnyddio mewn unedau darparu gwasanaeth prawf (PDU). Er bod y wybodaeth, yr arweiniad a'r hyfforddiant a

[9] Probation Workforce Strategy (publishing.service.gov.uk)

[10] Her Majesty's Prison and Probation Service workforce quarterly: September 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

roddwyd wedi'u llunio'n dda, mae arwydd clir, hyd yn oed yn gynnar, bod hyn wedi teimlo'n llethol ac yn anghydlynus i staff gweithredol.

Mae'r Gwasanaeth Prawf a HMPPS wedi rhoi sicrwydd i ni fod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â phroblemau o ran llwyth gwaith, staffio a llwyth achosion, ond mae'n amlwg bod y meysydd hyn o'r gwasanaeth yn dal i fod yn her sylweddol.

## Perygl o niwed difrifol

Mae'r Arolygiaeth wedi egluro, dros nifer o flynyddoedd, ei phryderon ynghylch ansawdd rheoli risg o niwed mewn gwasanaethau prawf – y maes perfformiad gwannaf yn ein rownd olaf o arolygiadau (2019–2021). Mae cadw pobl yn ddiogel yn ddisgwyliad sylfaenol ac yn un o amcanion craidd gwaith prawf – a gyflawnir drwy asesu a rheoli'r risg o niwed difrifol a achosir gan bobl ar brawf i ddioddefwyr hysbys a dioddefwyr posibl fel ei gilydd.

Cyn uno'r gwasanaethau prawf, nodwyd y buddsoddiad sylweddol gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, yn benodol, i ailhyfforddi staff ar hanfodion rheoli risg, ond ni welsom hyn yn cael ei droi'n ymarfer gwell yn yr achosion a arolygwyd gennym bryd hynny.

Yn dilyn uno, mae ein harchwiliadau PDU cynnar wedi tynnu sylw at ansawdd gwael y gwaith o reoli risg ganolig o niwed difrifol. Roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn bennaf gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Er bod ansawdd gwael y gwaith ar risg ganolig o niwed difrifol yn cael ei ystyried yn broblem a etifeddwyd i'r Gwasanaeth Prawf newydd, gall hyn fod yn rhywbeth sy'n dyddio'n ôl i'r dyddiau cyn *Gweddnewid Ailsefydlu*. Roedd ail adroddiad cyfunol yr Arolygiaeth ar reoli troseddwyr mewn carchardai[11], er enghraifft, yn tynnu sylw at y canlynol: *'Ar y cyfan, roedd ansawdd y gwaith gydag achosion yr aseswyd eu bod yn risg uchel o niwed yn well nag ar gyfer pob achos yn ei gyfanrwydd'*. Ar ben hynny, mae ein sgoriau cyffredinol o arolygiadau rheoli troseddwyr 2009–2012 yn dangos bod achosion risg uchel ac isel o niwed difrifol yn cael eu rheoli'n well nag achosion risg ganolig o niwed difrifol.

Mae cyfran fawr o achosion risg ganolig o niwed difrifol yn gysylltiedig â throseddau cam-drin domestig; yn ein hadroddiad thematig yn 2018 ar y gwaith a wnaed gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol[12], gwelsom fod cam-drin domestig yn ymddangos mewn bron i 50 y cant o'r achosion a aseswyd rhwng 2016 a 2018. Tynnodd sylw at y ffaith fod gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol gryn dipyn o waith i'w wneud i wella'r modd y caiff achosion cam-drin domestig eu rheoli. Gwyddom fod achosion o gam-drin domestig wedi cynyddu yn ystod y pandemig, ac mae'n hanfodol bod yr achosion hynny'n cael eu rheoli'n briodol[13]. Roedd ein hadroddiad thematig ar Droseddu Difrifol Pellach (SFO), a gyhoeddwyd yn 2020, hefyd yn dangos bod 41 y cant o Droseddau Difrifol Pellach yn dod o achosion risg ganolig o niwed difrifol yn 2018/2019[14].

Mae ein harchwiliadau hanesyddol yn dangos bod ansawdd gwaeth y gwaith ar risg ganolig o niwed difrifol yn fater systemig, parhaol i'r gwasanaethau prawf y mae angen ei ddatrys. O ystyried y nifer fawr o achosion o'r fath a'r gyfran sylweddol o achosion cam-drin domestig a Throseddau Difrifol Pellach yn y garfan hon, mae'n hanfodol bod gan y Gwasanaeth Prawf

[11] HM Inspectorate of Probation and HM Inspectorate of Prisons. (2012). *Second Aggregate Report on Offender Management in Prisons.*

[12] Arolygiaeth Prawf EM. (2018). *Domestic Abuse: The Work Undertaken by Community Rehabilitation Companies (CRCs).*

[13] UK Parliament. (2021). *Domestic Abuse and Covid-19: A Year into the Pandemic.*

[14] Arolygiaeth Prawf EM. (2020). *A Thematic Inspection of the Serious Further Offences (SFO) Investigation and Review Process.*

ddealltwriaeth drylwyr a chytbwys o’r rhesymau pam fod achosion risg ganolig o niwed difrifol yn cael eu rheoli’n fwy gwael. Dylai unrhyw adolygiad hefyd gynnwys dadansoddiad o’r adnoddau sydd eu hangen i reoli’r achosion hyn yn dda.

## Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu

Cafodd Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu eu cyflwyno fel rhan o’r broses o uno gwasanaethau prawf. Maent yn cael eu caffael gan fudiadau gwirfoddol neu breifat allanol ac yn cael eu darparu ar lefel leol neu ranbarthol, er mwyn darparu cymorth wedi’i deilwra i fynd i’r afael ag anghenion sy’n gysylltiedig ag aildroseddu, neu i roi sefydlogrwydd i’r rheini sydd dan oruchwyliaeth, fel drwy ganfod llety addas.

Mae’n dal yn gynnar iawn o ran oes y contractau gwasanaethau adsefydlu a gomisiynir, gyda gwasanaethau ar gael ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, llety, lles personol a gwasanaethau i fenywod. Adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, mae’r broses gaffael yn mynd rhagddi ar gyfer gwasanaethau ‘dibyniaeth ac adfer’ a gwasanaethau ‘cyllid, budd-daliadau a dyledion’. Yr adborth cychwynnol o’n cyfweliadau â RPD yw bod nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau a gomisiynir, at ei gilydd, wedi rhagori ar y disgwyliadau, ac ar adeg ysgrifennu hyn mae terfyn yn cael ei ystyried ar gyfer atgyfeiriadau mewn perthynas ag achosion sydd â risg isel o aildroseddu. Felly, mae’r argymhelliad yn ein hadroddiad thematig,4 ‘sicrhau bod comisiynu gwasanaethau mewn rhanbarthau yn cael ei lywio gan ddadansoddiad strategol cyfredol o anghenion baich gwaith llawn y gwasanaeth prawf, gan gynnwys yr holl achosion CRC gaiff eu trosglwyddo’, yn dal yn berthnasol. Cafwyd adborth cymysg gan gyfarwyddwyr rhanbarthol mewn perthynas â’u gallu i gomisiynu gwasanaethau drwy’r Gronfa Canlyniadau ac Arloesi Ranbarthol. Roedd rhai yn poeni am gyfyngiadau yn y broses gomisiynu, tra bod eraill yn gadarnhaol ynghylch cyfleoedd i gyd-gomisiynu.

Wrth i ni barhau â’n harolygiadau craidd yn 2022, byddwn yn barnu a yw’r ymyriadau a’r gwasanaeth priodol wedi cael eu darparu fel rhan o gynllun dedfryd yr unigolyn ar brawf. Os yw’r atgyfeiriadau eisoes yn rhagori ar y disgwyliadau, rhaid i’r Gwasanaeth Prawf sicrhau bod cyllid priodol ar gael i ateb y galw, nid i newid y galw i ddiwallu’r capasiti.

# 4. Her barhaus Covid-19

Yn y bennod hon, rydym yn edrych ar feysydd gwasanaethau prawf sydd wedi cael eu heffeithio, ac sy'n parhau i gael eu heffeithio, gan bandemig Covid-19 ar ôl y cyfnod pontio.

Mae'r Arolygiaeth wedi cyhoeddi dau adroddiad ar yr heriau a wynebir o ganlyniad i Covid-19[15][16]. Ar ben hynny, roedd yr adolygiad thematig o'r gwaith i baratoi ar gyfer uno gwasanaethau prawf[4] hefyd wedi dadansoddi effaith barhaus Covid-19 ar wasanaethau.

### Darparu gwasanaethau prawf craidd

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Gwasanaeth Prawf yn parhau i adfer yn dilyn effeithiau'r pandemig. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r meysydd darparu gwasanaeth wedi dechrau cynyddu eu gweithgarwch a symud tuag at ddull mwy 'normal' o ymgysylltu â phobl ar brawf. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar: gynyddu cyswllt wyneb yn wyneb â phobl ar brawf, yn enwedig y rhai sy'n peri'r risg fwyaf o niwed; rhoi rhaglenni achrededig ar waith unwaith eto; a sicrhau bod gwaith di-dâl yn cael ei ddarparu i gymaint o'r rhai hynny dan orchymyn llys ag sy'n ymarferol. Er hynny, mae'r newid yn araf ac yn amrywio ar draws ac o fewn rhanbarthau.

### Rheoli dedfrydau

Pan wnaethon ni siarad ag uwch arweinwyr mewn rhanbarthau ac yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) ddiwedd 2021, roedden nhw wedi dweud wrthym ni fod staff wedi ymlâdd ar ôl dwy flynedd o heriau Covid-19 a'r gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig ag uno. Mae eu hadborth wedi tynnu sylw at rai themâu allweddol mewn perthynas â rheoli dedfrydau.

#### Effaith ar ddysgu a datblygu

Mae llawer o staff prawf nawr yn rhannu eu hamser yn gweithio gartref ac mewn swyddfa, o ganlyniad i Covid-19 a chyflwyno gweithio hybrid. Mae hyn yn golygu nad yw timau'n cyfarfod wyneb yn wyneb yn aml. Dangosodd trafodaethau gydag uwch arweinwyr fod hyn yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad staff, gyda llai o ryngweithio rhwng cydweithwyr, a llai o gyfleoedd i drafod eu llwyth achosion ac unrhyw ddysgu a gollwyd. Mae'n ymddangos bod yr effaith yn cael ei theimlo'n waeth ymysg recriwtiaid newydd ar lefel Cymhwyster Proffesiynol mewn Prawf, gyda chyfleoedd cyfyngedig i arsylwi ar eu cydweithwyr mwy profiadol. O ran uno, mae cyn staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) wedi cael cyfleoedd cyfyngedig i gwrdd fel cydweithwyr ac, fel y mae ein harolwg o staff prawf yn ei amlygu, mae heriau diwylliannol yn cael eu teimlo yn y gwasanaeth newydd.

#### Cyswllt â phobl sydd ar brawf

Mae'n ymddangos bod newid nodedig wedi bod yn y diwylliant o weithio mewn swyddfa ym maes prawf. Ym mis Mawrth 2020, roedd llawer o staff rheng flaen yn poeni am sut bydden nhw'n gallu gweithio gartref a rheoli eu llwyth achosion – o ystyried bod eu rolau'n golygu bod angen iddyn nhw gwrdd yn rheolaidd â phobl ar brawf. Erbyn mis Rhagfyr 2021, roedd

[15] Arolygiaeth Prawf EM. (2020). *A Thematic Review of the Exceptional Delivery Model Arrangements in Probation Services in Response to the Covid-19 Pandemic.*

[16] Arolygiaeth Prawf EM. (2021). *A Thematic Review of the Quality and Effectiveness of Probation Services Recovering from the Impact of Exceptional Delivery Models Introduced Owing to the Covid-19 Pandemic.*

adborth gan arweinwyr yn dangos bod eu staff wedi addasu i'r ffordd hon o weithio – gyda rhai yn ffafrio gweithio gartref am y rhan fwyaf o'r wythnos, gyda diwrnod achlysurol mewn swyddfa. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod dryswch yn bodoli ymysg staff o ran a oes angen gweithio gartref oherwydd bygythiad Covid-19 neu a yw bellach yn ffordd ddoethach i wasanaethau weithredu – gyda llai o deithio a llai o ofynion o ran lle swyddfa a chyfleusterau. Er bod gweithio hyblyg i gael ei annog a bod datblygiadau wedi bod yn y dechnoleg a ddefnyddir ar gyfer cyswllt â phobl ar brawf, yn absenoldeb sylfaen dystiolaeth gadarn, ein tybiaeth sylfaenol yw bod darpariaeth wyneb yn wyneb yn fanteisiol, lle mae unrhyw gyfyngiadau Covid-19 sydd yn dal i fodoli yn caniatáu hynny. Dim ond gyda staff rheng flaen sy'n bresennol yn y swyddfa y gellir gwneud hyn.

Ddiwedd 2021, roedd y Gwasanaeth Prawf yn symud tuag at sicrhau bod ymarferwyr yn gweld pob person ar brawf, wyneb yn wyneb, bob mis o leiaf. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau wedi dweud wrthym fod capasiti yn eu swyddfeydd (ar ddiwedd 2021) yn dal yn isel oherwydd canllawiau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau asesiadau risg Covid-19. O'r herwydd, mae'r sefyllfa'n dal yn heriol ac yn cymryd llawer o amser, ac mae'n effeithio ar nifer y bobl ar brawf y gellir eu gweld wyneb yn wyneb, boed hynny yn unigolion neu'n grwpiau.


Mae Ffigur 2 yn cymharu darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb â'r risg o niwed difrifol y mae unigolyn wedi cael ei asesu ei fod o bosibl yn ei achosi. Mae'n dangos, ar ddechrau 2021, yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol hwnnw, fod y cyswllt wyneb yn wyneb â phobl ar brawf yn isel (7.7 y cant ar gyfer risg isel o niwed difrifol, 18 y cant ar gyfer risg ganolig o niwed difrifol a 34.5 y cant ar gyfer cysylltiadau risg uchel o niwed difrifol) a bod y rhan fwyaf o'r cyswllt dros y ffôn.

Fodd bynnag, wrth i gyfyngiadau symud gael eu gwrthdroi, roedd tuedd gynyddol tuag at gyswllt wyneb yn wyneb o fis Mai 2021 ar gyfer pob lefel o risg o niwed difrifol, i dros 60 y cant o gysylltiadau erbyn mis Tachwedd 2021, er bod llawer iawn o gyswllt yn dal i gael ei wneud dros y ffôn. Yr adborth a gawsom o sgyrsiau gydag uwch arweinwyr yw bod y galwadau ffôn hyn, mewn llawer o achosion, wedi cael 'canolbwyntio ar les', ac mae angen ail-gydbwyso er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau'n ystyrlon a bod y cynllun dedfrydu'n cael sylw. Mae hyn yn hollbwysig, fel yr amlinellir ym model gweithredu targed y llywodraeth: Fel y nodir yn y gyfraith, mae gan y gwasanaethau prawf sawl nod sy'n ymwneud â diogelu rhag troseddau pellach (diogelu'r cyhoedd, grymuso'r rhai sy'n cyflawni troseddau i fod eisiau gwneud newidiadau cadarnhaol, a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu) a mynd i'r afael â'r niwed a achoswyd gan y trosedd gwreiddiol (tynnu sylw at effeithiau troseddu ar ddioddefwyr a hwyluso cosbau priodol)'[4]. Os bydd galwadau ffôn yn parhau – mae angen eu hail-gydbwyso tuag at ddiogelu'r cyhoedd yn ogystal â lles, er mwyn cefnogi nodau'r gwasanaeth prawf yn well.

Mae ymchwil mewn perthynas â darparu o bell yn gyfyngedig ac rydym yn falch o nodi bod y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn cynnal ymchwil i oruchwyliaeth gyfunol. Rydym hefyd yn nodi ymchwil diweddar a adroddwyd yn y *Probation Journal* o ran cyswllt dros y ffôn sy'n 'atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith wyneb yn wyneb mewn ymarfer prawf ond sy'n awgrymu bod lle i gadw rhywfaint o ddefnydd o oruchwyliaeth dros y ffôn fel rhan o fodel ymarfer cyfunol yn y dyfodol. Gallai meddwl pellach am oruchwyliaeth dros y ffôn ystyried y tair thema hyn a nodwyd yn yr ymchwil: mae gweithio o bell yn cyfyngu ar agweddau synhwyraidd goruchwylio, mae perthnasoedd yn parhau i fod wrth wraidd ymarfer, ac mae ymarfer da yn gofyn am ddisgresiwn proffesiynol'.[17]

[17] Putting a face to a name: Telephone contact as part of a blended approach to probation supervision - Jane Dominey, David Coley, Kerry Ellis Devitt, Jess Lawrence, 2021.

**Ffigur 2: Cyfran o gyfanswm y cysylltiadau wyneb yn wyneb, yn ôl lefel y risg o niwed difrifol (RoSH)[18]**




## Defnyddio technoleg

Er bod gennym rai pryderon ynghylch rheoli dedfrydau, ymddengys bod gweithio o gartref a fideo gynadledda wedi cael effaith gadarnhaol ar y Gwasanaeth Prawf, o ran gwaith aml-asiantaeth a gweithio mewn partneriaeth. Ar gyfer uwch arweinwyr, mae'r defnydd o fideo gynadledda ar gyfer cyfarfodydd wedi lleihau teithio gormodol ar draws eu rhanbarthau ac wedi sicrhau cyswllt mwy rheolaidd gyda'u staff a'u partneriaid yn yr heddlu, y llysoedd a'r awdurdodau lleol.

## Gwaith di-dâl


Mae gwaith di-dâl, a elwir hefyd yn 'daliad cymunedol', yn ofyniad dedfrydu y gall y llysoedd ei gynnwys mewn gorchmynion cymunedol a gorchmynion dedfryd ohiriedig, a dylid ei gwblhau o fewn 12 mis. Prif bwrpas gwaith di-dâl yw darparu cosb a gwneud iawn – gweithio ar brosiectau sydd o fudd i'r gymuned a all hefyd roi cyfle i bobl ar brawf ddatblygu sgiliau bywyd a galwedigaethol sy'n cefnogi ymatal.

Cafodd prosiectau gwaith di-dâl eu gohirio, ledled Cymru a Lloegr, ar ddechrau cyfnod clo cychwynnol Covid-19 ym mis Mawrth 2020 ac ni wnaethant ailgychwyn tan ddiwedd mis Mehefin/dechrau mis Gorffennaf 2020, pan wnaed gwaith sylweddol i sicrhau bod prosiectau'n dilyn canllawiau'r llywodraeth ynghylch arferion gweithio diogel. Cafodd y gwaith ei ohirio eto ym mis Ionawr 2021, pan roedd yn gyfnod clo cenedlaethol arall, ac ailddechreuodd y prosiectau ym mis Ebrill 2021. O ganlyniad, cafwyd cyfanswm o tua wyth mis rhwng mis Mawrth 2020 a mis Rhagfyr 2021 pan na fu'n bosibl i wasanaethau prawf ddarparu prosiectau ad-dalu cymunedol ar y safle, a gyfrannodd yn sylweddol at yr ôl-groniad, ochr yn ochr â chyfyngiadau capasiti parhaus.

[18]Darperir gan Berfformiad, Data a Thystiolaeth HMPPS fel Gwasanaeth.


Mae Ffigur 3 yn dangos, ar 28 Tachwedd 2021, bod ôl-groniad o 13,613 o achosion gwaith di-dâl yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ôl-groniad yn cyfeirio at bobl ar brawf sy'n gweithio oriau gwaith di-dâl nad ydynt wedi cwblhau eu horiau o fewn 12 mis. Mae'r gofynion hyn yn dal heb eu cyflawni hyd nes y bydd yr oriau wedi'u cwblhau, neu hyd nes y bydd y llysoedd yn terfynu'r gofyniad.

**Ffigur 3: Ôl-groniad achosion gwaith di-dâl (Mawrth 2020 – Tachwedd 2021)**[18]




Er gwaethaf yr ôl-groniad sylweddol hwn, mae tystiolaeth bod y sefyllfa'n gwella o'i chymharu â misoedd cynnar Covid-19. Mae Ffigur 4 yn dangos darpariaeth ym mis Tachwedd 2021 ar 72 y cant o'r lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae gorchmynion gwaith di-dâl newydd wedi parhau i gael eu hychwanegu at lwyth achosion y Gwasanaeth Prawf.


**Ffigur 4: Canran y gwaith di-dâl a gyflawnwyd, o'i gymharu â'r llinell sylfaen cyn y pandemig (Mai 2020 – Tachwedd 2021)**[18]




Mae Ffigur 5 yn dangos bod canran y gofynion gwaith di-dâl a gwblhawyd cyn y pandemig yn 90.8 y cant rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019, ond roedd wedi gostwng i 41.8 y cant


erbyn mis Ionawr a mis Mawrth 2021; mae hyn yn golygu bod cyfran sylweddol o achosion yn disgyn i'r ôl-groniad ac nad ydynt yn cael eu cwblhau o fewn 12 mis.

**Ffigur 5: Gofyniadau gwaith di-dâl a gwblhawyd o fewn 12 mis (Medi 2019 – Mawrth 2021)**[19]




Mae Ffigur 6 yn dangos, ers mis Mawrth 2020, fod rhwng 25 y cant a 70 y cant o'r holl orchmynion dedfryd ohiriedig gyda gofyniad gwaith di-dâl wedi cael eu terfynu heb i'r oriau gael eu cwblhau oherwydd, yn wahanol i orchymyn cymunedol, nid yw'n bosibl ymestyn y gorchymyn dedfryd ohiriedig y tu hwnt i'r dyddiad terfyn gweithredol.

**Ffigur 6: Gorchmynion dedfryd ohiriedig gyda gwaith di-dâl sydd wedi dod i ben** [18]




Dywedodd uwch arweinwyr yn y maes prawf wrthym fod nifer o ffactorau'n dal i effeithio ar gapasiti'r hyn y gellir ei ddarparu:

- mae mesurau cadw pellter cymdeithasol yn effeithio ar nifer y bobl ar brawf y gellir eu cludo a'u lletya ar brosiect.
- nid oes digon o oruchwylwyr i gyflawni prosiectau.

[19] Perfformiad CRC - Data prawf - data cyfiawnder

- nid oes digon o gapasiti o fewn y system i ddarparu ar gyfer yr holl oriau y mae'n ofynnol eu cyflawni, ac mae'r ôl-groniad yn cynyddu.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi penodi dirprwy gyfarwyddwr i arwain ar waith di-dâl ac, wrth ddefnyddio'r £93 miliwn a ddyfarnwyd fel rhan o setliad adolygiad gwariant 2021[20], mae cynllun wedi cael ei ddatblygu i gynyddu cyflymder, maint ac ansawdd y ddarpariaeth, gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth i 155 y cant o'r lefelau cyn y pandemig erbyn haf 2022. Mae hyn yn cynnwys addasiadau sy'n cydymffurfio â Covid-19 i drafnidiaeth ac ymyriadau sy'n gallu cael eu cwblhau wrth gadw pellter cymdeithasol neu ynysu (fel prosiectau annibynnol yn y cartref). Bydd buddsoddiad yr adolygiad o wariant hefyd yn cael ei ddefnyddio i gynyddu adnoddau rhanbarthol, amnewid faniau sy'n heneiddio ac ail-lansio gwaith di-dâl gyda phartneriaid lleol. Mae prosiectau cenedlaethol gyda sefydliadau allweddol, gan gynnwys prosiectau cynnal a chadw gyda'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a Highways England, yn cael eu trafod, i sicrhau lleoliadau mawr sy'n weladwy i'r cyhoedd ac sy'n helpu i ddiwallu anghenion cymunedau. Yn genedlaethol, mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn awyddus i recriwtio 550 o staff ad-dalu cymunedol ychwanegol, gan gynnwys dros 300 o oruchwylwyr a 70 o staff gweinyddol. Mae uwch arweinwyr yn cydnabod bod yn rhaid recriwtio'r rolau hyn yn gyflym ac yn ddi-oed, gan roi ystyriaeth briodol i ble a sut mae'r rolau'n cael eu hysbysebu.

Er bod ffocws ar fynd i'r afael â darparu gwaith di-dâl, rhaid rhoi sylw hefyd i reoli dedfrydau'n gadarn ar gyfer yr achosion hynny sy'n rhan o'r ôl-groniad, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn gweithio oriau ar hyn o bryd. Bydd angen gweithio hefyd i fynd ag achosion yn ôl i'r llys er mwyn ymestyn y gofynion ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd y pwynt 12 mis. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi dod i gytundeb â Gweinidogion, yr Uwch Farnwr Llywyddol a GLlTEM yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, i ymestyn yr holl orchmynion cymunedol gyda gofyniad Gwaith Di-dâl a ddedfrydwyd rhwng 16 Mawrth 2019 a 30 Mehefin 2020, gan fod y pandemig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol i leihau'r effaith ar GLlTEM ac ymarferwyr prawf a fyddai fel arall yn gorfod gwneud ceisiadau unigol i'r llys i ymestyn pob gofyniad gwaith di-dâl.

Er ei bod yn gadarnhaol bod cytundeb wedi'i wneud i ymestyn achosion, awgrymwn y gellid cynnal adolygiad mewn perthynas â'r gofyniad cyfreithiol i achos orfod cael ei ddwyn i'r llys am estyniad, os na chaiff ei gwblhau o fewn 12 mis, oherwydd y gost a'r amser sy'n gysylltiedig â'r broses hon gan wahanol asiantaethau.

Yn gyffredinol, mae'n dal yn wir bod Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar waith di-dâl ac y bydd y sefyllfa hon yn parhau am nifer o flynyddoedd i ddod, oni bai: bod y ddarpariaeth yn cynyddu'n gyflym; bod cynlluniau eraill ar gyfer delio â'r gofynion yn yr ôl-groniad; neu bod llai o ofynion gwaith di-dâl yn cael eu gwneud.

## Rhaglenni Achrededig

Mae rhaglenni achrededig – a elwir hefyd yn rhaglenni ymddygiad troseddol – yn ceisio newid y ffordd o feddwl, agweddau ac ymddygiad a allai arwain at bobl yn aildroseddu. Cyflwynir y rhan fwyaf o raglenni mewn grwpiau ond mae darpariaeth ar gyfer ymyriadau un-i-un. Maent yn cynnwys rhaglenni i fynd i'r afael â'r canlynol:


- troseddau penodol – er enghraifft, troseddau rhywiol a thrais yn y cartref
- patrymau ymddygiad troseddol cyffredinol
- troseddu sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Fel gwaith di-dâl, mae darparu rhaglenni achrededig wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan Covid-19. Mae Ffigur 7 yn dangos cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer y rhaglenni hyn ers mis


[20] HM Treasury. (2021). *Autumn Budget and Spending Review 2021*.

Mai 2020, yn erbyn lefelau cyn Covid-19, gyda'r ddarpariaeth yn cynyddu i 70 y cant o'r lefelau hyn erbyn mis Tachwedd 2021. Fodd bynnag, mae Ffigur 8 yn dangos bod nifer y bobl ar brawf a gwblhaodd eu rhaglen achrededig yn llwyddiannus wedi gostwng i 31.9 y cant rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021, o'i gymharu ag 85.6 y cant rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019.

**Ffigur 7: Rhaglenni achrededig wedi'u cyflawni, yn erbyn lefelau cyn Covid-19**[19]




**Ffigur 8: Gofynion rhaglenni a gwblhawyd (Medi 2019 – Mawrth 2021)**[19]




Ym mis Mawrth 2020, adeg y cyfyngiadau symud cenedlaethol cychwynnol, cafodd y gwaith o ddarparu rhaglenni achrededig i grwpiau ledled y wlad ei ohirio. Roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn canolbwyntio i ddechrau ar yr unigolion hynny oedd eisoes ran o'r ffordd drwy'r rhaglenni pan gawsant eu gohirio. I'r rheini sy'n gymharol agos at eu cwblhau, roedd hyn yn golygu cynnal y sesiynau olaf ar sail un-i-un, o bell. Dechreuodd y ddarpariaeth gynyddu o fis Gorffennaf 2020 ymlaen wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi, gyda gwaith sylweddol yn cael ei wneud i sicrhau bod modd darparu grwpiau'n ddiogel. Cyrhaeddodd y ddarpariaeth tua 70 y cant o'r lefelau cyn Covid-

19 ym mis Tachwedd 2020, cyn gostwng eto oherwydd cyfyngiadau symud cenedlaethol pellach ym mis Ionawr 2021.

Roedd ein hadolygiad thematig o ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau prawf oedd yn adfer ar ôl effaith y pandemig[16] yn dangos bod cael rhaglenni'n ôl ar waith wedi bod yn her i lawer o wasanaethau prawf. Thema gyson yn ein cyfarfodydd gyda staff prawf sy'n ymwneud â rhaglenni achredig oedd yr amser oedd ei angen i sicrhau bod ystafelloedd cyfarfod grŵp wedi cydymffurfio â Covid-19, a bod y rheini sy'n mynychu grwpiau wedi cydymffurfio â rheoliadau. Mae hyn, yn anochel, wedi golygu bod grwpiau wedi bod yn llawer llai nag o'r blaen, yn aml gyda chymhareb o un hwylusydd i dri chyfranogwr. Hefyd, gan fod angen i rai cyfranogwyr warchod neu eu bod yn arbennig o agored i niwed, gallai darpariaeth un-i-un fod yn ofynnol yn aml.

Mae gostyngiad yn nifer y grwpiau yn effeithio'n sylweddol ar y gallu i gyflawni. Dim ond yr un nifer o grwpiau y gall yr un nifer o staff eu darparu, ond os oes llai ym mhob grŵp, bydd llai yn derbyn yr ymyriad. I lawer o'r gwasanaethau prawf, roedd yr adferiad wedi'i gyfyngu gan argaeledd ystafelloedd priodol a staff wedi'u hyfforddi'n briodol.

Roedd ein harchwiliad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn Ne-orllewin Lloegr (Gorffennaf 2021)[21] yn tynnu sylw at rai o'r heriau o ran darparu dewisiadau amgen i raglenni achredig:


*'Mewn rhai achosion, mae "Mapiau ar gyfer Newid" wedi cael ei gyflwyno ar sail un-i-un fel dewis arall yn lle rhaglenni gwaith grŵp achredig i fynd i'r afael â throseddau rhywiol. Canfu'r arolygwyr lefel amrywiol o hyder a gwybodaeth ymysg ymarferwyr sy'n darparu'r ymyriad hwn, ac mae hwyluswyr rhaglenni achredig ar gael i gefnogi unigolion lle bo angen. Mae llai o gapasiti i ddarparu rhaglenni achredig yn ystod y pandemig wedi golygu bod rhestrau aros wedi cynyddu, o 110 ym mis Hydref 2019 i 172 ym mis Hydref 2020. Mae'r rhanbarth wedi ceisio lleihau amseroedd aros a chefnogi'r gwaith o ddarparu dewisiadau amgen priodol. Fodd bynnag, mae 24 y cant o bobl ar brawf wedi bod yn aros am raglen am fwy na 12 mis, a 59 y cant am fwy na chwe mis, ac nid yw hynny'n dderbyniol'.*

Mae Ffigurau 9, 10 ac 11 yn dangos bod adnoddau'n cael eu targedu at y rheini sy'n peri'r risg fwyaf o niwed difrifol, gyda mwy o gwblhau rhaglenni ar gyfer cam-drin domestig a throseddau rhywiol, er bod y niferoedd wedi gostwng yn sylweddol, o'i gymharu â'r llinell sylfaen, o fis Mawrth 2019 i fis Chwefror 2020.


Sylwer: Mae'r echel lorweddol yn y ffigurau hyn yn nodi gwaelodlin y ganran cyn Covid-19 ar gyfer y gwasanaethau hyn.

[21] HM Inspection of Probation. (2021). *An Inspection of the South West Region of the National Probation Service.*


**Ffigur 9:** **Rhaglenni Meithrin Perthnasoedd Gwell a ddarparwyd**[18]




**Ffigur 10: Rhaglenni Triniaeth ar gyfer Troseddwyr Rhyw a ddarparwyd**[18]




**Ffigur 11:** **Rhaglenni Sgiliau Meddwl a ddarparwyd**[18]




Er bod y ddarpariaeth wedi cynyddu ar gyfer rhaglenni achrededig yn ystod 2021, dim ond 30 y cant o lwyth achosion y rhaglenni achrededig oedd ar raglen o fis Tachwedd 2021 ymlaen (ffigur 12). Mae'r gyfradd cwblhau isel o 31.9 y cant rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021 ar gyfer rhaglenni achrededig yn awgrymu bod cyfran gymharol fawr o orchmynion a thrwyddedau'n cael eu terfynu heb i'r rhaglen gael ei chwblhau. Yn wahanol i ofynion gwaith di-dâl, bydd gofyniad rhaglen achrededig yn dod i ben ar ddiwedd y drwydded neu'r gorchymyn, p'un a yw wedi'i gwblhau ai peidio, oni bai ei fod yn cael ei ymestyn gan y llys.

**Ffigur 12:** **Rhaglenni achrededig a ddechreuwyd yn erbyn y rhestr aros**[18]




Roedd ein hadolygiad thematig[4] yn dangos, lle penderfynwyd nad oedd digon o amser i gwblhau rhaglen achrededig, bod disgwyl i'r swyddog cyfrifol wneud gwaith arall, gyda chymorth y tîm rhaglenni. Er enghraifft, mae 'Mapiau ar gyfer Newid' a 'MOT Fi Newydd' ill dau wedi cael eu haddasu yn lle'r rhaglenni trin troseddwyr rhyw cysylltiedig a rhaglenni 'Horizons' – fel y nodwyd yn ein harchwiliad o ranbarth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn Ne Orllewin Lloegr.[21][21]I gefnogi swyddogion cyfrifol yn y gwaith o'u cyflwyno, mae rhai ardaloedd wedi datblygu gweithdai a chymorthfeydd achos, sy'n cael eu cynnal gan staff cyflenwi rhaglenni. Er nad yw'r mathau hyn o ddewisiadau eraill ar wahân i raglenni achrededig yn ddelfrydol, os mai'r unig ddewis arall oedd peidio â chael ymyriad, yna roedd hyn yn gyfaddawd rhesymol.

Mae'n hanfodol cynnal gwerthusiad priodol o'r dewisiadau amgen hyn yn hytrach na rhaglenni achrededig ar frys er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol, yn enwedig os ydynt yn debygol o aros yn weithredol am gryn amser. Hefyd, mae angen dull effeithiol o fonitro os oes dewisiadau eraill wedi'u cyflwyno lle na all rhaglen achrededig wneud hynny.

Mae cynllun adfer ar waith ar gyfer rhaglenni achrededig, gyda strwythur llywodraethu clir, sy'n cynnwys recriwtio staff ychwanegol i ddarparu ymyriadau strwythuredig yn lle rhaglenni achrededig. O fis Ionawr 2022 ymlaen, bydd cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol yn penderfynu pa ymyriadau strwythuredig y byddant yn eu comisiynu yn eu rhanbarth. Mae pecynnau cymorth ar gael hefyd i ymarferwyr prawf eu darparu fel dewisiadau eraill lle mae capasiti yn bodoli ac os yw staff yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol i wneud hynny.

# 5. Arolygiadau thematig – materion allweddol sy'n effeithio ar wasanaethau prawf

**Beth yw arolygiad thematig?**

Cynhelir arolygiadau thematig yn unig gan Arolygiaeth Prawf EM neu ar y cyd ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill. Daw'r olaf o dan gylch gwaith y rhaglen arolygu ar y cyd ar gyfer cyfiawnder troseddol. Yr ydym wedi cydnabod gyda'n gilydd bwysigrwydd y cydweithio hwn er 2007 ac yr ydym yn cynhyrchu cynllun busnes bob blwyddyn, yn nodi blaenraglen o arolygiadau ar y cyd. Y diweddaraf yw'r cynllun arolygu ar y cyd ar gyfer cyfiawnder troseddol 2021-2023.[22]

Mae pob arolygiad thematig yn edrych ar faes penodol o ddarparu'r gwasanaeth prawf, drwy archwilio ymarfer yn fanwl, yn ogystal â'r trefniadau arweinyddiaeth strategol a phartneriaeth sy'n cefnogi gwaith o'r fath. Mae pob adroddiad arolygu yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

Ers mis Tachwedd 2020, mae Arolygiaeth Prawf EM wedi cyhoeddi chwe arolygiad thematig (rhai ar y cyd) sy'n edrych ar faterion allweddol sy'n effeithio ar wasanaethau prawf a'r system cyfiawnder troseddol ehangach.

**Mae ein harolygiadau thematig yn ysgogi newid**

## Llety a digartrefedd

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf EM yr adroddiad *Accommodation and support for adult offenders in the community and on release from prison in England.*[23]

### Crynodeb

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y materion cymhleth a rhyng-gysylltiedig sy'n bodoli pan fydd rhywun yn mynd i'r carchar yn ddigartref, ac i'r nifer sy'n gadael heb unman i fyw. Pan nad oes gan unigolion o'r fath gartref, mae'n anodd i'r gwasanaethau prawf eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol, a'r canlyniad yw bod y bobl hynny'n fwy tebygol o aildroseddu.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am dai a digartrefedd, ac mae gan y gwasanaethau prawf ddyletswydd i gyfeirio pobl sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, atynt. Gwelsom nad oedd y rhan fwyaf o ymarferwyr prawf yn ymwybodol o'r disgwyliad y dylent ddilyn yr atgyfeiriadau hyn, ac ychydig yn unig oedd wedi gweld y cynlluniau tai personol a gynhyrchwyd gan yr awdurdod tai lleol ar gyfer yr achosion yr oeddent wedi'u cyfeirio.

Adeg ein harolwg, nid oedd unrhyw ddull o olrhain atgyfeiriadau gan wasanaethau prawf i awdurdodau lleol, er mwyn canfod pa mor effeithiol oedd y broses hon o ran cyflawni canlyniadau llety. Gwelsom dystiolaeth mai dim ond mewn tua thraean o'r achosion perthnasol y buom yn edrych arnynt y gwnaed yr atgyfeiriadau hyn.

### Cyllid ar gyfer tai â chymorth

Yn y gorffennol, cydgomisiynodd y gwasanaethau prawf lety a gwasanaethau cysylltiedig yn uniongyrchol a oedd yn cefnogi unigolion a oedd yn gadael y carchar hyd at y pwynt lle

[22] Criminal Justice Chief Inspectors' Group. (2021). *Criminal Justice Joint Inspection Business Plan 2021/23.*

[23] HM Inspectorate of Probation. (2020). *Accommodation and Support for Adult Offenders in the Community and on Release from Prison in England.*

gallent reoli eu tenantiaethau eu hunain. Daeth hyn i ben pan newidiodd y trefniadau comisiynu Cefnogi Pobl yn Lloegr yn 2009.

Mae'r arian yn awr yn mynd i awdurdodau lleol, ond nid yw'r arian wedi'i glustnodi. O ganlyniad, gostyngodd gwariant ar wasanaethau y byddai Cefnogi Pobl wedi talu amdanynt 59 y cant mewn termau real yn y pum mlynedd dilynol hyd at 2015. Mae pandemig Covid-19 wedi dod â ffocws newydd i'r amlwg ar atal cysgu ar y stryd, gan gynnwys ar gyfer y rheini sy'n gadael y carchar ac ar brawf, ac mae adolygiad gwariant 2021 y llywodraeth wedi dyfarnu cyllid ar gyfer lleihau digartrefedd (mae rhagor o fanylion isod).

### Llety ar ôl rhyddhau

Yn ein harolygiad thematig ar lety[23], dadansoddwyd sampl achosion o 116 o achosion o ryddhau o'r carchar. Canfuom fod 17 y cant, 12 mis yn ddiweddarach, yn dal i fod yn ddigartref, a bod 15 y cant arall yn dal mewn llety ansefydlog. I'r rhai a ryddhawyd i lety sefydlog, roedd y ganran a alwyd yn ôl neu a ailddedfrydwyd i garchar bron yn hanner nifer y rhai a oedd heb lety o'r fath ar ôl eu rhyddhau – mae tystiolaeth bod cael a chadw llety sefydlog yn ffactor sy'n cyfrannu at adsefydlu llwyddiannus.

**Tabl 1: Canran y rhai gyda a heb lety sefydlog ar ôl eu rhyddhau a chyhuddiadau pellach**

| | Statws llety ar ôl rhyddhau[24] | Galw'n ôl neu ailddedfrydu i'r carchar | Cyhuddo o droseddau pellach |
|---|---|---|---|
| Heb lety sefydlog | 47% | 63% | 65% |
| Gyda llety sefydlog | 41% | 35% | 44% |

### Effaith Covid-19 – timau atal digartrefedd

O ganlyniad i gyfyngiadau symud Covid-19, roedd angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM ac awdurdodau lleol sicrhau bod y rheini sy'n gadael y carchar, a'r rheini sy'n destun gorchmynion llys heb gartref, yn gallu cael gafael ar lety sefydlog. Cafodd y sefyllfa ei gwaethygu gan lai o leoedd mewn safleoedd cymeradwy, er mwyn rheoli canllawiau cadw pellter cymdeithasol (er enghraifft, nid oedd ystafelloedd a rennir yn opsiwn mwyach).

Fe wnaeth nifer o'n harolygwyr wirfoddoli i ddychwelyd i'r gwasanaethau prawf i helpu i gyflwyno'r timau atal digartrefedd ledled Cymru a Lloegr ym mis Mawrth 2020. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar gynnig cymorth i bobl sydd ar brawf i ddod o hyd i lety dros dro tra bod opsiwn tymor hwy yn cael ei geisio – menter gadarnhaol. Parhaodd y prosiect i fis Hydref 2020 ac fe'i hymestynnwyd i 2021.

### Beth ddigwyddodd nesaf

Gwnaethom 11 o argymhellion yn ein hadroddiad arolygu thematig (dau ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder a naw ar gyfer y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf). Cytunwyd yn llwyr ar argymhellion y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chwech o argymhellion y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (cytunwyd yn rhannol ar dri). Fe wnaethom ni gasglu uwch arweinwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a

[24]Data a gymerwyd o sampl arolygu o 116 o achosion a ryddhawyd ym mis Chwefror 2019 ac a olrheiniwyd am 12 mis i weld a wnaethant aildroseddu, a gawsant eu galw'n ôl, neu eu hailddedfrydu i'r ddalfa yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid yw hyn yn cynnwys y rhai a oedd, ar ôl eu rhyddhau, yn cael eu cartrefu i ddechrau mewn adeiladau cymeradwy, llety BASS, na threfniadau cadw cysylltiedig â mewnfudo.

rhanddeiliaid eraill, i drafod sut gallai sefydliadau weithio gyda'i gilydd i wreiddio ein hargymhellion.

Roedd ein harolwg yn dadlau dros fwy o gyllid ar gyfer llety i bobl ar brawf. Ym mis Ionawr 2021, gyda chymorth y dystiolaeth a gawsom am effaith llety ansefydlog ar gyfraddau galw yn ôl ac aildroseddu, llwyddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau £70 miliwn ychwanegol i wella tai a chymorth i'r rheini sy'n gadael carchar ar gyfer 2021/2022. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad o £20 miliwn i gefnogi'r rheini sy'n gadael carchar ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i lety sylfaenol dros dro am hyd at 12 wythnos. Lansiwyd cynlluniau peilot ym mis Gorffennaf 2021 yn Swydd Efrog a Humber, Manceinion Fwyaf, Gogledd Orllewin Lloegr, Dwyrain Lloegr a Chaint, Surrey a Sussex. Aeth cyfanswm o £23 miliwn o gyllid tuag at gynlluniau'r llywodraeth i adeiladu 200 o leoedd newydd mewn adeiladau cymeradwy.

Yn nes ymlaen yn 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth, drwy adolygiad gwariant a chyllideb yr hydref 2021 (Hydref 2021)[20], £640 miliwn o gyllid erbyn 2024-2025 i fynd i'r afael â chysgu allan a digartrefedd, gan gynnwys £200 miliwn y flwyddyn erbyn 2024-2025 ar gyfer darparu llety pontio i bobl sy'n gadael carchar a thriniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

Ym mis Gorffennaf 2021, flwyddyn ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad, darparodd HMPPS fersiwn wedi'i ddiweddaru o'i gynllun gweithredu ar lety mewn perthynas â'r camau gweithredu sy'n ofynnol o 11 argymhelliad.[25]

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sefydlu bwrdd trawslywodraethol lefel uwch, sy'n cwrdd bob mis, i gydlynu gwaith i leihau aildroseddu, i leihau troseddu ac i gael gwared ar gysgu allan.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi datblygu fframwaith llety cenedlaethol sy'n nodi ei gyfrifoldebau – gan weithio gyda'i bartneriaid i sicrhau bod pobl sydd ar brawf, ym mhob rhanbarth, yn gallu cael gafael ar lety sefydlog a'i gadw.

Erbyn mis Gorffennaf 2021, roedd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi sefydlu 12 tasglu atal digartrefedd rhanbarthol – un ar gyfer pob rhanbarth prawf. Byddant yn parhau i fod yn rhan o ddarpariaeth y Gwasanaeth Prawf, gan gynnwys cyflwyno rôl cynghorydd tai arbenigol newydd mewn hyd at 20 o garchardai, i gryfhau'r cysylltiadau rhwng carchardai, timau adsefydlu ac awdurdodau lleol.

**Mae'r Arolygiaeth yn nodi'r camau gweithredu sydd wedi deillio o'n hadroddiad, ond mae'n ymwneud â darparu safleoedd cymeradwy ar gyfer troseddwyr risg uwch o niwed difrifol – ni fydd y 200 o welyau a addawyd yn 2021 yn cael eu darparu tan 2023, gyda dim ond 56 o welyau'n cael eu darparu o fis Gorffennaf 2021 ymlaen.**

**Yn gyffredinol, mae'n siomedig nodi cynnydd arafach ar gamau gweithredu sy'n ddibynnol ar waith trawsadrannol – er enghraifft, gyda'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau i sicrhau bod y ddyletswydd i gyfeirio yn amserol ac yn effeithiol. Yn yr un modd, bu oedi o ran sicrhau bod llety sefydlog ar gael i bob unigolyn sy'n wynebu risg uchel o niwed difrifol sy'n gadael y carchar ac i'r rheini sy'n symud i mewn o adeiladau cymeradwy.**

[25] HM Prison and Probation Service. (2021). *Accommodation HMIP Action Plan.* Policy paper.

**Archwiliadau thematig yn 2021**

## Cydraddoldeb hiliol yn y gwasanaeth prawf: profiadau defnyddwyr a staff gwasanaeth prawf du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf EM yr adroddiad a enwir uchod.[26]

### Ffeithiau am y Cyd-destun

- O'r 222,000 o bobl a oruchwylir gan wasanaethau prawf ledled Cymru a Lloegr, daw oddeutu un rhan o bump o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- Yn y 100 achos o bobl o leiafrifoedd ethnig ar brawf a arolygwyd gennym, nid oedd llawer o dystiolaeth bod staff prawf wedi siarad â hwy am eu hethnigrwydd, diwylliant, crefydd na phrofiadau o gamwahaniaethu.
- O'r 30 o staff prawf yn ein harolwg a oedd wedi codi mater o wahaniaethu ar sail hil, dim ond dau oedd yn teimlo bod y broses a'r canlyniadau wedi cael eu trin yn deg.

### Crynodeb

Gwelsom fod angen i wasanaethau prawf ddangos mwy o ystyriaeth a hyder yn eu gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth a staff o leiafrifoedd ethnig. Rhaid iddynt ailosod a chodi safon y gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth a staff o leiafrifoedd ethnig ar fyrder.

Dywedodd Prif Arolygydd y Gwasanaeth Prawf, Justin Russell: *'Yn yr arolygiad hwn, ychydig iawn o dystiolaeth a welsom o swyddogion prawf yn siarad â defnyddwyr gwasanaeth am eu hil, eu hethnigrwydd neu eu profiadau o gamwahaniaethu. Roedd rhai swyddogion – yn ôl eu cyfaddefiad eu hunain – yn osgoi siarad am y materion hyn yn llwyr.*

*'Roedd y rhain yn ganfyddiadau siomedig. Mae gennym bryderon am bob cam o oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf o ansawdd yr adroddiadau cyn-dedfrydu – gwelsom fod 40 y cant yn annigonol wrth ystyried ffactorau amrywiaeth – i'r ffordd yr oedd defnyddwyr gwasanaeth o leiafrifoedd ethnig yn ymwneud â'u hasesiad a'u cynlluniau dedfrydu*.[27]

### Ein methodoleg:

- 100 achos o bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar brawf a arolygwyd
- 84 o staff prawf wedi eu cyfweld
- 51 o adroddiadau cyn dedfrydu wedi eu dadansoddi
- 100 o ymatebion i arolwg a anfonwyd at bob aelod o staff o leiafrifoedd ethnig (atebodd un o bob tri)
- Grwpiau ffocws gyda 56 o swyddogion prawf a 41 o reolwyr canol
- Grwpiau ffocws gyda 90 o swyddogion prawf a rheolwyr o leiafrifoedd ethnig

---

[26] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Race Equality in Probation: The Experiences of Black, Asian and Minority Ethnic Probation Service Users and Staff.*

[27] HM Inspectorate of Probation. (2021). Probation service must 'reset and raise' standard of work with ethnic minority service users and staff urgently. Press release.

- Cafodd 81 o bobl ar brawf eu cyfweld.

Y gwasanaethau a gymerodd ran yn yr arolygiad thematig hwn oedd Bradford a Calderdale, Hackney a Tower Hamlets, Swydd Bedford a Birmingham, a Lerpwl a Sefton. Dewiswyd y gwasanaethau hyn ar sail eu poblogaethau lleiafrifoedd ethnig uwch na'r cyfartaledd.

## Prif ganfyddiadau

**Pobl ar brawf:**

- Roedd pobl o leiafrifoedd ethnig ar brawf yn aml yn ymuno â'r system brawf ar ôl profi hiliaeth amlwg o gymdeithas prif ffrwd a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach.
- Roedd hiliaeth gynnil wedi cael ei normaleiddio i ryw raddau ac roedd yn cael ei weld fel mater o 'fel yna mae hi'.
- Roedd diffyg dealltwriaeth ddiwylliannol (a diddordeb weithiau) o fewn y gwasanaethau prawf ac amharodrwydd i drafod materion cysylltiedig.

**Staff prawf:**

- Clywodd yr arolygwyr storïau gofidus am ymddygiad amhriodol tuag at staff o leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys achosion o stereoteipio, iaith hiliol a rhywiol, a honiadau ffug.
- Nid oedd staff o leiafrifoedd ethnig bob amser yn cael eu cynghori na'u cefnogi i weithio gydag unigolion a oedd wedi cyflawni troseddau yn ymwneud â hil.
- Nid oedd llawer o'r staff a holwyd yn teimlo ei bod yn ddiogel codi materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil yn y gwaith ac nid oeddent yn ffyddiog y byddai cwynion yn cael eu trin yn briodol. Clywodd yr arolygwyr fod cwynion difrifol wedi cael eu bychanu, eu hanwybyddu neu eu diystyru dro ar ôl tro.

Canfu'r arolygiad thematig rywfaint o arweinyddiaeth gadarnhaol ac arloesol, fel yn yr enghraifft isod.

**Enghraifft o ymarfer da**

Cyhoeddodd cyfarwyddwr rhanbarthol Rhanbarth Gorllewin Canoldir Lloegr 10 addewid yn nodi sut yr oedd yn bwriadu gweithio gyda'i staff i gyflawni'r diwylliant a'r ymddygiad yr oeddent yn ei ddymuno yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr ac y byddai'n atebol amdano. Roedd y rhain yn cynnwys camau penodol i ymgysylltu â staff, datblygu amrywiaeth mewn ymarfer, cefnogi grwpiau ar y cyrion, gwella hyfforddiant, mynd i'r afael ag anghymesuredd, rhannu gwersi a mynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol, creu rhwydwaith o gynghreiriaid, gwella arferion recriwtio, dylanwadu ar bartneriaid a darparu diweddariadau misol ar yr addewidion hyn. Anogwyd penaethiaid unedau darparu lleol i wneud eu hymrwymiadau eu hunain.

## Newidiadau yn y gwasanaeth prawf o ganlyniad i'r arolygiad thematig hwn

Gwnaeth ein hadroddiad 15 o argymhellion ar gyfer HMPPS ac NPS (a elwir bellach yn Wasanaeth Prawf) – cytunwyd ar 13 (cytunwyd yn rhannol ar ddau). Mae'n werth nodi'r cytundeb, gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, i ddarparu dysgu i ymarferwyr er mwyn deall gwahaniaethu a'i effaith, ac i ymgynghori â phobl o leiafrifoedd ethnig ar y gwasanaeth prawf ynghylch ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Roeddem yn siomedig â'r amserlenni ar gyfer gweithredu a nodwyd yn ymateb cychwynnol HMPPS i'n hargymhellion a awgrymwyd gennym. Gofynnwyd iddynt gael eu hystyried ymhellach ac ailgyflwynwyd y cynllun gweithredu.

Ym mis Hydref 2021, mewn ymateb i'n hadroddiad, cyhoeddodd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei *Gynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol mewn Gwaith Prawf*[28] ac roedd yn cynnwys y camau gweithredu a'r ymrwymiadau canlynol (wedi'u dewis):

*'Bydd y Gwasanaeth Prawf yn datblygu strategaeth cydraddoldeb hiliol ar gyfer pobl ar brawf, a gyhoeddir ym mis Mawrth 2022, gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth; gweithgarwch yn y Rhaglen Weithredu ar Hil, gan gynnwys canlyniadau a gwerthuso hyfforddiant Cymhwysedd Diwylliannol a phecynnau cymorth sy'n cael eu datblygu ar gyfer pobl ar brawf; yn ogystal ag asesiadau rhanbarthol i ganfod a rhoi sylw i feysydd anghymesuredd'*.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi creu rolau cefnogi comisiynu cenedlaethol i gynyddu cynrychiolaeth mudiadau cymunedol bach sy'n gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig o fewn yr ystod o wasanaethau adsefydlu a gomisiynir. Bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn sicrhau, wrth gomisiynu gwasanaethau, bod demograffeg leol yn cael ei dadansoddi, a bod gwasanaethau'n adlewyrchu proffil y bobl sydd ar brawf.

Mae'r rhaglen gweithredu ar hil[29] wedi creu cofrestr o fudiadau cenedlaethol a rhanbarthol o leiafrifoedd ethnig, a mudiadau gwirfoddol a chymunedol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn awr i ganfod sut y caiff hyn ei gynnal a sut y darperir mynediad.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf bellach yn cyhoeddi data ar ganlyniadau goruchwyliaeth prawf, tor-amod a galw'n ôl mewn perthynas â phobl ar brawf, er mwyn canfod unrhyw anghymesuredd ar draws gwahanol grwpiau ethnig. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r rhain ym mis Tachwedd 2021.[30]

### Beth nesaf?

O ganlyniad i'r canfyddiadau siomedig, bydd yr Arolygiaeth yn ailedrych ar y pwnc hwn yn 2022/2023.

Rydym wedi gofyn am ddiweddariadau mwy rheolaidd ar y cynllun gweithredu hwn nag sy'n arferol gydag arolygiadau thematig, er mwyn sicrhau ein bod yn fodlon bod y cynllun gweithredu presennol yn mynd rhagddo yn unol â'r bwriad, ond ni fydd effeithiolrwydd y camau hyn yn hysbys yn llawn nes byddwn yn ail-arolygu.

Byddwn yn parhau i arolygu materion cydraddoldeb hiliol fel rhan o'n harolygiadau lleol ac wedi adolygu ein safonau a'n methodoleg yn y maes hwn. Mae pob adroddiad arolygu prawf lleol bellach yn cynnwys adran benodol ar amrywiaeth – gan gynnwys pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion staff o leiafrifoedd ethnig a phobl ar brawf. Rydym hefyd wedi datblygu cyfleoedd i ddenu staff o leiafrifoedd ethnig i'n sefydliad, lle nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n deg yn ein timau arolygu, ac rydym wedi dechrau mynd i'r afael â hyn yn ddiweddar drwy recriwtio arolygwyr cynorthwyol newydd.

[28] HM Prison and Probation Service. (2021). *Race Equality in Probation Action Plan.* Policy paper.

[29] HM Prison and Probation Service. (2020). *RAP: Race Action Programme.*

[30] HM Prison and Probation Service. (2021). *HM Prison and Probation Service Offender Equalities Annual Report 2020 to 2021.*

## Arolygiad thematig ar y cyd o driniaeth cyffuriau yn y gymuned a gwaith adfer gyda phobl ar brawf

Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf EM yr adroddiad a enwir uchod.[31]

### Ffeithiau am y Cyd-destun

- 4,411 – nifer y gofynion adsefydlu defnyddwyr cyffuriau a orchmynnwyd yn y llys. Mae hyn yn llai na phedwar y cant o'r holl ofynion.
- £9.3 biliwn – amcangyfrif o gost y troseddau a gofnodwyd a gyflawnwyd gan ddefnyddwyr cyffuriau yn Lloegr (2017/2018).
- 48 y cant – cyfran y bobl ar brawf yr ydym yn amcangyfrif bod ganddynt broblem gyffuriau a gyfrannodd at eu troseddu.

### Crynodeb

Amcangyfrifodd Arolygiaeth Prawf EM fod gan bron 75,000 o'r 156,000 dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf broblem gyffuriau, ond bod llai na 3,000 o bobl wedi cael eu cyfeirio gan wasanaethau at driniaeth camddefnyddio cyffuriau arbenigol yn 2019/2020. Buom yn gweithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn Ansawdd Gofal i edrych ar sut roedd y gwasanaethau prawf yn goruchwylio'r garfan hon a gwelsom fod y gwasanaethau prawf yn ymateb yn wael i achosion o gamddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth.

Croesawodd yr Arolygiaeth yr adolygiad gan y Fonesig Carol Black, a alwodd am gyllid wedi'i neilltuo i wella triniaeth cyffuriau ac anogodd ymrwymiad parhaus i ariannu triniaeth cyffuriau ac adferiad ar gyfer pobl sydd ar brawf.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021 ac roedd yn cynnwys archwilio llwyth achosion yn Middlesbrough, Manceinion, Blackpool, Abertawe, Lambeth a Dwyrain Sussex. Dewiswyd yr ardaloedd hyn am eu bod wedi cael arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau adsefydlu cyffuriau.

### Prif ganfyddiadau

- Nid oes digon o bobl ar brawf yn derbyn cymorth i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau.
- Mae cyllid ar gyfer rhaglenni triniaeth a chyfiawnder troseddol i gyfeirio pobl wedi '*gwywo*'.
- Ychydig iawn o ddefnyddwyr cyffuriau ar brawf sy'n cael eu profi am eu defnydd o gyffuriau.
- Mae gwybodaeth allweddol ar goll, ac nid yw'n cael ei chasglu'n iawn neu ei defnyddio i gomisiynu gwasanaethau.
- Dywedodd chwech o bob 10 ynad a holwyd gan yr Arolygiaeth nad oeddent yn hyderus bod y gwasanaeth prawf yn darparu'r driniaeth angenrheidiol.

### O'r 60 achos o bobl ar brawf gyda phroblem gyffuriau a archwiliwyd gennym:

- Roedd 0 wedi lleihau eu haildroseddu
- Roedd 21 yn defnyddio llai o gyffuriau
- Roedd 10 wedi cael prawf cyffuriau gorfodol.


[31] HM Prison and Probation Service. (2021). *A Joint Thematic Inspection of Community-Based Drug Treatment and Recovery Work with People on Probation.*

## Dedfrydau cymunedol a gofynion adsefydlu defnyddwyr cyffuriau

Mae gofyniad adsefydlu defnyddwyr cyffuriau (DRR), sy'n cynnwys triniaeth strwythuredig a phrofion cyffuriau rheolaidd, ar gael i lysoedd fel opsiwn dedfrydu. Gellir pennu DRR fel rhan o orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig ond maent wedi gwanhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, yn y rhan fwyaf o'r achosion a archwiliwyd gennym, nid oedd llawer i'w gwahaniaethu oddi wrth orchmynion cymunedol safonol.

Mae angen gwella systemau ac arferion cofnodi er mwyn gallu cael darlun clir o anghenion, lles, gwaith sy'n gysylltiedig â throseddu a phrofion cyffuriau. Cafodd y gwaith adolygu a welsom ei wneud, bron yn gyfan gwbl, ar ei ben ei hun, ac anaml iawn y bydd asiantaethau cyffuriau a phrawf yn dod at ei gilydd gyda defnyddwyr gwasanaeth i adolygu'r cynnydd a'r camau nesaf. Dim ond 11 y cant o'r DRR hyn a ddenodd adolygiad llys, gan adael bron i naw o bob 10 DRR heb oruchwyliaeth barhaus gan y llys.

**Ffigur 13: DRR a sut y daethant i ben yn 2019/2020**[32]





## Triniaeth ar ôl rhyddhau o'r carchar

Roeddem wedi edrych ar nifer y triniaethau a'r canlyniadau ar gyfer y 25,000 o bobl a gafodd eu rhyddhau o'r carchar sydd angen triniaeth yn Lloegr yn 2019/2020. Nid oedd y canlyniadau'n gadarnhaol (gweler Ffigurau 13 a 14). Cafodd llai na 9,000 sylw gan wasanaethau triniaeth ar ôl eu rhyddhau a dim ond un rhan o dair o'r rhain oedd yn cael triniaeth 12 wythnos ar ôl gadael y ddalfa. Yn anffodus, bu farw 1,002 o bobl yn y sampl, o ganlyniad i unrhyw achos, dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf yn y gymuned yng Nghymru a Lloegr yn 2019/2020, gan gynnwys 458 o bobl a fu farw tra oeddent dan oruchwyliaeth ôl-ryddhau.

[32] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021a). Gofynion Adsefydlu Defnyddwyr Cyffuriau – Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Llundain – yn dangos nifer y troseddwyr a ddedfrydwyd gyda Gofyniad Adsefydlu Defnyddwyr Cyffuriau sydd bellach wedi dod i ben

**Ffigur 14:** **Niferoedd triniaethau a chanlyniadau ar gyfer pobl sy'n gadael y ddalfa yn Lloegr 2019/2020**[31]




| **Enghraifft o achos o berson ar brawf sy'n destun gofyniad gweithgaredd adsefydlu (RAR) o sampl achosion ein harchwiliad thematig** |
|---|
| Roedd Ellie wedi cael diagnosis o anhwylder personoliaeth emosiynol ansefydlog, iselder a gorbryder. Roedd hi'n ymosodol ac yn gamdriniol ar lafar pan gafodd ei herio. Roedd ganddi hanes o gardota ar y stryd a chafodd ei rheoli dan orchymyn cymunedol gyda DRR a 50 diwrnod RAR am dorri ei gorchmynion ymddygiad troseddol blaenorol, yn gysylltiedig â chardota a bod yn gaeth i gyffuriau. Roedd ganddi hanes o hunan-niweidio drwy frathu, torri a tharo ei hun a chafodd ei chadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ddwywaith. Roedd ganddi ferch a gafodd ei thynnu o'i gofal ac nad oedd yn cael ei gweld. Roedd hi'n cael trafferth gyda hunanofal a chadw ei thenantiaeth. Mae Ellie yn dod o gefndir cymysg, mae ganddi hanes o gael ei cham-drin yn ddomestig ac roedd wedi dioddef chwalfa feddyliol. Siaradodd am gamdriniaeth gan ei thad pan oedd hi'n blentyn a'i bod yn cael anawsterau gyda'i hunaniaeth ddiwylliannol. Ar ôl cyfnod byr yn y ddalfa, cafodd ei rhyddhau heb bresgripsiwn o feddyginiaeth amnewid opiad ac ar ei noson gyntaf allan o'r ddalfa cysgodd mewn toiled cyhoeddus. |

## Lleihau marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau a niwed arall

Ar hyn o bryd, nid yw gwersi o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn cael eu rhannu'n effeithiol. Nid yw'r gwaith gan y Gwasanaeth Prawf i wella'r system adolygu wedi dod i ben eto. Mae'n hanfodol bod hyn yn arwain at newid cadarnhaol i'r system bresennol.

Nid yw gwaith lleihau niwed ac atal gorddos yn cael ei gyflwyno i bobl sydd â phroblemau cyffuriau yn effeithiol ac yn gyson ar draws y system. Dylai arweinwyr sicrhau bod pob ymarferydd rheng flaen yn deall ac yn cymryd camau i adnabod risgiau i iechyd a lles defnyddwyr cyffuriau, a'u bod yn rhagweithiol, yn ymyrryd a chynghori pobl sydd mewn perygl. Yn yr un modd, dylai pob ymarferydd a rheolwr ddeall a chymryd camau i ddiogelu oedolion sydd mewn perygl.

## Newidiadau yn y gwasanaeth prawf o ganlyniad i'r arolygiad thematig hwn

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys 14 o argymhellion – cytunwyd ar wyth a chytunwyd ar chwech yn rhannol. Cafwyd argymhellion i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf gynyddu'r defnydd o Ofynion Adsefydlu Defnyddwyr Cyffuriau a sicrhau bod pob person sy'n gadael y ddalfa sydd angen triniaeth barhaus yn ei dderbyn.

Yr argymhellion dethol ar gyfer HMPPS oedd:

- gweithio gyda chomisiynwyr llywodraeth leol a gwasanaethau cyffuriau i gynyddu'r defnydd o Ofynion Adsefydlu Defnyddwyr Cyffuriau drwy sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni gan ymarferwyr sydd â'r sgiliau priodol
- canfod cyfran y bobl ar brawf ym mhob ardal sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac a fyddai'n elwa o driniaeth arbenigol sydd ar gael
- sicrhau bod pob person sy'n gadael y ddalfa sydd angen triniaeth barhaus yn ei derbyn, gyda threfniadau trosglwyddo effeithiol yn ategu hynny.

Yr argymhellion dethol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf oedd:

- lansio a gweithredu strategaeth gyffuriau effeithiol a pholisïau cysylltiedig er mwyn:
- sicrhau bod llywodraethu effeithiol yn ysgogi ymarfer effeithiol ac ymatebol i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau
- gwella systemau data/gwybodaeth i gasglu'r proffil a'r data anghenion ar gyfer pobl sydd ar brawf i gefnogi comisiynu gwasanaethau cyffuriau'n lleol ac yn effeithiol
- comisiynu gwasanaethau i fynd i'r afael â dibyniaeth ar gyffuriau a chefnogi adferiad.

Mae ymrwymiadau cyfredol y cynllun gweithredu[33] mewn ymateb i'n hadroddiad yn cynnwys:

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth Strategaeth Cyffuriau genedlaethol newydd a phwysig a oedd yn cynnwys ffocws cryf ar droseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac a oedd wedi addo cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer gwasanaethau triniaeth – gan gynnwys ar gyfer y rheini sydd ar brawf.

Dywedodd Prif Arolygydd y Gwasanaeth Prawf, Justin Russell:

*'Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod yn rhaid i'r Gwasanaeth Prawf a'r gwasanaethau gofal iechyd weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod unigolion yn parhau i gael triniaeth sy'n cefnogi eu hadferiad.*

*'Er bod unrhyw gynnydd mewn cyllid i'w groesawu, mae cymorth anariannol yn hanfodol hefyd. Rhaid i'r Gwasanaeth Prawf ddarparu hyfforddiant priodol, llwyth gwaith hawdd ei reoli i'w ymarferwyr, a mynediad at wasanaethau arbenigol i weithio'n effeithiol gyda phobl ar brawf sydd â phroblemau cyffuriau.*[34]

### Beth nesaf?

Roedd yr Arolygiaeth yn siomedig mai dim ond yn rhannol y cytunwyd ar chwech o'r 14 o argymhellion yn ein thematig gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, o ystyried canfyddiadau'r adroddiad arolygu thematig hwn sy'n peri pryder, ac mae o'r farn bod angen i'r cynllun gweithredu cychwynnol fynd ymhellach, ar ôl cyhoeddi strategaeth ehangach y llywodraeth.

Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd strategaeth cyffuriau newydd y llywodraeth, a fydd, gobeithio, yn rhoi i'r Gwasanaeth Prawf y cyllid sydd ei angen arno – a'r gallu i greu

[33] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Action Plan Response to the Joint Thematic Inspection of Community-Based Drug Treatment and Recovery Work With People Under Probation.*

[34] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Government Drugs Strategy – A Statement from Chief Inspector of Probation Justin Russell.* Press release.

darlun clir o'r defnydd o gyffuriau a chomisiynu gwasanaethau arbenigol – i gryfhau pob agwedd ar ei waith gyda defnyddwyr cyffuriau.

## Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol: Adolygu'r dystiolaeth

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Cyd-grŵp Arolygu Cyfiawnder Troseddol (CJJIG) yr adroddiad a enwir uchod.[35]

### Crynodeb

Cafodd yr adolygiad annibynnol hwn o niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol ei gomisiynu gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ym mis Ionawr 2021. Arweiniwyd yr arolygiad gan Arolygiaeth Carchardai EM, ar ran CJJIG, ynghyd ag Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM fel arolygiaethau cyfranogol.

Mae cyflyrau niwrowahanol yn cynnwys awtistiaeth, anaf trawmatig i'r ymennydd, ac anawsterau ac anableddau dysgu. Roedd yr adroddiad hwn yn edrych ar ba gymorth oedd ar gael i'r rhai yn y System Cyfiawnder Troseddol sy'n byw gyda niwrowahanoledd.

Canfu'r adolygiad dystiolaeth o bartneriaethau lleol da a chlywsom am lawer o addasiadau syml y gellid eu gwneud yn rhwydd i gefnogi pobl niwrowahanol yn y System Cyfiawnder Troseddol. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

*'... mae'n amlwg bod darpariaeth o'r fath yn dameidiog, yn anghyson ac yn anghydlynol, ac nad oes digon yn cael ei wneud i ddeall a diwallu anghenion unigolion. Daw'r adroddiad hwn i'r casgliad, drwy asesu angen yn fwy effeithiol, addasu gwasanaethau a hyfforddi staff yn well, ei bod yn bosibl cefnogi'r rhai sydd â chyflyrau niwrowahanol, lle bynnag y maent yn y system cyfiawnder troseddol. Gall hyn helpu i dorri'r cylch sy'n effeithio ar ormod: troseddu, arestio, y llys, y carchar, y gwasanaeth prawf ac aildroseddu'.*[35]

### Beth roedden ni wedi'i ddweud

Dywedodd Prif Arolygydd y Gwasanaeth Prawf, Justin Russell: *'Pan fydd unigolion yn cyrraedd swyddfeydd prawf, maent eisoes wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol. Bydd eu profiadau blaenorol yn dylanwadu ar y modd y maent yn ymgysylltu ag ymarferwyr prawf ac a ydynt yn cael eu cymell i beidio â throseddu eto ai peidio. Mae'n hanfodol bod pobl â chyflyrau niwrowahanol yn cael eu canfod yn gynnar, fel y gall pob asiantaeth cyfiawnder troseddol – gan gynnwys gwasanaethau prawf – ddarparu'r gefnogaeth briodol. Mae angen hyfforddiant ar ymarferwyr prawf hefyd, er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n llawn ag unigolion yn eu goruchwyliaeth.*[36]

### Argymhellion

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithio gyda'r Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Adran Addysg, a Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol drosfwaol. Dylid datblygu'r strategaeth hon ar y cyd â phobl sydd â phrofiad personol o niwrowahanoledd Dyma ragor o argymhellion:

---

[35] Criminal Justice Joint Inspection Group. (2021). *Neurodiversity in the Criminal Justice System: A Review of Evidence.*

[36] *Neurodiversity in Criminal Justice System – More Effective Support Needed, Say Inspectorates.* Press release.

- dylid cyflwyno arf sgrinio cyffredin ar gyfer defnydd cyffredinol o fewn y System Cyfiawnder Troseddol
- dylid casglu a chyfuno data yn systematig er mwyn darparu asesiad mwy cywir o nifer yr achosion o niwrowahanoledd
- dylid datblygu rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant arbenigol a'i chyflwyno i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyfiawnder troseddol
- dylid gwneud addasiadau i ddiwallu anghenion y rhai sydd â chyflyrau niwrowahanol drwy'r System Cyfiawnder Troseddol
- Dylai asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol weithio gyda'i gilydd, a chyda sefydliadau eraill yn y sector statudol a'r trydydd sector, i ddeall a diwallu anghenion unigolion niwrowahanol yn y gymuned, atal troseddu a chefnogi adsefydlu.

### Beth nesaf

Cydnabyddir y bydd cynnydd yn y maes hwn yn cymryd amser ac ymrwymiad i wneud y newidiadau a awgrymir yn yr adroddiad. Y nod yw trawsnewid y profiad a'r canlyniadau i'r rheini sydd ag anghenion niwrowahanol.

Roedd yn ofynnol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ddarparu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad, wedi'i ddilyn gan ddiweddariadau ar y cynnydd ar ôl chwe mis a 12 mis.

Ym mis Ionawr 2022, nid oedd y cynllun gweithredu hwn wedi'i gyflwyno. Nodwyd mai effaith Covid-19, yr ad-drefnu gweinidogol a'r angen am ymgynghori pellach ag adrannau eraill oedd achos yr oedi yn y cynllun. Bydd yr Arolygiaethau'n parhau i fonitro hyn.

## Arolygiad thematig ar y cyd o'r daith cyfiawnder troseddol ar gyfer unigolion ag anghenion ac anhwylderau iechyd meddwl

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd CJJIG yr adroddiad a enwir uchod.[37]

### Ffeithiau am y Cyd-destun

- Ers 1987/1988, mae nifer y gwelyau iechyd meddwl yn Lloegr wedi gostwng 73 y cant, o tua 67,100 i 18,400 (20,000 ers 2009).
- Yn 2020/2021, roedd 110,768 o atgyfeiriadau i weithwyr iechyd meddwl cyswllt a dargyfeirio yn gweithio mewn gorsafoedd heddlu ac adeiladau llys.
- Yn 2019/2020, dywedodd heddluoedd fod nifer yr achosion o ddigwyddiadau iechyd meddwl mewn troseddau a gofnodwyd hyd at 24 y cant.
- Dywedodd 48 y cant o garcharorion mewn carchardai dynion a 70 y cant mewn carchardai i fenywod fod ganddynt broblemau iechyd meddwl.

### Crynodeb

Canfu'r arolygiad pwysig hwn gefnogaeth wael i bobl â phroblemau iechyd meddwl wrth iddynt symud ymlaen drwy'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Lloegr. Disgrifiodd yr arolygwyr y darganfyddiadau fel rhai 'siomedig' a dywedodd nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud ers yr adolygiad diwethaf yn 2009.

[37] Criminal Justice Joint Inspection Group. (2021). *A Joint Thematic Inspection of the Criminal Justice Journey for Individuals with Mental Health Needs and Disorders.*

Ar gyfer yr arolygiad hwn, dadansoddwyd 300 o achosion o wyth rhanbarth (Durham, Birmingham, Caerwysg, Gwent, Casnewydd, Manceinion Fwyaf, Bolton a Croydon) a chynhaliwyd cyfweliadau â 550 o staff y System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys ymarferwyr prawf. Yn ogystal, cynhwyswyd barn 67 o bobl ar brawf.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan:

- Arolygiaeth Prawf EM
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub
- Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
- Arolygiaeth Carchardai EM
- Y Comisiwn Ansawdd Gofal
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad hwn, dywedodd y Prif Arolygydd Prawf, Justin Russell:

*'Mae'r system cyfiawnder troseddol yn methu mewn perthynas â phobl sydd â salwch meddwl. Ar bob cam, nid yw eu hanghenion yn cael eu bodloni ac maent yn wynebu oedi annerbyniol wrth geisio cael cymorth. Nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud ers ein hymchwiliad diwethaf ar y cyd 12 mlynedd yn ôl i unioni'r diffygion hollbwysig hyn.*

*'Mae heddluoedd, erlynwyr, carchardai a gwasanaethau prawf i gyd yn asesu unigolion mewn gwahanol ffyrdd, sy'n arwain at fylchau ac anghysonderau. Hyd yn oed pan ganfyddir anghenion iechyd meddwl, nid yw'r wybodaeth bob amser yn cael ei chofnodi'n llawn nac yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau effeithiol'.*[38]

## Prif ganfyddiadau

### Anghenion iechyd meddwl

Mae miloedd o bobl sydd â salwch meddwl yn dod i'r System Cyfiawnder Troseddol bob blwyddyn, ond ar bob cam nid yw eu hanghenion yn cael eu bodloni. Roedd y system ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn ddiffygiol, gyda chamddealltwriaeth o reolau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn atal y broses hanfodol o rannu pryderon iechyd meddwl, a chofnodion anghyflawn, anghywir.

Roedd trosglwyddo gwybodaeth am iechyd meddwl, pan oedd ar gael, gan yr heddlu i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i gefnogi penderfyniadau cyhuddo yn wan ar y cyfan. Yn aml nid oedd swyddogion yn cynnwys deunydd perthnasol, a phan ofynnai Gwasanaeth Erlyn y Goron am ragor o wybodaeth, roedd hyn yn anochel yn achosi oedi. Roedd hyn wedyn yn cael effaith negyddol yn y llys.

Roedd ymarferwyr prawf yn aml yn cael eu llesteirio yn eu gwaith gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol nad oeddent yn 'caniatáu' iddynt weld gwybodaeth a gedwir am unigolion yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Yn yr un modd, lle'r oedd trefniadau comisiynu gwahanol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned a dan glo, nid oedd cyfnewid gwybodaeth yn ddi-dor ac nid oedd y rhai a oedd yn cael eu rhyddhau neu eu derbyn i'r carchar yn derbyn yr ymyriadau amserol yr oedd eu hangen arnynt.

---

[38] Criminal Justice Joint Inspection Group. (2021). *Criminal Justice System Failing People With Mental Health Issues – With Not Enough Progress Over the Past 12 Years.* Press release.

### Mynediad gwael at wasanaethau iechyd meddwl

Yr oedd prinder darpariaeth iechyd meddwl o ansawdd da, ac oedi annerbyniol cyn cael mynediad ato. Mae hyn wedi gwaethygu yn ystod pandemig Covid-19. Dywedodd unigolion mai'r gwasanaethau prawf a'r carchar oedd y ddwy asiantaeth fwyaf tebygol o roi iddynt y gefnogaeth iechyd meddwl yr oedd arnynt ei hangen.

Fodd bynnag, yn aml nid oedd cymorth yn amserol ac roedd mynediad at wasanaethau wedi bod yn broblem sylweddol yn ystod y pandemig. Gyda rhai eithriadau nodedig, roedd prinder gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd da, ynghyd ag achosion yn cael eu cau, wedi arwain at ychydig iawn o ymyriadau'n cael eu darparu. Yr oedd prinder gwasanaethau arbenigol, megis ymyriadau sy'n seiliedig ar ddiwylliannau, ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig, ac ychydig a oedd wedi'i wneud i gywiro'r broblem hon ers blynyddoedd lawer.

Roedd carchardai'n dal i gael eu defnyddio'n amhriodol fel 'lle diogel' tra'r oedd y llysoedd yn aros am adroddiadau seiciatrig cyn-treial, ac roedd trosglwyddiadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 o garchar yn cymryd llawer gormod o amser. Mae'r ddau fater hyn yn gwbl annerbyniol. Roedd prinder gwelyau iechyd meddwl lleol ar gyfer gofal tymor hwy yn parhau i fod yn broblem mewn nifer o ardaloedd. Arweiniodd hyn at unigolion agored i niwed gydag anghenion cymhleth yn cael eu cadw yn y carchar am lawer gormod o amser heb asesiadau amserol.

### Argymhellion

Gwnaeth yr adroddiad 22 o argymhellion i nifer o sefydliadau, gan gynnwys yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Prawf, y GIG a heddluoedd.

- nodi a sgrinio anghenion iechyd meddwl yn gyson ar wahanol gamau o daith unigolyn drwy'r System Cyfiawnder Troseddol
- sicrhau cyflenwad digonol o welyau ysbyty iechyd meddwl diogelwch canolig ac uchel er mwyn lleihau'r amseroedd aros annerbyniol ar gyfer trosglwyddo o'r ddalfa
- datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth aml-asiantaeth ar rannu gwybodaeth, er mwyn hyrwyddo cydweithio gwell a chanlyniadau gwell i bobl â phroblemau iechyd meddwl
- gwella ansawdd adroddiadau cyn-dedfrydu, sicrhau eu bod yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o drawma, anghenion iechyd meddwl a, lle nodir hynny, cynnig triniaeth briodol.

### Beth nesaf

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Tachwedd 2021. Mae'n siomedig felly nad yw cynllun gweithredu wedi'i dderbyn eto. Dylid cwblhau camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad, oni nodir yn wahanol.

## Defnyddio monitro electronig fel arf i'r Gwasanaeth Prawf i leihau aildroseddu a rheoli risg

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf EM yr adroddiad a enwir uchod.[39]

### Ffeithiau am y Cyd-destun

[39] HM Inspectorate of Probation. (2022). *The Use of Electronic Monitoring as a Tool for the Probation Service in Reducing Reoffending and Managing Risk.*

- Ar 31 Mawrth 2020, roedd 3,924 o bobl yn destun monitro electronig fel amod gorchymyn cymunedol.
- O'r rheini a oedd yn destun monitro electronig, roedd 473 yn destun gofyniad olrhain System Leoli Fyd-eang (GPS).
- Roedd 2,968 o bobl, ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa, yn destun monitro electronig ar 31 Mawrth 2020.
- 1,565 o ofynion cymunedol ar gyfer monitro ymatal rhag alcohol wedi eu cyhoeddi ym mis Medi 2021.

### Crynodeb

Erbyn hyn, mae tri math o dechnoleg monitro ar waith: tagiau amledd radio (yn bennaf ar gyfer monitro gofynion cyrffyw); technoleg GPS (i fonitro gofynion gorchymyn lleoliad a chau allan); a thagiau monitro alcohol – i fonitro ymatal rhag alcohol.

Ar unrhyw un adeg, mae oddeutu 8,000 o bobl ledled Cymru a Lloegr yn cael eu monitro'n electronig naill ai fel rhan o ddedfryd gymunedol neu ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. Edrychodd yr arolygiad hwn yn fanylach ar ddefnydd y Gwasanaeth Prawf o fonitro electronig i amddiffyn y cyhoedd, lleihau aildroseddu a chefnogi unigolion i symud tuag at fywyd di-drosedd.

Nid yw monitro electronig ei hun yn gysyniad newydd, ond mae newidiadau cyfreithiol a thechnolegol dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi ehangu ei ddefnydd a'i gwmpas. Mae GPS nawr yn gallu tracio unigolion gyda lefelau uwch o gywirdeb, ac mae dyfeisiau monitro alcohol yn darparu canlyniadau profion rheolaidd bob awr o'r dydd. Mae diddordeb gwleidyddol a chyhoeddus sylweddol mewn 'tagio', ond ychydig o ymchwil sy'n bodoli i effeithiau hirdymor hyn ar unigolion neu ei effaith ar gyfraddau troseddu.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau, dywedodd y Prif Arolygydd Prawf, Justin Russell:

*'Mae monitro electronig wedi cymryd camau breision dros yr 20 mlynedd diwethaf, diolch i newidiadau cyfreithiol a datblygiadau mewn technoleg fel GPS. Mae'r adnodd hwn o ddiddordeb gwleidyddol a chyhoeddus mawr – ond mae angen gwneud mwy i wireddu'r manteision llawn...*

*'Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch y broses a ddefnyddir i benderfynu a ddylid rhyddhau unigolyn yn gynnar o'r carchar a'i roi ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref. Dywedodd ymarferwyr prawf wrthym eu bod yn teimlo bod penderfyniadau bron bob amser yn cael eu pwysoli tuag at eu rhyddhau, gan arwain at ofynion cyrffyw amhriodol sy'n rhoi'r rheini sy'n rhannu eu cartref mewn perygl.*

*'Rhaid i'r Gwasanaeth Prawf edrych ar y mater hwn ar fyrder – nid yw'n gwneud synnwyr gosod pobl ar gyrffyw mewn cartrefi lle gallent beri risg i eraill'.*[40]

### Prif ganfyddiadau

Canfu ein harchwiliad fod monitro electronig yn aml yn cael ei drin fel rhywbeth 'ychwanegol', yn hytrach nag fel rhan annatod o oruchwyliaeth unigolyn.

#### Data a monitro electronig

Mae'r rhaglen monitro electronig yn cael ei rhedeg gan asiantaeth allanol a gwelsom fod hyn yn peri rhwystredigaeth i lawer o ymarferwyr prawf. Roedd gofyn am ddata ar symudiadau unigolyn yn broses a oedd yn cymryd llawer o amser ac roedd ansawdd y mapiau a dderbyniwyd yn wael. Nid yw'r contract gyda'r asiantaeth yn nodi amser ymateb – gwelsom

[40] HM Inspectorate of Probation. (2022). *Electronic Monitoring of People on Probation Underused and in Need of Improvement*. Press release.

enghreifftiau o ymarferwyr yn aros hyd at dri diwrnod am wybodaeth am leoliad mewn achosion risg uchel o niwed difrifol. Nid yw cynlluniau i sefydlu porth i roi mynediad i ymarferwyr prawf at ddata amser real am symudiadau a thorri rheolau o ran unigolion wedi cael eu cyflawni. Dywedodd bron pob un o'r ymarferwyr y buom ni'n siarad â nhw y byddai porth o'r fath wedi eu helpu i reoli achosion yn fwy effeithlon.

### Cam-drin domestig a monitro electronig

Gellir defnyddio cyrffyw cyfyngu i'r cartref mewn rhai achosion yn hytrach na charcharu ar gyfer y rheini sy'n gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnar o'r carchar. Dywedodd ymarferwyr prawf wrthym eu bod yn teimlo, bron bob amser, fod penderfyniadau'n cael eu gwthio tuag at ryddhau, beth bynnag fo'u pryderon. Roedd bylchau mawr yn yr asesiad a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniadau – yn anad dim, p'un a oedd y cyfeiriad arfaethedig ar gyfer cyrffyw yn addas. Heb bolisi cenedlaethol i orfodi archwiliadau diogelu a cham-drin domestig yn y cyfeiriadau hyn, gwelsom nad oedd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal bob amser. Mae'n destun pryder mawr meddwl bod pobl yn cael eu rhoi ar gyrffyw mewn cartrefi lle mae risg bosibl o niwed i, ne gan, bobl eraill. Rydym yn argymell adolygu'r broses hon ar frys.

### A yw monitro electronig yn gyfle a gollwyd?

Mae dyrannu monitro lleoliad GPS yn ddryslyd. Mae ar gael fel opsiwn dedfrydu mewn achosion risg is drwy'r llys, ond nid fel opsiwn ar gyfer monitro'r rheini sydd wedi cyflawni troseddau treisgar a rhywiol ac sy'n destun dedfrydau carchar penodol safonol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Mae'r rhain yn achosion lle byddai'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at ddiogelwch y cyhoedd. O ganlyniad, roedd rhanbarthau prawf yn dod o hyd i'w hatebion eu hunain ar gyfer y garfan hon drwy dagio gwirfoddol, wedi'i hwyluso gan bartneriaid yr heddlu.

Collwyd cyfleoedd i gydnabod cynnydd cadarnhaol neu gyfeirio pobl a oedd wedi cwblhau monitro alcohol at ffynonellau pellach o gefnogaeth. Dywedodd pobl ar brawf wrthym fod y defnydd o fonitro yn rhoi cyfnod o sefydlogrwydd iddynt a rheswm dros dorri cysylltiad â'r byd troseddol.

## Argymhellion

Daethom i'r casgliad fod gan fonitro electronig botensial sylweddol i ddod â gwerth i waith y Gwasanaeth Prawf. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith cyn gwireddu'r manteision hyn yn llawn. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys 17 o argymhellion – cytunwyd ar 13 a chytunwyd ar bedwar yn rhannol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- roeddem wedi argymell bod uwch arweinwyr HMPPS yn comisiynu ymchwil i ddeall effaith monitro electronig a sut i fanteisio i'r eithaf ar yr adnodd hwn.
- dylent hefyd nodi strategaeth ar gyfer ei defnyddio ar draws y Gwasanaeth Prawf a sicrhau bod ymarferwyr yn cael mynediad amser real at wybodaeth monitro electronig, yn ogystal â hyfforddiant i gryfhau eu gwybodaeth a'u hyder.
- gwnaethom nifer o argymhellion gweithredol hefyd i gefnogi defnydd yr adnodd o ran diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu.

### Beth nesaf

Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i'r adroddiad hwn yng nghynllun gweithredu'r llywodraeth ym mis Ionawr 2022.[41]

Er ei bod yn ddyddiau cynnar o ran camau gweithredu'r cynllun hwn, mae'r Arolygiaeth yn siomedig bod y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf hyd yma wedi cytuno'n rhannol â'n hargymhelliad i orfodi'r Gwasanaeth Prawf i wneud gwiriadau diogelu a cham-drin domestig cyn argymell dedfryd cyrffyw i'r llys neu ryddhau o'r carchar ar gyrffyw sy'n cael ei fonitro'n electronig – rhywbeth y canfu ein hadroddiad ei fod yn esgeulustod sy'n peri pryder ac a allai fod yn hepgoriad niweidiol yn y mesurau diogelu sy'n ymwneud â defnyddio monitro electronig.

[41] HM Prison and Probation Service and Ministry of Justice. (2022). *Thematic Inspection Report on Electronic Monitoring* Action Plan.

# 6. Adolygiadau o Droseddau Difrifol Pellach

## Crynodeb

Yn dilyn ein hadolygiad thematig o adolygiadau o Droseddau Difrifol Pellach ym mis Mai 2020, ac mewn ymateb i'n hargymhelliad y dylid cyflwyno sicrwydd annibynnol ynghylch y broses Troseddau Difrifol Pellach, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i'r Arolygiaeth ddarparu barn annibynnol ar ansawdd y gwaith mwyaf sensitif ac uchel ei broffil hwn, i helpu i sbarduno gwelliannau. Bydd yr Arolygiaeth yn sicrhau ansawdd oddeutu 20 y cant o adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach a gwblheir bob blwyddyn ac yn cyhoeddi crynodeb o'n canfyddiadau yn flynyddol.


**Ffeithiau am y Cyd-destun**

Nifer yr hysbysiadau am droseddau difrifol pellach (SFO) yn 2020/2021: 537[42]

Nifer yr adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach a gynhaliwyd o'r hysbysiadau: 473[4242]

Cynyddodd nifer yr hysbysiadau Troseddau Difrifol Pellach o 2014/2015 i 2016/2017, yn rhannol oherwydd cynnydd yn nifer y bobl sydd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf yn dilyn gweithredu Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014, a oedd yn ymestyn goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf ar drwydded i garcharorion cyfnod byr a fyddai, cyn hynny, wedi cael eu rhyddhau heb gyfnod ar drwydded. Ers 2016/2017, mae nifer yr hysbysiadau Troseddau Difrifol Pellach ac adolygiadau dilynol wedi gostwng 27 y cant, gan gynnwys gostyngiad yn y nifer sy'n gysylltiedig â thrais a throseddau rhywiol.

**Ffigur 15: Nifer yr hysbysiadau, adolygiadau ac euogfarnau SFO ar 30 Medi 2021**[42]




**Tabl 2: Nifer yr adolygiadau SFO a dderbyniwyd rhwng 01 Ionawr 2015 a 31 Rhagfyr 2020, yn ôl trosedd SFO ac a ydynt yn cael eu goruchwylio gan y**

[42] Ministry of Justice. (2021). *Serious Further Offences (SFO) 2021.* Bulletin.

**Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) neu Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC)**[43]

| Darparwr prawf | Trosedd | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **NPS** | Llofruddiaeth | 28 | 25 | 47 | 43 | 53 | 46 |
| | Dynladdiad | 2 | 3 | 5 | 2 | 5 | 2 |
| | Trais Rhywiol | 124 | 113 | 124 | 76 | 56 | 69 |
| | Trais yn erbyn y person | 95 | 105 | 149 | 137 | 122 | 168 |
| | Ymosodiad Rhywiol | 43 | 35 | 37 | 24 | 24 | 43 |
| **Cyfanswm NPS** | | *292* | *281* | *362* | *282* | *260* | *328* |
| **Cwmni Adsefydlu Cymunedol** | Llofruddiaeth | 42 | 47 | 65 | 71 | 84 | 71 |
| | Dynladdiad | 3 | 5 | 13 | 8 | 6 | 3 |
| | Trais Rhywiol | 101 | 141 | 132 | 73 | 54 | 54 |
| | Trais yn erbyn y person | 44 | 40 | 49 | 55 | 52 | 49 |
| | Ymosodiad Rhywiol | 12 | 2 | 14 | 4 | 2 | 4 |
| **Cyfanswm CRC** | | *202* | *235* | *273* | *211* | *198* | *181* |
| **Cyfanswm** | | **494** | **516** | **635** | **493** | **458** | **509** |

Mae'r rhan fwyaf o hysbysiadau Troseddau Difrifol Pellach am lofruddiaeth yn parhau i fod yn gysylltiedig ag achosion lle nodwyd yn flaenorol bod y person dan oruchwyliaeth yn cyflwyno risg isel neu ganolig, yn hytrach na risg uchel, o niwed difrifol (66 o'r 96 adolygiad a gynhaliwyd yn 2020/2021) – gan bwysleisio pwysigrwydd hanfodol cael yr asesiad risg cychwynnol hwn yn iawn ar ddechrau goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

**Tabl 3: Nifer a chyfran yr adolygiadau o Drosedd Difrifol Pellach lle'r oedd yr hysbysiad Trosedd Difrifol Pellach ar gyfer llofruddiaeth yn 2020/2021, yn ôl lefel risg o niwed difrifol**[44]

| Asesiad gwreiddiol y gwasanaethau prawf o'r risg o niwed difrifol[45] | Nifer yr adolygiadau llofruddiaeth SFO | Cyfran yr adolygiadau llofruddiaeth SFO (%) |
|---|---|---|
| Isel | 11 | 11 |
| Canolig | 55 | 57 |
| Uchel | 26 | 27 |
| Uchel iawn | 0 | 0 |
| Heb ei nodi | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | **96** | **100** |

Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae tua 50 y cant o hysbysiadau Troseddau Difrifol Pellach wedi ymwneud â Throsedd Difrifol Pellach honedig a arweiniodd at euogfarn yn y pen draw.

---

[43] Data wedi'i ddarparu gan Grŵp Gwarchod y Cyhoedd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

[44] Mae'r data wedi'i ddarparu gan Grŵp Diogelu'r Cyhoedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ac mae'n ymwneud â nifer yr adolygiadau sy'n cael eu cynnal ar unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar gyhuddiad o llofruddiaeth fel Trosedd Difrifol Pellach ac nid y rheini sy'n cael eu dyfarnu'n euog o Droseddau Difrifol Pellach.

[45] Data wedi'i ddarparu gan Grŵp Diogelu'r Cyhoedd HMPPS ac sy'n ymwneud â'r risg uchaf o niwed difrifol drwy gydol y ddedfryd fynegeio, nid y risg o niwed difrifol ar adeg y Trosedd Difrifol Pellach.

Ar gyfer gweddill yr achosion, bydd y naill gyhuddiad neu'r llall yn cael eu gollwng, bydd yr unigolyn yn cael ei ryddhau neu'n cael ei gael yn euog o drosedd llai difrifol.43

## Beth rydym yn ei wneud

Mae adolygiadau SFO yn cael eu sicrhau o ran ansawdd gan Arolygiaeth Prawf EM a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM mewn pedwar maes: dadansoddiad o ymarfer; dyfarniadau cyffredinol; dysgu; a dioddefwyr a'u teuluoedd. Mae'r safonau hyn yn nodi'r disgwyliad y bydd adolygiad Trosedd Difrifol Pellach yn darparu dadansoddiad cadarn a thryloyw o ymarfer, yn rhoi barn glir a chytbwys ar ddigonolrwydd ymarfer, yn galluogi dysgu priodol i yrru gwelliant ac sy'n addas i'w rannu gyda dioddefwyr (neu eu teuluoedd) ac yn diwallu eu hanghenion. Mae ein safonau hefyd yn rhoi ffocws newydd i'r gwaith rhyngasiantaethol hanfodol a wneir gan ymarferwyr prawf, gan geisio ysgogi gwelliannau lle bo angen. Rydym yn rhoi gradd gyfansawdd o naill ai 'Rhagorol', 'Da', 'Angen gwella' neu 'Annigonol', yn ogystal â graddio pob un o'r pedwar safon ansawdd unigol. Mae ein hadroddiadau sicrhau ansawdd yn egluro'n glir pam ein bod wedi rhoi graddau penodol, ac maent yn benodol o ran sut y dylid gwneud gwelliannau. Bydd angen ailgyflwyno rhai adolygiadau, er mwyn sicrhau bod yr holl newidiadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud.

Mae tîm SFO y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi dewis mabwysiadu ein safonau, ein rheolau, ein canllawiau a'n graddau. Rydym wedi gweithio'n agos gyda nhw i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u hyder, a oedd yn golygu arwain a hwyluso cyfres o weithdai a sesiynau meincnodi. Yn dilyn hyn, mae arolygwyr Arolygiaeth Prawf EM wedi darparu sesiynau briffio ar y cyd i reolwyr adolygu SFO lleol i esbonio'r newidiadau a sut y bydd safonau a graddau yn cael eu cymhwyso i'r adolygiadau y maent yn eu cwblhau a'r broses ar gyfer derbyn adborth.

### Beth wnaethon ni ei ganfod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Hydref 2021[46]

Yn ystod y cyfnod hwn, sicrhaodd yr Arolygiaeth ansawdd 36 adolygiad, 14 gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, saith gan is-adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a 15 gan ranbarthau'r Gwasanaeth Prawf unedig. Roedd yr adolygiadau'n ymwneud yn bennaf â dynion ar brawf, gyda dim ond un adolygiad yn ymwneud â menyw. Roedd tri deg naw y cant o achosion yn destun gorchymyn cymunedol a rhyddhawyd 61 y cant ar drwydded adeg yr SFO. Pan gyflawnwyd yr SFO, aseswyd bod wyth y cant o'r bobl dan oruchwyliaeth yn peri risg isel o niwed difrifol, 64 y cant yn peri risg canolig o niwed difrifol, 28 y cant yn peri risg uchel o niwed difrifol ac ni chanfuwyd bod yr un ohonynt yn peri risg uchel iawn o niwed difrifol. Adeg yr SFO, roedd 31 y cant o unigolion yn cael eu rheoli o dan lefel dau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a 61 y cant yn gymwys ar gyfer MAPPA.

**Tabl 4: Adolygiadau SFO yn destun sicrwydd ansawdd yn ôl math o drosedd**

| Trosedd | Nifer |
|---|---|
| Llofruddiaeth | 15 |
| Cynllwyn i lofruddio | 2 |
| Marwolaeth drwy yrru'n beryglus | 1 |
| Trais Rhywiol | 9 |
| Ymgais i dreisio | 1 |
| Trais a herwgipio | 2 |
| Ymosodiad ar blentyn o dan 13 oed drwy dreiddio | 2 |
| Llosgi bwriadol gan fwriadu peryglu bywyd | 2 |
| Camgarcharu | 1 |
| Lladrad arfog | 1 |

[46] Quality Assurance standards for probation Serious Further Offence Reviews.

O’r adolygiadau hyn o Droseddau Difrifol Pellach a archwiliwyd gennym, derbyniodd tri y cant (un adolygiad), radd gyfansawdd ‘Rhagorol’, roedd 58 y cant yn ‘Dda’, roedd 28 y cant ‘Angen gwella’ ac roedd 11 y cant yn ‘Annigonol’. Nid oedd bron i draean o’r adolygiadau wedi cynnal adolygiad digon cynhwysfawr. Mae hyn yn golygu nad yw’r dysgu angenrheidiol yn cael ei nodi’n gyflym gan ganiatáu i gamau gweithredu perthnasol gael eu rhoi ar waith yn dilyn trosedd difrifol arall. Dylai rhanbarthau’r gwasanaeth prawf sicrhau bod y dysgu a nodir drwy ein proses sicrhau ansawdd yn cael ei ymgorffori mewn trefniadau hyfforddi a datblygu i wella ansawdd adolygiadau.

Canfuwyd y canlynol:

- mewn tua thraean o’r adolygiadau a arolygwyd gennym, nid oedd y rheolwyr adolygu wedi dadansoddi’n ddigonol y rhesymau sylfaenol dros y diffygion mewn ymarfer. Er eu bod wedi canfod beth oedd y prif ddiffygion, nid aethant ymlaen i ddeall pam eu bod yn bodoli ac archwilio’r bylchau ymhellach. Ailadroddwyd y thema hon ym mhob un o’n meysydd arolygu – asesu, cynllunio, gweithredu a darparu, ac adolygu.
- roedd hyd at dri chwarter yr adolygiadau o Drosedd Difrifol Pellach fu’n destun sicrwydd ansawdd yn archwilio gwaith partneriaeth gydag asiantaethau eraill yn ddigonol. Canfuwyd bod diffyg craffu ar waith traws-asiantaeth rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a’r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, yn ogystal ag asiantaethau allanol, yn y chwarter arall, lle nad oedd meysydd fel diogelu plant a throseddau difrifol a threfnedig yn cael eu harchwilio’n ddigonol.
- er bod yr adolygiadau’n cynnwys barn y staff perthnasol, nid oedd hyn yn wir mewn chwarter o’r adolygiadau a oedd yn destun sicrwydd ansawdd gennym. Nid oedd rheolwyr adolygu yn cyfweld uwch arweinwyr y sefydliad yn gyson nac yn ystyried opsiynau eraill pan nad oedd ymarferydd allweddol ar gael i’w gyfweld. Arweiniodd hyn at fylchau yn yr adolygiadau SFO, ac er mwyn gwella ansawdd yr adolygiad mae ein harolygwyr wedi gwneud argymhellion i gyfweld eraill er mwyn ceisio rhagor o dystiolaeth.
- mewn mwy na hanner yr adolygiadau a arolygwyd gennym, ni nodwyd y dysgu cywir ar gyfer staff ar bob lefel, ac nid oedd dadansoddiad digonol ychwaith o’r diffygion a nodwyd. Rydym yn poeni nad oes gan reolwyr adolygu graddfa uwch swyddogion prawf efallai y statws gofynnol i graffu a herio’n gadarn y rheini sydd ar lefelau uwch yn eu sefydliadau.

**Sicrhau ansawdd SFO – enghraifft o adolygiad SFO ‘Rhagorol’**

Cafodd Mr Waqas* ei ddedfrydu yn 2018 i 40 mis o garchar am gario dryll wedi’i lwytho mewn man cyhoeddus a 24 mis o garchar am gynnau tanau’n fwriadol. Cafodd y Trosedd Difrifol Pellach, sef llosgi bwriadol gyda’r bwriad o beryglu bywyd, ei gyflawni ym mis Tachwedd 2020 ar ôl iddo gael ei ryddhau ar drwydded. Fel rhan o’i ryddhau, roedd Mr Waqas yn rhwym wrth amodau trwydded ychwanegol, megis preswylfa cyrffyw mewn adeilad cymeradwy, gofyniad i ddatgelu unrhyw berthynas bersonol agos a dim cysylltiad â’r dioddefwyr. Roedd lleoliad yr adeilad cymeradwy y tu allan i’r ardal leol, ac roedd trefniant ar waith i swyddog prawf lleol oruchwylio’r achos dros dro a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r swyddog prawf gwreiddiol. Gweithiodd y broses hon yn dda, ac roedd cysylltiadau rheolaidd yn digwydd. Cafodd y cysylltiadau eu rheoli drwy’r staff yn yr adeilad cymeradwy a’u darparu o dan gyfyngiadau Covid-19. Er bod y swyddog prawf yn cydnabod y byddai gwaith i fynd i’r afael ag ymddygiad troseddol Mr Waqas a’r risg o

niwed difrifol a berir yn galw am ymyriadau sy'n ymwneud â pherthnasoedd, lles a chamddefnyddio sylweddau, cafodd y ddarpariaeth ei gohirio. Un o'r bylchau sylweddol yn yr achos hwn oedd y ffordd y rheolwyd y broses o drosglwyddo'r achos pan gymeradwywyd cyfeiriad mewn ardal arall i symud ymlaen o'r adeilad cymeradwy. Bu oedi hir wrth brosesu'r trosglwyddiad, a arweiniodd at fethiant yn y goruchwylio a'r cyfrifoldeb. Drwy amryfusedd y rheolwyr ni nodwyd yr oedi.

Cafodd yr adolygiad SFO, yn dilyn proses sicrhau ansawdd, ei raddio'n 'Rhagorol' ac fe'i hysgrifennwyd i safon uchel, gydag adolygiad dadansoddol iawn o'r gwaith a wnaed yn yr achos hwn. Roedd dull y rheolwr adolygu yn ymchwiliadol ac wedi'i ymchwilio'n dda. Roedd yr adolygiad yn nodi'r cyd-destun, gan gynnwys llwyth achosion ymarferwyr a gofnodwyd gan yr adnodd rheoli baich gwaith, profiad staff perthnasol, ac ansawdd goruchwylio gan reolwyr. Cafwyd tystiolaeth bellach o'r wybodaeth hon drwy gyfweliadau gyda'r rheolwyr canol a'r uwch reolwyr perthnasol. Roedd yr adolygiad yn cymharu disgwyliadau trosglwyddo risg uchel a realiti ymarfer ar y rheng flaen pan oedd SPO yn anghytuno â pharamedrau trosglwyddo.

Roedd yr adolygiad SFO yn cynnwys ystyriaeth gyfannol o oruchwyliaeth rheolwyr ar gyfer staff ar bob lefel. Roedd yn dal y rheolwyr canol a'r uwch reolwyr yn briodol atebol am y diffyg goruchwyliaeth, gyda'r dysgu wedi'i gynnwys yn y cynllun gweithredu. Cafodd arferion effeithiol presennol eu nodi a'u harchwilio'n gywir. Roedd yr adolygiad yn dadansoddi'r ymarfer prawf yn ddigonol ac yn nodi'n glir lle'r oedd yr ymarfer yn unol â'r disgwyliadau. O safbwynt y dioddefwr a'i deulu, nododd yr adroddiad y meysydd perthnasol i'w gwella ac fe'i hysgrifennwyd mewn ffordd y gellid ei deall yn hawdd, gan ddefnyddio dull sensitif.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth o gyfweliadau ymchwiliol ac archwiliol a gwblhawyd, ac yn mynegi barn gytbwys am arferion unigolion a'r gwasanaeth prawf yn yr achos hwn.

Roedd nifer o bwyntiau dysgu yn y cynllun gweithredu, ac roedd y rhain wedi'u hysgrifennu'n dda ac yn syml. Roedd y cynllun gweithredu yn galluogi dysgu priodol i ysgogi gwelliannau ar bob lefel, gan gynnwys ymarfer uwch reolwyr mewn perthynas â throsglwyddo achosion risg uchel. Roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys yr holl ddysgu a gwella ymarfer yn ddigonol. Roedd yn egluro lle'r oedd yr hyn a ddysgwyd eisoes wedi cael ei symud ymlaen ac yn cadw pob cam gweithredu o fewn terfynau amser digon amserol. Roedd y rheolwr adolygu wedi nodi ac wedi ymateb i'r angen am hyfforddiant ychwanegol/dilynol. Roedd y cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl ddysgu perthnasol yn cael ei nodi a'i droi'n gamau datblygu y gellid eu datblygu a'u monitro er mwyn sicrhau nad oedd camgymeriadau tebyg yn cael eu gwneud yn y dyfodol.

**Mae'r enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.*

## Sicrhau ansawdd SFO – enghraifft o radd 'Annigonol'

Cafodd Mr Shaw* ddedfryd o bedair blynedd o garchar am ladrad. Hwn oedd ei euogfarn cyntaf ac felly ei gyswllt cyntaf a'i unig gyswllt â'r gwasanaethau prawf. Yn ystod y ddedfryd hon, cafodd ei ddyfarnu'n euog o glwyfo adran 18, a chafodd ddedfryd o garcharo 15 mis yn olynol. Cafodd ei ryddhau ar drwydded ym mis Gorffennaf 2016, ac ym mis Chwefror 2021 cafodd ei gyhuddo o drosedd llofruddiaeth.

Dyfarnwyd bod yr adolygiad SFO, yn dilyn proses sicrhau ansawdd, yn 'Annigonol'. Nid oedd yr adolygiad yn nodi pa archwiliadau diogelu a gynhaliwyd yn y llys, nac unrhyw ganlyniadau perthnasol. Ar ben hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth ynghylch a oedd

ymarferwyr yn y tîm yn cynnal archwiliadau diogelu neu gam-drin domestig yn rheolaidd, nac ynghylch ansawdd goruchwyliaeth gan reolwyr dros y gwaith hwn. Methodd yr adolygiad wrthgyferbynnu'n ddigonol ganfyddiadau staff prawf o'r risg o niwed a'r angen a nodwyd yn ystod yr asesiad, â'r gwaith a wnaed yn y camau cynllunio, darparu ac adolygu. Roedd arwyddocâd ac effaith y bylchau mwyaf tyngedfennol yn yr oruchwyliaeth naill ai'n aneglur neu ddim yn bodoli yn yr adolygiad.

Roedd craffu ar MAPPA yn yr achos hwn yn absennol, er i'r pennaeth gwasanaeth ddweud: *"roedd yn nodweddiadol i'r gwir lefel TACAA gael ei phennu ar ôl rhyddhau yn unig*." Dylai hwn fod wedi cael ei ddadansoddi a'i adolygu ymhellach. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o waith ymchwiliol a wnaed gan y rheolwr adolygu i ddatgelu ansawdd ymarfer MAPPA cyn-rhyddhau yn fwy cyffredinol na rhoi sicrwydd am welliannau a wnaed yn y cyfamser.

Nid oedd yr adolygiad yn rhoi cyd-destun ar gyfer y gwaith a wnaed gan y prif swyddogion cyfrifol, gan gynnwys rheoli llwyth gwaith, profiad a sgiliau staff perthnasol, diwylliant y swyddfa ac ansawdd goruchwylio gan reolwyr. Methodd y rheolwr adolygu â nodi, lle bo angen, yr hyn yr oedd angen rhoi sylw iddo drwy berfformiad staff, hyfforddiant a datblygiad, neu ddisgyblaeth. Ni wnaeth y rheolwr adolygu sylwadau ar waith amlasiantaeth perthnasol yn yr achos. Roedd yr adolygiad yn defnyddio dull disgrifiadol yn hytrach na dadansoddol wrth brosesu ac roedd yn anwybyddu'r ffactorau systemig a/neu weithdrefnol mewn perthynas ag ymarfer prawf a gwneud penderfyniadau. Ni archwiliwyd goruchwyliaeth y rheolwyr yn yr adolygiad. Ni wnaeth yr adolygiad sylwadau ar ymarfer aml-asiantaeth y gwasanaeth prawf.

Nid oedd adolygiad a chynllun gweithredu'r SFO yn galluogi dysgu priodol i ysgogi gwelliant, nid oedd yn cofnodi'r dysgu a/neu'r gwelliant mewn ymarfer a nodwyd, ac nid oedd yn egluro lle'r oedd y dysgu eisoes wedi'i symud ymlaen na lle'r oedd newidiadau eisoes wedi'u gwneud i bolisi lleol neu genedlaethol i sicrhau newid.

Nid oedd yr adolygiad SFO hwn wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion teulu'r dioddefwr – nid oedd yn briodol cynnwys gwybodaeth fanwl a sensitif yn ymwneud â'r dioddefwr. Nid oedd y rheolwr adolygu'n ystyried pa wybodaeth a allai fod yn fwyaf perthnasol i deulu'r dioddefwr, ac o ganlyniad nid oedd gwybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys. Methodd yr adolygiad ag egluro arwyddocâd diffygion a cholli cyfleoedd yn ystod yr achos, a'r effaith a gafodd y rhain. Cyflwynodd yr adolygiad farn aneglur, gyda bylchau yn y dystiolaeth ategol.

O ganlyniad i'r radd 'Annigonol', roedd gofyn i'r rheolwr adolygu gwblhau'r camau angenrheidiol ac ailgyflwyno'r adolygiad, er mwyn sicrhau bod yr holl welliannau priodol yn cael eu gwneud.

**Mae'r enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.*

## Beth nesaf

### Paneli dysgu aml-asiantaeth

Er mwyn gwella ymarfer a chryfhau gwaith partneriaeth y Gwasanaeth Prawf, mae'r Arolygiaeth yn creu paneli dysgu aml-asiantaeth i hyrwyddo dysgu ar y cyd drwy lens achosion Troseddau Difrifol Pellach. Mae adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach yn canolbwyntio ar ymarfer prawf yn unig; fodd bynnag, gwyddom fod y Gwasanaeth Prawf yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill ar reoli risg. Bydd y paneli hyn yn darparu cyfle dysgu ar y cyd i'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos.

Rydym yn ceisio dylanwadu ar welliannau yn y ffordd y mae gwasanaethau prawf yn cydweithio ag asiantaethau eraill, yn lleol ac ar lefel ranbarthol. Mae hyn yn hanfodol gan fod methiannau o ran gweithio mewn partneriaeth yn un o themâu cyffredin Troseddau Difrifol Pellach ac, o'r herwydd, mae'n faes y mae angen ei wella. Cynhaliwyd panel dysgu aml-asiantaeth peilot gennym yng Nghymru, a oedd yn cynnwys staff o'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, iechyd ac elusen cam-drin domestig annibynnol, ac arweiniodd hyn at ddysgu ar y cyd. Mae cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol wedi gweithio gyda'r Arolygiaeth i ddatblygu paneli rhanbarthol ac i ganfod partneriaid lleol ar gyfer y paneli dysgu.


### Mwy o graffu ar gynlluniau gweithredu SFO yn y rhaglen arolygu graidd

Mae arolygwyr sicrhau ansawdd SFO Arolygiaeth Prawf EM yn cefnogi'r rhaglen arolygu graidd drwy ddadansoddi ansawdd gweithredu cynllun gweithredu SFO a dysgu ar y cyd ar draws y rhanbarth ac o fewn unedau darparu'r gwasanaeth prawf. Bydd y dull hwn yn gofyn am ragor o wybodaeth am Droseddau Difrifol Pellach gan y gwasanaethau prawf a bydd yn cynnwys cyfweliad gyda'r uwch arweinydd ar gyfer Troseddau Difrifol Pellach yn y rhanbarth. Bydd y broses hon yn darparu archwiliad mwy cadarn o'r gwaith hwn ac yn cyfrannu at ganfyddiadau'r Arolygiaeth mewn adroddiadau arolygu lleol.

# 7. Mewnwelediadau Academaidd ac Ymchwil

| **Beth rydym yn ei wneud: Adolygu a datblygu'r gronfa dystiolaeth** |
|---|
| Mae ein fframwaith safonau arolygu prawf wedi'i seilio ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad, ac mae'n cael ei adolygu'n barhaus. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi *Bwletinau Ymchwil a Dadansoddi* a phapurau *Mewnwelediadau Academaidd* gyda dolenni clir i'n safonau darparu sefydliadol a goruchwylio achosion. |

| **Beth rydym yn edrych arno – darpariaeth sefydliadol** |
|---|
| Rydym yn archwilio pedair agwedd ar ddarpariaeth sefydliadol wrth arolygu gwasanaethau prawf. |





### Staff

Rydym yn edrych ar ba mor hawdd yw rheoli llwyth gwaith staff, ac mae pwysigrwydd hyn yn cael ei gydnabod yn y model gweithredu targed (TOM) ar gyfer y gwasanaeth unedig newydd: *'i ddarparu'r model gweithredu targed mae'n rhaid cael y nifer priodol o staff wrth eu gwaith i reoli'r llwyth achosion (denu a chadw pobl dalentog) ac sydd â'r sgiliau angenrheidiol i reoli risg, diogelu'r cyhoedd a helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i fywydau pobl (cefnogi a datblygu ein pobl).'*

Yn ein *Bwletin Ymchwil a Dadansoddi* ym mis Mawrth 2021[47], fe wnaethom edrych ar lwythi achosion, llwythi gwaith a lefelau staffio diweddar. Er nad oes 'rhif arbennig' ar gyfer y llwyth achosion delfrydol yn y gwasanaethau prawf, roedd ein dadansoddiad yn dangos sut y gall ansawdd y gwasanaeth prawf ostwng pan fydd ymarferwyr yn cynnal llwyth achosion dros 50.

[47] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Caseloads, Workloads and Staffing Levels in Probation.*

**Ffigur 16: Barn yr arolygwyr am ansawdd (pob cwestiwn crynodol) yn ôl nifer y llwyth achosion**




***Sylwer:*** *Mae'r llinell werdd yn dangos y ffin rhwng ein graddau 'Da' a 'Angen gwella' – hynny yw, y pwynt lle rydym yn barnu bod dros 65 y cant o achosion yn cael eu goruchwylio'n ddigonol.*


Mae tystiolaeth academaidd yn dangos bod lleihau llwyth achosion y gwasanaeth prawf yn gysylltiedig â gwell cydymffurfiaeth a gostyngiadau mewn aildroseddu. Gwnaethom nodi hefyd:

- y consensws ymysg staff ac uwch reolwyr mai'r nifer mwyaf o achosion y gellid eu rheoli'n dda oedd rhwng 50 a 60.
- roedd y llwyth achosion uwch ar staff, o ran straen, pryder a salwch, yn amlwg iawn.
- roedd yr uwch arweinwyr y buom ni'n siarad â nhw yn cytuno na ddylid cael mwy *'big bang'* yn y gwasanaeth prawf, gyda baich achosion yn cael eu cyfuno'n araf ar ôl y cyfnodau hyfforddi a chynefino priodol.

Mae angen adolygu'r *Adnodd Mesur Llwyth Gwaith* (WMT) a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf i fodelu gofynion staffio a senarios baich achosion tebygol er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir y gofynion o oruchwylio gwahanol fathau o achosion a ffyrdd o weithio yn y gwasanaeth unedig newydd, gan gynnwys goruchwyliaeth ffôn ac wyneb yn wyneb gyfun. Roedd ein hymchwil hefyd yn nodi'r angen i gyfleu pwrpas y WMT yn well i staff rheng flaen a chreu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae'r metrig capasiti yn ei wneud a'r hyn nad yw'n ei ddangos.

## Gwasanaethau

Rydym yn ystyried a yw nifer, ystod ac ansawdd priodol y gwasanaethau yn eu lle i ddiwallu anghenion pobl sydd ar brawf ac a yw'r berthynas â darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael ei sefydlu, ei chynnal a'i defnyddio'n effeithiol. Mae pwysigrwydd gwaith aml-asiantaeth cadarn, gyda chyfathrebu effeithiol a chyfnewid gwybodaeth yn systematig, wedi hen ennill ei blwyf. Drwy gydweithio o'r fath, gall y ddarpariaeth fod yn ddigon cyson, cyfannol a threfnus, gan gefnogi ymataliaeth unigolion ar brawf a diogelwch pobl eraill ar gamau allweddol yn y broses cyfiawnder troseddol.




Mae'r TOM ar gyfer y Gwasanaeth Prawf unedig newydd yn cydnabod pwysigrwydd cael gafael ar ymyriadau i helpu unigolion i adeiladu cyfalaf cymdeithasol: *'Mae ymyriadau sy'n adeiladu cyfalaf cymdeithasol yn debygol o gael eu darparu'n well gan ddarparwyr lleol arbenigol. Ein nod yw helpu Ymarferwyr Prawf i wneud atgyfeiriadau amserol a bod yn hyderus eu bod yn gallu cael gafael ar ymyriadau a gwasanaethau addas sydd ar gael drwy amrywiaeth o lwybrau, gan gynnwys y gwasanaeth arbenigol, cofleidiol, ymatebol sy'n cael ei ddarparu'n lleol, sy'n ofynnol gan ddarparwyr ar y Fframwaith Dynamig'.*[7]

Darllen pellach: Yn ein papur Mewnwelediadau Academaidd ar adeiladu cyfalaf cymdeithasol[48], cyflwynodd Dr Katherine Albertson grynodeb o'r cysyniad o gyfalaf cymdeithasol a sut gall cynnydd o ran cryfder, ystod ac ansawdd bondio, pontio a chysylltu fod yn fuddiol o ran cefnogi'r broses ymatal.

Mae defnyddio mentoriaid cymheiriaid yn cael ei gydnabod hefyd yn y TOM, gan nodi y bydd y gwasanaeth unedig yn 'gweithio gyda'r Rhwydwaith Dyfodol Newydd – sy'n helpu pobl sy'n gadael y carchar i gael gwaith – er mwyn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol, a chyn-ddefnyddwyr gwasanaeth, gael swydd gyda ni. Mae gwaith o dan arweiniad cymheiriaid, gan gynnwys cynlluniau mentora cymheiriaid, yn elfen hollbwysig o'r gwaith hwn.[7]

Darllen pellach: Yn ein papur Mewnwelediadau Academaidd ar fentora a mentora cyfoedion[49], crynhodd Dr Gill Buck y sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â mentora a mentora cymheiriaid, gan ganolbwyntio ar ei botensial ar gyfer cefnogi a grymuso unigolion i ymatal rhag troseddu. Mae'n tynnu sylw at sut y gall mentoriaid sy'n defnyddio eu profiadau eu hunain ysbrydoli'r rhai sy'n cael eu mentora mewn ffordd bersonol, cynnig lefelau uchel o gefnogaeth, sicrwydd ac anogaeth, a darparu pont i wasanaethau eraill.

Mae'r TOM hefyd yn cydnabod yr angen i roi mwy o sylw i rôl monitro electronig (EM): *'Byddwn yn sicrhau bod galluoedd Monitro Electronig yn cael eu hategu'n well mewn*

[48] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Social Capital Building Supporting the Desistance Process.*

[49] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Mentoring and Peer Mentoring.*

*strwythurau prawf er mwyn i ni wneud defnydd mwy effeithiol o'u potensial i wella cydymffurfio, diogelu'r cyhoedd a chanlyniadau aildroseddu'*.[32]

Darllen pellach: Yn ein papur Mewnwelediadau Academaidd ar EM mewn ymarfer prawf,[50] tynnodd yr Athro Anthea Hucklesby a Dr Ella Holdsworth sylw at y gwahanol fathau o EM a'r defnydd ohono. Er bod perthynas anesmwyth rhwng y gwasanaeth prawf ac EM, nodwyd bod cyfle clir yn awr i'r gwasanaethau prawf gymryd rhan yn y drafodaeth ar bolisi. Ceir tystiolaeth, pan gaiff ei ddefnyddio'n briodol, y gall EM gyflwyno rhywfaint o strwythur i fywydau'r rhai sy'n ei dderbyn, gan gynorthwyo gyda chyflogaeth, perthnasoedd teuluol a chydymffurfio â gofynion/amodau eraill gorchmynion llys. Fodd bynnag, mae teilwra ar gyfer yr unigolyn yn hollbwysig.

## Gwybodaeth a chyfleusterau

Mae ein safon 'gwybodaeth a chyfleusterau' yn tynnu sylw at bwysigrwydd dadansoddi, tystiolaeth a dysgu wrth ysgogi gwelliant. O fewn yr Arolygiaeth, rydym yn dechrau gyda'r egwyddor y dylai gwaith prawf fod yn seiliedig ar dystiolaeth neu fel arall wedi ei hysbysu gan dystiolaeth. Yn ein barn ni, mae lleihau aildroseddu a chadw'r cyhoedd yn ddiogel yn fwyaf tebygol os yw ymarfer prawf yn cyd-fynd â'r sylfaen dystiolaeth, ac os bydd y sylfaen dystiolaeth yn cynyddu dros amser.


Mae parhau i fuddsoddi mewn ymchwil a gwerthuso yn dal yn ofyniad, gydag ymrwymiad i ledaenu a hyrwyddo'r canfyddiadau. Yn ein bwletin *Ymchwil a Dadansoddi* (Chwefror 2021)[51], buom yn edrych ar rôl ddiweddar y gwasanaethau prawf o ran datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau prawf o ansawdd uchel. Er bod enghreifftiau o arferion da, mae'r gweithgareddau ymchwil a gynhaliwyd gan ddarparwyr dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfyngedig, ac mae wedi bod yn anodd pontio'r bwlch rhwng ymchwil, polisi ac ymarfer. Mae gwersi clir i'r rhai sy'n gweithredu'r model darparu newydd, fel bod: (i) ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r sylfaen dystiolaeth; a (ii) bod gwerthusiadau o ddulliau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu hannog, gan alluogi'r sylfaen dystiolaeth i barhau i dyfu.

---

50 HM Inspectorate of Probation. (2020). *Electronic Monitoring in Probation Practice.*

51 HM Inspectorate of Probation. (2021). *Building the Evidence Base for High-Quality Probation Services: The Role of Probation Providers*. Bulletin.

Rydym yn nodi'r pum gofyniad allweddol canlynol:





- **Gwreiddio diwylliant gwerthuso** Mae angen ymrwymiad llawer cryfach i adeiladu diwylliant sy'n seiliedig ar ymchwil/tystiolaeth, wedi'i ymgorffori'n gadarn i fodelau darparu ar draws y sefydliad.
- **Nodi'r bylchau critigol mewn tystiolaeth** Mae angen manteisio i'r eithaf ar adnoddau ymchwil, gan fynnu dull strategol, cydgysylltiedig a chyfannol o fonitro gweithgareddau ymchwil, nodi'r bylchau mwyaf beirniadol mewn tystiolaeth ac ystyried pa gwestiynau y gellir eu hateb yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, a phwy allai fod mewn sefyllfa dda i'w hateb.
- **Teilwra'r dulliau ymchwil**
Bydd cwestiynau ymchwil yn amrywio'n sylweddol o ran natur, ac mae angen amrywiaeth eang o ddulliau ymchwil, gan gydnabod y gall gwahanol ddulliau fod yn ategu ei gilydd. Mae lle i ymchwil seiliedig ar weithredu, gwaith astudiaeth achos manwl a dyluniadau arbrofol tymor hwy, yn ogystal â dulliau arloesol mwy newydd – er enghraifft, dulliau gweledol wrth gasglu data.
- **Cefnogi ymchwilwyr mewnol ac allanol:** Mae angen i'r rhai sy'n ymgymryd â phrosiectau ymchwil, boed yn staff mewnol neu'n ymchwilwyr allanol, gael digon o gefnogaeth. Mae hyn yn golygu llawer mwy nag adnoddau ariannol, sy'n gofyn am amser uwch staff a phorthorion ymrwymedig sy'n gallu hwyluso'r mynediad angenrheidiol.
- **Canolbwyntio ar ledaenu, ymgysylltu ac effaith:** Er mwyn i dystiolaeth gael ei defnyddio, gan effeithio ar bolisi ac ymarfer, mae angen ei hadrodd mewn ffyrdd clir a hygyrch. Dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau lledaenu a chyfathrebu, gan ganolbwyntio ar sicrhau ymgysylltiad a rhyngweithio ystyrlon, gan wreiddio diwylliant gwerthuso a chydweithio ymhellach.


## Beth rydym yn edrych arno – goruchwylio achosion

Mae ymarfer prawf cyfoes yn seiliedig ar fodel goruchwylio achosion ASPIRE (Asesu, Cynllunio, Gweithredu, Adolygu). Yn ein harolygiadau craidd, rydym yn barnu ansawdd y ddarpariaeth mewn achosion unigol yn erbyn camau'r broses ASPIRE, gan ystyried digonolrwydd y ffocws ar (i) ymgysylltu, (ii) ymatal a (iii) cadw pobl eraill yn ddiogel. Yn y TOM ar gyfer y Gwasanaeth Prawf unedig, mabwysiadwyd terminoleg Asesu, Diogelu a Newid, gyda'r bwriad o ddarparu 'yr adnoddau a'r gefnogaeth iawn i ymarferwyr asesu risg unigolyn, amddiffyn y cyhoedd a galluogi'r rhai y maent yn eu goruchwylio i newid eu hymddygiad sylfaenol i dorri'r cylch aildroseddu'.


Yn ein cylch diweddaraf o arolygiadau prawf, gwelsom berfformiad cryfach o ran ymgysylltu ac ymatal nag o ran rheoli risg o niwed – gyda dros hanner yr achosion a arolygwyd gennym yn 2019/20 yn cael eu barnu'n annigonol yn erbyn y gofyniad olaf hwn.




**Ffigur 17: Gweithredu a darparu gwasanaethau'n effeithiol ar gyfer pobl ar brawf (2018-2020)**



Darllen pellach: Yn ein papur Mewnwelediadau Academaidd ar risg ac ymataliaeth,[52] tynnodd yr Athro Hazel Kemshall sylw at bwysigrwydd dull cyfunol, gan gyfuno ymarfer i reoli risg ag ymarfer i wella ymataliaeth. Y nod a nodwyd yw ail-integreiddio unigolion ar brawf yn ddiogel i'r gymuned, gan ganolbwyntio'n ddeublyg ar: (i) amddiffyn yr unigolyn rhag rhagor o fethiannau, ynysu a stigma; a (ii) diogelu'r gymuned rhag rhagor o niwed. Yn ei hanfod, mae ymatal a rheoli risg yn gweithredu ar y cyd i sicrhau nad ydynt yn troseddu a sicrhau diogelwch y cyhoedd. Y dasg allweddol i ymarferwyr yw gweithredu mewn ffyrdd tryloyw, amddiffynadwy a thystiolaethol, gan geisio cydbwysedd priodol ym mhob achos unigol rhwng risg a hawliau, amddiffyn ac integreiddio, gwaith a rheolaeth sy'n cefnogi ymatal.




Mae'r TOM hefyd yn rhagweld gwelliannau yn y broses asesu a'r dulliau a ddefnyddir gan ymarferwyr.

Darllen pellach: Yn ein papur Mewnwelediadau Academaidd ar asesu anghenion,[53] tynnodd Kevin Wong a Rachel Horan sylw at y potensial ar gyfer gwelliannau o'r fath. Yn fwy penodol, edrychir ar y posibiliadau o integreiddio egwyddorion risg-anghenion-ymatebolrwydd ac egwyddorion ymatal, tra'n pwysleisio ei bod yn hanfodol i integreiddio o'r fath ddarparu ychwanegedd ac osgoi gwanedu (a ddylai fod yn destun profion). Rhoddir sylw wedyn i'r rôl y gall asesu ei chwarae wrth hwyluso ymgysylltu effeithiol. Yn hollbwysig, gall y broses asesu ei hun gyflawni diben sy'n mynd y tu hwnt i nodi'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod ei hangen a pha risgiau y mae angen eu hystyried. Mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer cydgynhyrchu, dangos gofal, a'r man cychwyn ar gyfer meithrin perthynas.

## 8. Ein canllawiau ymarfer effeithiol

Mae Arolygiaeth Prawf EM yn diffinio ymarfer effeithiol fel amgylchiadau '*lle caiff ein safonau arolygu eu cyflwyno'n dda yn ymarferol*.' Mae gennym rôl i'w chwarae o ran nodi a lledaenu arferion effeithiol, yn ogystal â herio perfformiad gwael ac annog gwelliannau.

Rydym yn gwneud hyn drwy ein harolygiadau unigol, ein harolygiadau thematig ac – yn fwy diweddar, gan ganolbwyntio mwy ar ymarfer effeithiol – drwy gyfres o gynhyrchion sydd wedi'u dylunio o amgylch ein safonau arolygu, sydd wedi'u gwreiddio yn y sylfaen dystiolaeth ymchwil ac ymarfer.

Ddiwedd 2020, fe wnaethom lansio ein canllawiau rheoli achosion ymarfer effeithiol ar wefan Arolygiaeth Prawf EM, gan drosi tystiolaeth o filoedd o achosion a arolygwyd yn adnodd dysgu. Y nod yw helpu staff rheng flaen a rheolwyr i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da a gwella canlyniadau i bobl sydd ar brawf. Mae'r canllawiau

[52] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Risk and Desistance: A Blended Approach to Risk Management.*

[53] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Needs Assessment: Risk, Desistance and Engagement.*

wedi'u llunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol prysur sy'n ceisio goruchwylio pobl sydd ar brawf yn effeithiol ac yn ddiogel.

Ar hyn o bryd, mae tair ffurf i'n canllawiau ymarfer effeithiol:

- canllawiau rheoli achosion
- canllawiau ymarfer effeithiol thematig
- seminarau thematig.

**Ar gyfer pwy mae'r canllawiau ymarfer effeithiol?**

Mae ein canllawiau wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym maes prawf a chyfiawnder ieuenctid ond maent yn berthnasol ar draws y system cyfiawnder troseddol. Mae rhai o'n canllawiau ar-lein yn llawlyfrau digidol, sydd ar gael mewn modiwlau byr i ymarferwyr sy'n rheoli unigolion ar brawf. Darperir ein canllawiau ymarfer effeithiol thematig drwy adroddiadau ac, mewn rhai achosion, drwy seminarau gydag ymarferwyr.

**Sut dylid defnyddio canllawiau ymarfer effeithiol?**

Mae'n ffynhonnell ar gyfer hunanasesu a datblygu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, drwy hunanfyfyrio. Gall helpu'r gwasanaethau i ddeall sut beth yw 'da' yn erbyn safonau arolygu, i gynllunio gweithredu ar ôl yr arolygiad neu ar gyfer dysgu a hyfforddiant cyffredinol. Gall gwasanaethau feincnodi eu hymarfer eu hunain yn erbyn safonau arolygu gan ddefnyddio'r safonau a'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym.

**Ymarferwyr – sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed**

Ni allwn ddangos sut beth yw ansawdd da heb gael adroddiadau uniongyrchol gan ymarferwyr prawf a phobl ar brawf. Rydym yn cyfweld cannoedd o ymarferwyr bob blwyddyn ynghylch yr achosion maent yn eu goruchwylio, gan ganolbwyntio ar achosion a ddechreuodd yn y chwe mis blaenorol, i'n helpu i ddeall yr heriau a'r llwyddiannau, a'r hyn sydd ei angen i sicrhau goruchwyliaeth gyson o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod nad oes 'un ateb i bawb': mae angen rhoi sylw i ymarfer a'i deilwra i amrywiaeth y bobl sydd ar brawf, eu cymunedau lleol a'r gwasanaethau sydd ar gael.

## Canllawiau ymarfer effeithiol

### Canllawiau goruchwylio achosion:

Mae'r canllaw hwn, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn ymdrin â goruchwylio achosion – cyfrifoldeb craidd ymarferydd prawf – a sut beth yw darparu cyson o ansawdd uchel, gan ganolbwyntio ar dri maes allweddol: **ymgysylltu, ymatal a chadw pobl yn ddiogel** ar draws y camau asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu ar gyfer pob person ar brawf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran 'ymarfer effeithiol' ar wefan Arolygiaeth Prawf EM.[54]

[54] HM Inspectorate of Probation. *Effective Practice.*

Ymgysylltu



*Dylai darparwyr prawf geisio cymell pobl sydd ar brawf i gydymffurfio ac ymgysylltu'n gadarnhaol â gofynion eu dedfryd.*

Ymataliaeth



*Un o ddibenion craidd y gwasanaethau prawf yw cefnogi'r rhai sydd dan oruchwyliaeth mewn ffordd sy'n lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn cyflawni rhagor o droseddau.*

Cadw pobl yn ddiogel



*Mae cadw pobl yn ddiogel yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd ac asesu a rheoli'r risg o niwed a achosir gan unigolion er mwyn amddiffyn dioddefwyr hysbys a dioddefwyr posibl yn y dyfodol. Gall gwaith amddiffyn y cyhoedd o ansawdd uchel leihau – ond nid dileu – y potensial ar gyfer risg o niwed i gymdeithas.*

### Canllawiau ymarfer effeithiol thematig

Mae'r Arolygiaeth yn cynhyrchu nifer o adroddiadau arolygu thematig, bob blwyddyn, gan ganolbwyntio ar faes o ddiddordeb a phryder am y gwasanaeth prawf. Mae tystiolaeth o'r adroddiadau hyn yn cael ei throsi'n ganllawiau ymarfer effeithiol: anogir ymarferwyr, rheolwyr canol ac arweinwyr strategol i fyfyrio ar eu profiadau eu hunain ac ystyried sut y gallant gymhwyso'r dysgu yn eu cyd-destunau eu hunain.

Yn 2020/2021, cafodd tri chanllaw ymarfer effeithiol thematig o'r fath eu cynhyrchu.

### Camddefnyddio sylweddau – gwersi allweddol

- ✓ Dylai arweinyddiaeth y sefydliad gefnogi a hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau, adferiad a gwasanaethau cymorth cysylltiedig o ansawdd uchel, personol ac ymatebol ar gyfer pawb sydd ar brawf.
- ✓ Mae angen sefydlu ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel, sy'n cefnogi gwasanaeth ymatebol, wedi'i deilwra ar gyfer pawb sydd ar brawf.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch/ lawrlwythwch y canllawiau ymarfer effeithiol ar gamddefnyddio sylweddau oddi ar wefan Arolygiaeth Prawf EM.[55]

### Adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach (SFO) – nodweddion allweddol adolygiad SFO da

- ✓ Dadansoddiad systematig o reolaeth prawf yr achos; cyd-destun ymarfer prawf; a'r penderfyniadau a wnaed.
- ✓ Ceir eglurhad clir o'r rhesymau dros ddigwyddiadau, yn ogystal â disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd a phryd.
- ✓ Dadansoddiad o unrhyw gyfleoedd a gollwyd i wella effeithiolrwydd goruchwyliaeth, argaeledd gwasanaethau a barn glir ynghylch a gymerwyd pob cam rhesymol i reoli'r risg o niwed yn yr achos.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch/ lawrlwythwch y canllawiau ymarfer effeithiol ar SFO oddi ar wefan Arolygiaeth Prawf EM.

---

[55] HM Inspectorate of Probation. (2020). *Serious Further Offence Reviews: Effective Practice Guide.*

## Monitro electronig – gwersi ymarfer effeithiol allweddol

- ✓ Dylid cyflwyno asesiadau risg cychwynnol ar gyfer pob math o dag i'r gwasanaeth monitro electronig o fewn 24 awr ar ôl dyrannu'r achos.
- ✓ Rhaid cynnal archwiliadau diogelu a cham-drin domestig cyn argymell cyrffyw.
- ✓ Ni ddylid argymell gofynion monitro ymataliaeth alcohol ar gyfer unigolion sy'n ddibynnol ar alcohol.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch/ lawrlwythwch y canllawiau ymarfer effeithiol ar fonitro electronig oddi ar wefan Arolygiaeth Prawf EM.

### Beth nesaf

Bydd yr Arolygiaeth yn ehangu ei darpariaeth o ran canllawiau ymarfer effeithiol, o ran cynnwys ac ymgysylltu. Er bod ein prif randdeiliaid yn sicr o fod yn ymarferwyr prawf, mae grwpiau eraill sydd â diddordeb, fel rheolwyr, yr heddlu a phartneriaid prawf eraill. Rydym yn casglu'r adborth a gawn gan randdeiliaid am ein hymarfer effeithiol, gyda'r bwriad o siapio'r cynnyrch a gynigiwn yn y dyfodol, fel eu bod yn parhau i fod mor berthnasol a buddiol â phosibl i bawb sy'n eu defnyddio.

# 9. Rhoi llais i bobl sydd ar brawf

Mae cynnwys pobl ar brawf ym mhob un o'n harolygiadau bellach yn rhan allweddol o'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi ymrwymo i wrando ar brofiadau pobl sydd ar brawf. Yn ein Strategaeth Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth (2019-2022),[56] dywedodd Prif Arolygydd y Gwasanaeth Prawf, Justin Russell:

*'Mae'n amlwg i mi, o arsylwi ein harolygiadau a siarad ag ymarferwyr ac eraill, bod angen i ni roi llais cryfach i'r rhai sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaethau rydym yn eu harolygu.*

*'Rhan sylfaenol o'n hasesiad o ansawdd gwasanaethau yw barnu darparwyr o ran pa mor dda maent yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r rhai maent yn eu goruchwylio ynghylch y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu ffurfweddu. Mae angen i ddefnyddwyr gwasanaeth gael y cyfle i ddweud beth sy'n gweithio iddyn nhw a theimlo eu bod yn cymryd rhan weithredol yn eu datblygiad a'u hadferiad eu hunain, nid dim ond derbyn y gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i'w helpu i gyflawni hynny.*

*Ond mae angen i ni fynd gam ymhellach na hynny. Rwyf am i'r Arolygiaeth ei hun fod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol sy'n ceisio ac yn ymateb i'r wybodaeth a'r profiad y gall y rhai sy'n cael eu goruchwylio eu cynnig'.*

### Ein strategaeth

Yn 2020, gwnaethom ymrwymiad i gyflogi arbenigwr yn eu maes i arwain y gwaith pwysig hwn, ac ymunodd Karen Kendall â ni fel Arweinydd Ymgysylltu. Wrth ystyried adroddiad blynyddol eleni, dywed: *"Rydym wedi gweithio'n galed – drwy gyfrwng strategaeth syml – i ennyn ymddiriedaeth pobl ar brawf a dealltwriaeth gwasanaethau prawf o bwysigrwydd ymgysylltu. Rhaid i hyn fod yn ddwyochrog – rydym am ddeall sut mae pobl ar brawf yn gweld eu proses adsefydlu er mwyn darparu canllawiau ar sut y gellir gwella ac, yn ei dro, sut y gall hynny ddylanwadu ar ostyngiad mewn aildroseddu."*

### Y strategaeth: cynllun tri cham

1. Gofyn am gyngor gan (cyn-)bobl ar brawf ar ein methodoleg arolygu sy'n datblygu.
2. Cynyddu cyfranogiad pobl ar brawf yng ngweithgareddau'r arolygiaethau.
3. Bod yn gyflogwr gwirioneddol gynhwysol drwy agor ein hymgyrchoedd recriwtio i'r rheini sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol eu hunain.

Isod, rydym yn rhoi sylw i'r tri amcan hyn ac yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ym mhob achos. Mae amcan dau yn cynnwys astudiaethau achos a thystiolaeth.

### Amcan 1: Gofyn am gyngor gan (cyn-)bobl ar brawf ar ein methodoleg arolygu sy'n datblygu

Wrth ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer ein cylch arolygu newydd, a ddechreuodd yn hydref 2021, buom yn ymgynghori'n uniongyrchol â phobl a oedd â phrofiad personol uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol.

Cawsom adborth a chyngor gwerthfawr am feysydd, megis yr hyn y dylem ei archwilio, y ffordd orau o gasglu barn pobl sydd â phrofiad o'r system brawf a'r hyn y dylem ei ofyn i bobl sydd ar brawf pan fyddwn yn arolygu. Mae'r mewnwelediad hwn wedi ein helpu i

56 HM Inspectorate of Probation. (2019). *Service User Engagement Strategy 2019-2022.*

ddatblygu set newydd o gwestiynau arolwg, sydd bellach yn cael eu defnyddio fel rhan o'n cylch arolygu. Dyma rai enghreifftiau o'r cwestiynau arfaethedig:

- Ydych chi'n cael eich trin yn deg?
- Ydych chi'n cael y lefel iawn o gyswllt â'ch swyddog prawf?
- Ydych chi'n cael cyswllt cyson â'ch swyddog prawf, ac ydych chi'n ymddiried ynddynt?

Yn dilyn uno'r gwasanaethau prawf ym mis Mehefin 2021, rydym wedi ymestyn yr adborth rydym yn ei gasglu gan bobl ar brawf yn ystod ein harolygiadau prawf lleol.

Yn ystod pob arolygiad o Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf lleol, byddwn yn awr yn cynnig cyfle i bawb sydd ar brawf yn yr ardal honno ymgysylltu â ni gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- arolwg neges destun
- arolwg papur
- cyfweliad dros y ffôn
- cyfleoedd grwpiau ffocws
- sgyrsiau wyneb yn wyneb mewn mannau fel swyddfeydd prawf a mannau gwaith di-dâl.

### Beth nesaf

Yn 2022, byddwn yn cyrraedd carreg filltir arall yn ein taith i roi llais cryfach i bobl sydd ar brawf. Rydym wedi comisiynu Llais Defnyddwyr, sefydliad sy'n cael ei arwain gan ac sy'n cyflogi pobl sydd wedi bod drwy'r system carchardai a phrawf eu hunain, i gasglu adborth gan bobl ar brawf ym mhob un o'r gwasanaethau lleol rydym yn eu harolygu dros y tair blynedd nesaf.

## Amcan 2: Cynyddu cyfranogiad pobl ar brawf yng ngweithgareddau'r arolygiaethau

Mae barn a phrofiadau pobl ar brawf wedi dod yn rhan gynyddol bwysig o'n harolygiadau thematig cenedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf ac maent bellach yn rhan safonol o'r dystiolaeth a gasglwn am yr holl arolygiadau hyn. I wneud hyn, rydym wedi comisiynu pum sefydliad gwahanol a oedd yn gallu cyflogi pobl a oedd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol eu hunain, i gyfweld dros 500 o bobl ar brawf ar ein rhan. Mae'r profiadau a geir yn y cyfweliadau hyn wedyn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'n prif adroddiadau arolygu, yn ogystal â chael eu plethu yn yr adroddiadau eu hunain.

Roedd yr arolygiadau a'r adolygiadau thematig hyn yn cynnwys:

- llety a chymorth i droseddwyr sy'n oedolion yn y gymuned ac ar ôl rhyddhau o garchar yn Lloegr.
- adolygiad thematig o ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau prawf sy'n adfer ar ôl effaith Covid-19
- cydraddoldeb hiliol yn y gwasanaeth prawf: profiadau defnyddwyr a staff gwasanaeth prawf du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- arolygiad thematig ar y cyd ar niwroamrywiaeth yn y system cyfiawnder troseddol: adolygiad o dystiolaeth

- arolygiad thematig ar y cyd o driniaeth cyffuriau yn y gymuned a gwaith adfer gyda phobl ar brawf
- profiadau bechgyn du a bechgyn o dras gymysg yn y system cyfiawnder ieuenctid
- arolygiad thematig ar y cyd o'r daith cyfiawnder troseddol ar gyfer unigolion ag anghenion ac anhwylderau iechyd meddwl
- defnyddio monitro electronig fel arf i'r Gwasanaeth Prawf i leihau aildroseddu a rheoli risg

Cafodd pandemig Covid-19 effaith ddigynsail ar ein dulliau arferol o gasglu adborth gan bobl ar brawf. O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, ac i sicrhau diogelwch pobl ar brawf, darparwyr gwasanaethau a staff y gwasanaeth prawf, cafodd pob cyfweliad wyneb yn wyneb ei ohirio. Roedd y sefydliadau y buom yn gweithio gyda nhw i gynnal y cyfweliadau hyn wedi ymateb yn greadigol i'r her hon ac wedi sefydlu model ymgysylltu o bell yn gyflym dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo. Bu'r dull hwn o gymryd rhan yn llwyddiannus ac mae wedi rhoi llawer iawn o adborth i ni y bu modd i ni ei ddefnyddio i'n helpu i lunio ein barn, yn ogystal â'i gynnwys yn ein hadroddiadau thematig.

Rydyn ni'n gwybod bod y gwaith hwn nid yn unig yn sail i ganfyddiadau'r archwiliadau thematig rydyn ni'n eu cynnal, ond mae hefyd yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl ar brawf sy'n cymryd rhan yn ein gwaith, fel sy'n cael ei ddangos yn y dyfyniadau canlynol:

***"Roedd yn wych, cefais fy nghlywed a'm deall o'r diwedd. Gobeithio fy mod wedi gwneud gwahaniaeth."***

***"Gobeithio bydd rhannu fy mhrofiad yn helpu pobl eraill i gael eu trin yn wahanol yn y dyfodol."***

***"Roedd yn wych cael fy nghlywed ac nid fy meirniadu."***

***"Mae wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi newid fy mywyd."***

## Amcan 3: Bod yn gyflogwr gwirioneddol gynhwysol drwy agor ein hymgyrchoedd recriwtio i'r rheini sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol eu hunain.

Mae gweithio gyda phobl sydd â phrofiad personol o'r system cyfiawnder troseddol, weithiau, yn agwedd llai cydnabyddedig ar wasanaethau prawf llwyddiannus. Roedd yr hen CRC yn awyddus i recriwtio pobl â phrofiad o'r fath. Roeddent yn gweld cyfle i gefnogi'r rhai a allai ddod â'u persbectif unigryw a gwerthfawr i'r gwaith a wnaethant; syniad a fabwysiadwyd gan y gwasanaeth unedig.

Yn yr Arolygiaeth, roeddem am fabwysiadu dull tebyg, ac rydym wedi gosod nodau clir ar sut i gynnwys y rheini sydd â chofnod troseddol neu sydd â phrofiad personol uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol, wrth recriwtio yn y dyfodol.

Mewn ymgyrchoedd recriwtio diweddar, rydym wedi annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir fel bod gennym weithlu sy'n cynrychioli'r gymdeithas ehangach yr ydym yn ei gwasanaethu ac rydym wedi sicrhau nad yw archwiliadau cofnodion troseddol cyn cyflogi yn atal pobl sydd â phrofiad personol o'r system rhag cael eu cyflogi. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r cynllun Camu Ymlaen i Waith (GFiE),[57] sy'n gynllun trawslywodraethol i gynyddu cyfleoedd bywyd cyn-droseddwyr, ymysg eraill, drwy ddarparu cyfleoedd gwaith yn y gwasanaeth sifil a allai arwain at gyflogaeth barhaol.

[57] About - Life Chances - Going Forward into Employment (GFiE) (blog.gov.uk)

Hefyd, pan fyddwn yn nodi rolau lle byddai persbectif profiadol yn arbennig o ystyrlon, byddwn yn glir am hyn yn ein negeseuon recriwtio.

### Llais pobl ar brawf

Drwy wrando ar brofiadau pobl sydd ar brawf, rydyn ni'n gwybod bod gennym ni gyfle i ddod â gwead gwahanol i ganfyddiadau'r gwaith arolygu rydyn ni'n ei wneud. Rydym hefyd yn gwybod o'n sgyrsiau gyda phobl ar brawf eu bod eisiau bod yn rhan o'r sgwrs. Mae pobl rydyn ni wedi siarad â nhw yn awyddus i ychwanegu eu llais at y corff o dystiolaeth rydyn ni'n ei gasglu wrth arolygu darparwyr prawf.

- Mae pobl ar brawf eisiau cymryd rhan weithredol wrth ganfod beth sy'n gweithio, a beth sydd ddim yn gweithio.
- Mae pobl ar brawf yn awyddus i fod yn rhan o'r ateb.
- Mae pobl sydd ar brawf yn croesawu'r cyfle i roi eu hadborth agored a gonest.
- Mae pobl ar brawf eisiau helpu i wella gwasanaethau prawf.
- Mae pobl ar brawf eisiau cyfrannu at drafodaethau ystyrlon i wella canlyniadau i bawb, nid dim ond i'w hunain.

### Y camau nesaf

Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i wreiddio llais pobl ar brawf yn ein gwaith arolygu. Rydym wedi lansio lle pwrpasol ar ein gwefan ar gyfer ein gweithgarwch cyfranogi ac ymgysylltu. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth a chynnyrch hygyrch i bobl ar brawf sy'n berthnasol ac sy'n adlewyrchu'r cyfraniadau pwysig a gwerthfawr y mae eu hadborth yn ei ddarparu i'r Arolygiaeth.

# Atodiad 1: Arolygiadau craidd o wasanaethau

## Crynodeb

Mae'r model darparu newydd ar gyfer y gwasanaeth prawf yn rhoi'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth y gwasanaeth prawf i un Gwasanaeth Prawf sy'n cael ei redeg gan y sector cyhoeddus, wedi'i gefnogi gan fframwaith deinamig o wasanaethau arbenigol wedi'u comisiynu. Rydym am sicrhau bod ein dull arolygu yn parhau i ganolbwyntio ar y pethau sy'n gwneud gwahaniaeth i ansawdd gwasanaethau prawf, ac felly rydym wedi sicrhau bod ein trefn arolygu yn cyd-fynd â'r model darparu newydd hwn ar gyfer y gwasanaeth prawf.

Buom yn ymgynghori, i ddechrau, ar ein safonau arolygu newydd a'n dull o arolygu'r Gwasanaeth Prawf unedig yn ystod haf 2020. Roeddem wedi treialu'r cynlluniau hynny yn ystod arolygiad o ddwy ardal leol NPS Cymru ym mis Rhagfyr 2020 ac roeddem wedi mireinio ein dull gweithredu mewn ymateb i'r dysgu a ddeilliodd o hynny. Fe wnaethom ymgynghori eto ar ein cynigion terfynol ym mis Mai 2021. Roedd ein hymgynghoriadau'n cynnwys y canlynol:

- a ddylem archwilio a sgorio ar lefel leol neu ranbarthol
- pa mor aml y dylem archwilio
- sut rydym yn dewis ein sampl achosion
- sut rydym yn archwilio amrywiaeth yn well
- a ddylem arolygu a sgorio canlyniadau cynnar ar gyfer pobl sydd ar brawf
- sut rydym yn cynnwys pobl sydd ar brawf yn fwy uniongyrchol wrth arolygu ac yn y penderfyniadau a wnawn.

## Cyd-destun

Yn dilyn y newid i'r Gwasanaeth Prawf unedig (Mehefin 2021), yn hydref 2021 roeddem wedi defnyddio ein methodoleg newydd am y tro cyntaf yn ystod yr arolygiad o Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, ac unedau darparu gwasanaeth prawf Gwent yn rhanbarth Cymru. Dewiswyd Cymru gennym, gan fod y broses o drosglwyddo rheolaeth troseddwyr wedi digwydd yn gynharach yno nag yn Lloegr (Rhagfyr 2019) ac felly roeddent wedi cael mwy o amser i ddefnyddio'r ffyrdd newydd o weithio. Fel y nodwyd gennym ym mhennod pedwar, mae'n amlwg bod y pandemig parhaus yn dal i effeithio ar wasanaethau prawf. Er ein bod yn cydnabod y cyd-destun hwnnw yn ein hadroddiadau ysgrifenedig, nid ydym wedi addasu ein meini prawf ansawdd oherwydd Covid-19. Er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, ac er mwyn tynnu sylw at y meysydd lle gellir gwella arferion, rydym yn parhau i farnu ansawdd y ddarpariaeth yn erbyn ein safonau gwreiddiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Os nad yw'r rhain wedi cael eu bodloni, am unrhyw reswm cyd-destunol, rydym yn dryloyw ynghylch hynny yn yr adroddiad ysgrifenedig.

## Yr hyn rydym yn ei archwilio

Credwn mai'r cyhoedd sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb yn yr hyn sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Prawf yn eu hardal leol. Gyda hyn mewn golwg, ac er mwyn rhoi darlun manylach o berfformiad i gyfarwyddwyr rhanbarthol, rydym wedi datblygu trefn arolygu sy'n canolbwyntio ar arolygu a graddio gwasanaethau a ddarperir ar lefel leol (PDU). Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw PDU yn gweithredu ar eu pen eu hunain ac felly rydym yn cynnal ymarferiad canfod ffeithiau, cyd-destunol ym mhob rhanbarth i gefnogi arolygiadau PDU, yn ogystal â sicrhau bod gennym wybodaeth gyd-destunol genedlaethol. Mae'r

wybodaeth hon wedyn yn helpu i lywio'r gwaith o arolygu pob PDU a gynhelir yn y rhanbarth hwnnw ac yn sicrhau bod argymhellion yn cael eu targedu ar y lefel briodol.

## Sut beth yw'r adolygiad rhanbarthol yn ymarferol?

Pwrpas yr adolygiad rhanbarthol yw dadansoddi swyddogaethau'r rhanbarth a nodi'r ffactorau rhanbarthol sy'n galluogi ac yn rhwystro PDU rhag cyrraedd ein safonau arolygu.

Dyma swyddogaethau'r adolygiad rhanbarthol:

- ✓ gosod y cyd-destun ar gyfer archwiliadau PDU
- ✓ helpu i egluro yn naratif y PDU y rhesymau dros ein canfyddiadau
- ✓ helpu i dargedu argymhellion ar y lefel gywir
- ✓ cyfrannu at arsylwadau rhanbarthol ynghylch cryfderau a meysydd posibl i'w gwella
- ✓ casglu gwybodaeth i lywio sylwadau a dadansoddiadau cenedlaethol.

Rydym yn defnyddio'r adolygiad rhanbarthol i ddadansoddi sut mae'r rhanbarth yn gweithio ac i ganfod beth sy'n helpu ac yn rhwystro PDU i gyrraedd ein safonau arolygu. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod, ar lefel ranbarthol, am ansawdd yr arweinyddiaeth; a yw'r adnoddau staff a'r arbenigedd priodol ar gael i ddarparu gwasanaeth o safon uchel; pa wasanaethau a ddarperir; pa wybodaeth sydd gan y rhanbarth a'r PDU am anghenion y boblogaeth y maent yn gweithio gyda hwy, yn ogystal â pha mor dda y maent yn perfformio; ac ansawdd y cyfleusterau sydd ar gael i ymarferwyr a phobl ar brawf i weithio ynddynt.

Cyn yr adolygiad, rydym yn gofyn am amrywiaeth o wybodaeth am waith y rhanbarth, er mwyn i ni gael gwell gwybodaeth pan fyddwn yn dechrau casglu ein tystiolaeth. Fel rhan o'r adolygiad rhanbarthol, byddwn yn cwrdd ag uwch arweinwyr, rheolwyr a staff eraill i'n helpu i ddeall ansawdd y ddarpariaeth, a'r effaith ar PDU. Rydym hefyd yn annog pob aelod staff rhanbarthol i ddweud eu dweud drwy arolwg staff.

Ar ôl yr arolygiad PDU olaf, byddwn yn cynnal rhai cyfarfodydd yn y rhanbarth er mwyn gwirio ein dealltwriaeth o'r materion yr ydym wedi eu canfod mewn mannau eraill, ac yn cyhoeddi llythyr ar gyfer y cyfarwyddwr  prawf rhanbarthol yn nodi'r prif sylwadau o'r adolygiad rhanbarthol a'r arolygiadau PDU.

Er ein bod wedi penderfynu peidio â sgorio rhanbarthau yn y lle cyntaf yn ogystal â PDU lleol, byddwn yn defnyddio blwyddyn gyntaf ein harchwiliadau PDU newydd i brofi ein dull gweithredu cyffredinol ac rydym yn awyddus i ystyried y potensial ar gyfer sgoriau arolygu rhanbarthol yn y dyfodol.

## Beth am y darlun cenedlaethol?

Mae'n bwysig inni fod yn gyfarwydd â pholisi a chyfarwyddebau cenedlaethol, fel y gallwn ddeall yr amgylchedd gwaith ar gyfer rhanbarthau a PDU. Gyda hynny mewn golwg, fe wnaethom gynnal adolygiad o'r cyd-destun cenedlaethol ar ddiwedd 2021.

Pwrpas yr adolygiad cenedlaethol oedd:

- ✓ gosod y cyd-destun ar gyfer adolygiadau rhanbarthol ac arolygiadau PDU
- ✓ helpu i egluro'r rhesymau dros ein canfyddiadau ar lefel PDU a rhanbarthol
- ✓ helpu i dargedu argymhellion ar y lefel gywir
- ✓ casglu data a gwybodaeth fel sail i'n hadroddiadau.

Adroddir ar y cyd-destun yr oedd y Gwasanaeth Prawf yn gweithio ynddo adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mhennod pedwar yr adroddiad hwn.

## Pa mor aml ydyn ni'n arolygu?

Mae'n bwysig inni ganiatáu digon o amser rhwng arolygiadau i wneud gwelliannau, gan beidio â'i adael cyhyd fel y gall ansawdd y ddarpariaeth lusgo. Rydym felly wedi penderfynu archwilio pob PDU unwaith bob tair blynedd. Mae hyn yn golygu y byddwn yn arolygu oddeutu traean o'r PDU ym mhob rhanbarth, bob blwyddyn.

## Sut beth yw arolygiad PDU yn ymarferol?

Rydym yn arolygu, yn cofnodi ac yn sgorio pob PDU yn erbyn yr un agweddau ag y byddwn yn edrych arnynt fel rhan o'r adolygiad rhanbarthol, ond o safbwynt lleol, felly mae hyn yn cynnwys arweinyddiaeth, staffio, gwasanaethau, gwybodaeth a chyfleusterau. Rydym yn siarad â rheolwyr ac ymarferwyr, partneriaid a rhanddeiliaid i ddeall sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu, sut mae achosion yn cael eu rheoli a pha ddarpariaeth sydd ar gael i fynd i'r afael ag aildroseddu a chadw pobl yn ddiogel, yn ogystal ag unrhyw weithgarwch cysylltiedig arall. O ganlyniad i natur leol arolygon PDU, rydym hefyd yn gallu edrych yn fwy manwl ar arloesi ac ar brosiectau a gwasanaethau a allai gael eu dylunio i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn benodol yn y maes hwnnw. Er enghraifft, yn ystod arolygiad PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn ddiweddar, gwelsom fod gwasanaeth niwroamrywiaeth arloesol wrthi'n cael ei gomisiynu i ddiwallu anghenion grŵp penodol o bobl ar brawf yn yr ardal honno.

Gellir cyflwyno cynllun rhanbarthol ar draws PDU, ond gall hyn ymddangos ychydig yn wahanol ym mhob PDU oherwydd amrywiadau mewn poblogaethau gwledig a threfol neu oherwydd gwahanol lefelau o angen. Mae ffocws ar PDU yn ein galluogi i asesu effaith leol yn fwy effeithiol.

Rydym hefyd yn edrych ar sampl o achosion i farnu ansawdd rheoli achosion. Rydym yn gwneud penderfyniad drwy edrych ar ddeunydd yr achos, siarad â rheolwyr achos a goruchwylwyr, a siarad â'r person sydd ar brawf lle bo modd. Mae hyn yn rhoi darlun cyflawn i ni o brofiad y gwasanaeth prawf. Rydym hefyd yn chwilio am unrhyw batrymau mewn ymarfer gwaith achos, sydd weithiau yn gallu rhoi syniad o sut y gellid gwella gwasanaethau. Yn arolwg PDU Castell-nedd Port Talbot Abertawe, gwelsom fod achosion trwydded yn gyson yn fwy tebygol o gael eu barnu fel rhai digonol o'u cymharu â gorchmynion cymunedol, ar draws pob agwedd ar ein hasesiadau rheoli achosion. Dangosodd ymchwil pellach fod yr achosion hyn yn fwy tebygol o fod wedi cael eu hasesu fel rhai a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod ag asiantaethau lluosog yn gweithio gyda hwy. Roedd hyn yn helpu i nodi ac atgyfnerthu pwysigrwydd ymarferwyr prawf yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i reoli pobl ar brawf yn fwy effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â risg o niwed.

Mae'r meysydd yr ydym yn edrych arnynt fel rhan o'n harolygiad rheoli achos yn cynnwys:

- **Gwaith llys** – a yw'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau (Rydym ond yn rhoi sgôr i'r gwaith llys a ddarperir gan y PDU sy'n cael ei arolygu)?
- **Asesu** - a yw'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf?
- **Cynllunio** - a yw cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac wedi'i bersonoli, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf?
- **Gweithredu a chyflawni** - a yw gwasanaethau cydlynol, personol o ansawdd uchel, gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?
- **Adolygu** - a yw adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf?

- **Canlyniadau** - a yw canlyniadau cynnar yn gadarnhaol, gan ddangos cynnydd rhesymol i'r person sydd ar brawf?
- **Gwaith statudol gyda dioddefwyr** – a yw gwybodaeth berthnasol ac amserol yn cael ei rhoi i ddioddefwyr trosedd difrifol, ac a roddir cyfle iddynt gyfrannu eu barn ar adegau allweddol yn y ddedfryd?

Caiff gwaith statudol gyda dioddefwyr ei arolygu mewn achosion perthnasol yn ystod arolygiadau PDU lleol, ond, gan fod y niferoedd yn fach, ni allwn adrodd arnynt ar lefel leol. Yn hytrach, byddwn yn adrodd ar y maes gwaith hwn yn flynyddol ar lefel genedlaethol.

Yn yr un modd, gellir adrodd ar waith di-dâl ac adsefydlu yn flynyddol (gan y byddwn yn gallu tynnu'r achosion hyn o'r samplau achos cyfunol) naill ai ar lefel ranbarthol (os bydd niferoedd yn caniatáu) neu genedlaethol. Ni fyddwn yn rhoi sgôr ar wahân i'r meysydd gwaith hyn ym mlwyddyn gyntaf y cylch arolygu newydd.

Mae'n bwysig bod ein penderfyniadau ar waith achos rheoli dedfrydau yn dangos cysylltiad clir â'r penderfyniadau a wnawn ar arweinyddiaeth. I'r perwyl hwn, rydym wedi sicrhau na all PDU gyrraedd gradd 'Rhagorol' ar gyfer arweinyddiaeth oni bai eu bod wedi cael gradd 'Da' neu 'Rhagorol' o leiaf ar bob un o'n safonau rheoli achosion.

## Sut rydym yn dewis ein sampl achosion?

Er mwyn barnu ansawdd rheoli achosion, rydym yn edrych ar bob achos (cymwys) mewn PDU o gyfnod penodol o bythefnos, chwe mis cyn i'n gwaith maes ddechrau. Os gall PDU ddangos bod rhywbeth arbennig o rhyfedd wedi digwydd yn ystod un o'r wythnosau hynny, neu'r ddwy, (er enghraifft, bod llys wedi gorfod cau neu fod y system technoleg gwybodaeth wedi methu), fel nad yw'r achosion yn cynrychioli gwaith o ddydd i ddydd yn dda, yna rydym yn newid ein paramedrau dyddiad gofynnol, drwy symud yr wythnos. Mae nifer yr achosion a arolygwyd ym mhob PDU yn adlewyrchu nifer yr achosion newydd sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth yn y cyfnod hwnnw o bythefnos. Gall hyn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar faint a chwmpas y PDU, ac mae'n debygol o amrywio o oddeutu 20 i 30 o achosion mewn ardaloedd llai i dros 100 yn y rhai mwy.

## Sut rydym wedi gwella rhai meysydd yn ein harchwiliadau?

### *Archwilio amrywiaeth*

Ym mis Mawrth 2021, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad arolygu thematig ar gydraddoldeb hiliol ym maes prawf[58]. Nodwyd gennym nad oedd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar brawf a phrofiadau staff o leiafrifoedd ethnig yn ddigon da. Gwelsom dystiolaeth o hyn ar lefel unigol ac ar lefel sefydliadol. Ar sail y canfyddiadau hyn, rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar gydnabyddiaeth ac ymateb gwasanaeth i faterion amrywiaeth yn ein safonau arolygu.

Mae ein harchwiliadau'n chwilio am dystiolaeth o ddull gweithredu personol. Rydym yn diffinio hyn fel un lle mae gwasanaethau'n cael eu teilwra i ddiwallu anghenion yr unigolyn, gan roi cymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl i bobl dros y gefnogaeth a gânt. Mae nodweddion gwarchodedig unigolyn (er enghraifft, rhyw, ethnigrwydd ac oedran) yn ogystal ag amgylchiadau personol (er enghraifft, pryderon iechyd meddwl, anghenion dysgu a chyfrifoldebau gofalu) wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn. Yr ydym yn chwilio am dystiolaeth bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r modd y bydd yr unigolyn hwnnw'n gallu ymateb i'r ymyriad hwnnw bryd hynny. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gweld bod ymyriadau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer menywod yn arbennig o ddefnyddiol ac effeithiol o ran cefnogi

[58] HM Inspectorate of Probation. (2021). *Race Equality in Probation: The Experiences of Black, Asian and Minority Ethnic Probation Service Users and Staff.*

newid parhaus a allai helpu i ddatblygu gwasanaethau tebyg ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill.

Fel rhan o'n hadolygiad o arweinyddiaeth, rydym wedi nodi disgwyliadau clir o ran amrywiaeth er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n cyflawni eu hymrwymiadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Deddf Cydraddoldeb 2010). Gallai hyn gynnwys deall, a strategaeth i fynd i'r afael ag unrhyw anghymesuredd o fewn y garfan o bobl ar brawf y maent yn gweithio gyda nhw.

Mae amrywiaeth hefyd yn rhan o'n harolygiad rheoli achos. Mae ein harolygwyr yn casglu tystiolaeth o ba mor dda mae gwasanaethau wedi ymateb i nodweddion gwarchodedig unigolyn a'i amgylchiadau personol.

Mae ein barn am amrywiaeth yn dylanwadu ar y sgoriau ar draws ein holl safonau arolygu. Ar ben hynny, rydym nawr yn adrodd ar amrywiaeth fel adran unigol ar wahân ym mhob adroddiad arolygu PDU lleol, yn seiliedig ar ein canfyddiadau ar draws yr arolygiad cyfan. Ni fydd y dangosyddion perfformiad allweddol hynny y bernir eu bod yn 'Annigonol' o ran eu hagwedd at amrywiaeth yn cael eu barnu fel rhai 'Rhagorol' ar arweinyddiaeth.

## *Barnu canlyniadau*

Rydym eisiau gallu dweud a yw darpariaeth o ansawdd da yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl ar brawf. Yn y pen draw, bydd y Gwasanaeth Prawf bob amser yn cael ei fesur yn erbyn y gyfradd aildroseddu, ond mae gennym gyfle i edrych ar ganlyniadau canolradd eraill wrth arolygu achosion, gan farnu a oes digon o gynnydd wedi'i wneud gan bobl ar brawf.

Rydym yn awr yn gwneud penderfyniadau ar bedwar maes allweddol sy'n ymwneud â'r cynnydd y mae person ar brawf yn ei wneud yn ystod ei gyfnod goruchwylio. Sef:

a) A fu gwelliannau yn y ffactorau hynny sydd â'r cysylltiad agosaf â throseddu wrth ddatblygu cryfderau a mynd i'r afael ag anghenion?

b) A fu gostyngiad yn y ffactorau sydd â'r cysylltiad agosaf â'r risg o niwed i eraill?

c) A fu gostyngiad mewn troseddu?

d) A gydymffurfiwyd yn ddigonol?

Rydym yn barnu a wnaed 'cynnydd digonol' yn ystod y cyfnod sy'n cael ei arolygu. Rydym yn ystyried anghenion y person unigol sydd ar brawf a'r hyn sy'n rhesymol iddynt ar yr adeg honno yn eu dedfryd pan fyddwn yn gwneud y penderfyniadau hyn. Gall archwilio ar lefel PDU ein galluogi i gysylltu darpariaeth y sefydliad â thystiolaeth o ganlyniadau a rheoli achosion.

Yn ein harolwg o Gastell-nedd a Phort Talbot, roeddem o'r farn mai dim ond mewn 33 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym y gwnaed cynnydd rhesymol yn erbyn anghenion yr unigolion. Mewn gwirionedd, bu cynnydd yn y gyfran a oedd yn ddigartref adeg yr arolygiad o'i gymharu â dechrau'r oruchwyliaeth er bod y gyfran mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg wedi aros tua'r un fath. Daethom o hyd i ddarlun tebyg yng Ngwent lle mai dim ond 31 y cant o'r achosion a farnwyd eu bod wedi gwneud cynnydd digonol. Aseswyd hyn gan nad oedd digon o gyswllt â phobl ar brawf, ac nad oedd digon o ymyriadau wedi cael eu darparu.

Roedd y canfyddiadau hyn yn siomedig. Fodd bynnag, gan fod arolygu canlyniadau yn rhywbeth newydd i ni, ni fyddwn yn rhoi sgôr i'n canfyddiadau yn y maes hwn nes ein bod wedi creu digon o dystiolaeth i farnu cynnydd digonol neu annigonol.

### *Cynnwys pobl ar brawf*

Rydym am roi llais cryfach i bobl sydd ar brawf a chlywed am yr hyn sydd wedi gweithio iddynt tra byddant dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. I'r perwyl hwn, rydym nawr yn rhoi cyfle i bawb sydd ar brawf mewn ardal leol roi adborth.

Yn gyntaf, rydym yn anfon arolwg neges destun byr, sy'n cynnwys nifer fach o gwestiynau, at bawb ar brawf. Mae'r arolwg hwn yn gofyn am eu profiad o'r gwasanaeth prawf, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ac ymyriadau yn ogystal â pherthynas ag ymarferwyr prawf.

Rydym wedyn yn cynnig cyfle i bobl sydd ar brawf ddarparu gwybodaeth ychwanegol os ydynt yn dymuno, drwy ddulliau eraill megis cyfweliad dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig. Er mwyn ein helpu i gyflawni'r dull gweithredu arfaethedig hwn a magu hyder pobl sydd ar brawf, er mwyn iddynt deimlo eu bod yn gallu rhannu eu gwir deimladau am eu goruchwyliaeth, rydym wedi comisiynu Llais Defnyddwyr, sefydliad sy'n cael ei redeg gan ac sy'n cyflogi pobl sydd wedi bod drwy'r systemau carchardai a phrawf eu hunain i gynnal cyfweliadau. Byddant yn recriwtio, yn hyfforddi ac yn rheoli rhwydwaith cenedlaethol bychan o gyfwelwyr maes sydd wedi bod dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf eu hunain yn y gorffennol. Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn darparu lle diogel i bobl sydd ar brawf roi adborth gonest.

Bydd arolygwyr yn ystyried y dystiolaeth hon wrth wneud penderfyniadau drwy gydol ein harolygiadau lleol. Yn ogystal, crynhoir canfyddiadau'r ymatebion hyn i'r arolwg a'r cyfweliadau gyda phobl ar brawf mewn adran benodol yn adroddiad yr arolygiad.